

Agenda – Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd	Lleu Williams, Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Iau, 11 Ionawr 2024	0300 200 6565
Amser: 09.30 – 14.15	SeneddDiwylliant@senedd.cymru

Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.15 – 09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (09.30)

2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25: sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

(09.30 – 11.00)

(Tudalennau 1 – 35)

- Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Llywodraeth Cymru
- Owain Lloyd, Cyfarwyddwr y Gymraeg ac Addysg, Llywodraeth Cymru
- Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

- Briff ymchwil: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25: Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
- Llythyr gan Gweinidog y Gymraeg ac Addysg: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023
- Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024–25 – Cyllidebau'r Gymraeg ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg



3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4, 5, 6, 7, a 10

(11.00)

Egwyl

(11.00 – 11.05)

4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25: trafod y dystiolaeth

(11.05 – 11.20)

5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25: craffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol

(11.20 – 11.45)

(Tudalennau 36 – 55)

Dogfennau atodol:

- Briff ymchwil: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – Y Prif Weinidog
- Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023

6 Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru: cynnig ffyrdd o weithio ynghylch ymweliadau tramor

(11.45 – 11.50)

(Tudalen 56)

Dogfennau atodol:

- Nodyn briffio: Ymweliadau tramor – cynnig ar ffyrdd o weithio

Cinio

(11.50 – 12.35)

7 Honiadau am fwlio yn S4C: briff ar gyfer sesiwn dystiolaeth

(12.35 – 13.00)

(Tudalennau 57 – 61)

Dogfennau atodol:

- Nodyn cyngor cyfreithiol: Honiadau am fwlio yn S4C

8 Honiadau am fwlio yn S4C: sesiwn dystiolaeth gydag S4C

(13.00 – 14.00)

(Tudalennau 62 – 88)

- Rhodri Williams, Cadeirydd, S4C
- Chris Jones, Aelod Anweithredol Arweiniol, S4C

Dogfennau atodol:

- Briff ymchwil: Honiadau am fwlio yn S4C
- Adroddiad Capital Law: Adroddiad ar yr amgylchedd waith a'r awyrgylch yn S4C – 6 Rhagfyr 2023
- Llythyr at BECTU: Honiadau am fwlio yn S4C – 20 Rhagfyr 2023
- Ymateb gan BECTU: Honiadau am fwlio yn S4C – 5 Ionawr 2024 (Saesneg yn unig)

9 Papurau i'w nodi

(14.00)

9.1 Cyngor Celfyddydau Cymru: Adolygiad Buddsoddi

(Tudalennau 89 – 109)

Dogfennau atodol:

- Cyngor Celfyddydau Cymru: Adolygiad Buddsoddi – Gwneud apêl
- Cyngor Celfyddydau Cymru: Adolygiad Buddsoddi – Ffurflen apelio
- Cyngor Celfyddydau Cymru: Adolygiad Buddsoddi – Crynodeb o'r broses apelio – National Theatre Wales
- Gohebiaeth gan Grass Under Foot: Cyngor Celfyddydau Cymru: Adolygiad Buddsoddi – 14 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)
- Llythyr gan National Theatre Wales: Cyngor Celfyddydau Cymru: Adolygiad Buddsoddi – 20 Rhagfyr 2023

9.2 Craffu ar waith Llyfrgell Genedlaethol Cymru

(Tudalennau 110 – 111)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at Lyfrgell Genedlaethol Cymru: Craffu cyffredinol ar waith Llyfrgell Genedlaethol Cymru – 13 Rhagfyr 2023

9.3 Craffu ar Chwaraeon Cymru

(Tudalennau 112 – 121)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan Chwaraeon Cymru: Craffu ar Chwaraeon Cymru – 7 Rhagfyr 2023
- Llythyr at Chwaraeon Cymru: Gwaith Craffu Blynyddol ar Waith Chwaraeon Cymru – 13 Rhagfyr 2023
- Ymateb gan Chwaraeon Cymru: Gwaith Craffu Blynyddol ar Waith Chwaraeon Cymru – 3 Ionawr 2024

9.4 Craffu ar waith Comisiynydd y Gymraeg

(Tudalennau 122 – 128)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at Comisiynydd y Gymraeg: Gwaith craffu blynyddol: cwestiynau dilynol – 5 Rhagfyr 2023
- Ymateb gan Gomisiynydd y Gymraeg: Gwaith craffu blynyddol: cwestiynau dilynol – 15 Rhagfyr 2023

9.5 Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig–Gwyddelig

(Tudalen 129)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan y Prif Weinidog: Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig–Gwyddelig yn Nulyn – 15 Rhagfyr 2023

9.6 Baden–Württemberg: Cyd-ddatganiad Cydweithredu

(Tudalennau 130 – 131)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at y Prif Weinidog: Baden–Württemberg: Cyd-ddatganiad Cydweithredu – 19 Rhagfyr 2023

9.7 Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE

(Tudalennau 132 – 145)

Dogfennau atodol:

- Entourage Pro: Brexit and Pandemic Impact Report – 'Then & Now' 2019–2023 (Saesneg yn unig)

9.8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25

- Ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid: [Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – pecyn ymatebion](#) [PDF 26MB]

9.9 Llinell Gwasanaeth Cymraeg y DU gan HSBC

(Tudalennau 146 – 158)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg at HSBC UK: Llinell Gwasanaeth Cymraeg y DU gan HSBC – 8 Tachwedd 2023
- Llythyr at HSBC UK: Llinell Gwasanaeth Cymraeg y DU gan HSBC – 11 Rhagfyr 2023
- Ymateb gan HSBC UK: Llinell Gwasanaeth Cymraeg y DU gan HSBC – 21 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)
- Llythyr at Gweinidog y Gymraeg ac Addysg: Llinell Gwasanaeth Cymraeg y DU gan HSBC – 11 Rhagfyr 2023
- Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg at HSBC UK: Llinell Gwasanaeth Cymraeg y DU gan HSBC – 21 Rhagfyr 2023

9.10 Llywodraethiant y DU a'r UE

(Tudalennau 159 – 160)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Llywodraethiant y DU a'r UE – 19 Rhagfyr 2023

9.11 Model ariannu cylchgronau Cyngor Llyfrau Cymru

(Tudalennau 161 – 168)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at Gyngor Llyfrau Cymru: Model ariannu cylchgronau Cyngor Llyfrau Cymru – 13 Rhagfyr 2023
- Ymateb gan Gyngor Llyfrau Cymru: Model ariannu cylchgronau Cyngor Llyfrau Cymru – 20 Rhagfyr 2023

9.12 Comisiynydd y Gymraeg: Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg

(Tudalennau 169 – 183)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg: Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr – 17 Tachwedd 2023
- Adroddiad Comisiynydd y Gymraeg: Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr – 17 Tachwedd 2023
- Llythyr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr – 21 Rhagfyr 2023

9.13 Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru

(Tudalennau 184 – 214)

Dogfennau atodol:

- Adroddiad y BBC: Doctor Who: Economic Impact – Tachwedd 2023 (Saesneg yn unig)
- Llythyr at yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru – 8 Rhagfyr 2023

- Llythyr at ITV: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru – 11 Rhagfyr 2023
- Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru – 15 Rhagfyr 2023
- Ymateb gan yr Adran Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru – 18 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)

9.14 Dileu swyddi yn Reach

(Tudalennau 215 – 216)

Dogfennau atodol:

- Gohebiaeth gan Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ): Dileu swyddi yn Reach – 12 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)

9.15 Wcreineg yng Nghymru

(Tudalennau 217 – 219)

Dogfennau atodol:

- Ymateb gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Wcreineg yng Nghymru – 13 Rhagfyr 2023

9.16 Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru

(Tudalennau 220 – 223)

Dogfennau atodol:

- Adroddiad Llywodraeth Cymru: Supporting Shared Learning – Ireland and Wales – Hydref 2023 (Saesneg yn unig)
- Ymweliadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru – Tachwedd 2023 (Saesneg yn unig)

9.17 Honiadau am fwlio yn S4C

(Tudalennau 224 – 227)

Dogfennau atodol:

- Gohebiaeth gan unigolyn – 20 Hydref 2023 (Saesneg yn unig)
Llythyr gan Cwmni Da: Honiadau am fwlio yn S4C – 1 Rhagfyr 2023

10 Honiadau am fwlio yn S4C: trafod y dystiolaeth

(14.00 – 14.15)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/JMEWL/3107/23

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau
Rhyngwladol

20 Rhagfyr 2023

Annwyl Delyth

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Hydref yn craffu ar gyllideb 2024-25 Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr.

Mae'r papur amgaaedig yn darparu manylion ar gynlluniau ym maes y Gymraeg fel y nodwyd yn y gyllideb ddrafft ynghyd â gwybodaeth bellach ar y meysydd penodol y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at gynnig diweddariad i'r Pwyllgor yn ystod ein sesiwn tystiolaeth lafar ar 11 Ionawr 2024.

Yn gywir,

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 14
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Cyllidebau'r Gymraeg ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg

11 Ionawr 2024 (9.30-11.00)

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol am ddyraniadau cyllidebol sy'n berthnasol i'r Gymraeg yn y cynigion ar gyfer Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg a amlinellwyd yng Nghyllideb ddrafft 2024-25, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2023. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

1. Sylwebaeth ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

- 1.1 Pan wnaethom gyhoeddi ein Hadolygiad amlflwydd o Wariant Cymru yn 2022, nodwyd cynlluniau uchelgeisiol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith. Roedd cyllidebau a bennwyd ar gyfer cyfnod o dair blynedd i ddechrau yn adlewyrchu cynnydd¹ o £5.8m (15.4%) yn 2022-23, gyda chynnydd pellach o £3m (6.9%) yn 2023-24 a £3.5m (7.5%) yn 2024-25 a oedd yn gysylltiedig yn benodol â'r Cytundeb Cydweithio. Yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf gwnaethom barhau â'r cyllid hwnnw, gan roi cynnydd refeniw o £0.15m i Gomisiynydd y Gymraeg o 2023-24.
- 1.2 Yn wyneb yr amgylchiadau ariannol eithriadol rydym yn eu hwynebu bu angen dull mwy sylfaenol. Rydym wedi ail-lunio'r dyraniadau o wariant dangosol yn ein cyllideb i roi cyllid ychwanegol i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru a'u diogelu, sef y GIG a setliad llywodraeth leol craidd, sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol a gwasanaethau pob dydd eraill. Mae hyn wedi arwain at ailflaenoriaethu ychydig o dan £103m (5.68%) o gyllideb y Gymraeg ac Addysg.
- 1.3 Rydym wedi gweithio'n galed i gyfyngu ar yr effeithiau ar gyllid ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys parhau â'r cyllid sy'n gysylltiedig â'r Bil Addysg Gymraeg, Mudiad Meithrin a chyllideb Cymraeg mewn Addysg. O ganlyniad i'r ymarfer ailflaenoriaethu ar gyllidebau'r Gymraeg mae'r swm o £3.668m wedi cael ei ddychwelyd i'r cronfeydd wrth gefn. Er ein bod yn ailflaenoriaethu £3.5m o'r cyllid sy'n gysylltiedig â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, rydym yn cynnal cyllidebau at lefelau 2023-24 er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu ar sector y Gymraeg. Caiff y cyllid hwn ei ailbroffilio a'i ystyried yng nghyd-destun y systemau sy'n cael eu datblygu ar gyfer ymrwymadau ariannol parhaus o dan y Cytundeb Cydweithio, fel y'i nodwyd ym mhennod 1 o naratif y brif gyllideb ddrafft. Mae penderfyniad trawslywodraethol wedi arwain at ostyngiad o 5% yng nghyllideb y pedwar Comisiynydd statudol, gan gynnwys £0.168m ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg (gweler adran 3.2).

¹ Cyllidebau o fewn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Cymraeg 2050 (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol), Cymraeg mewn Addysg, y Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg yn unig.

1.4 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r newidiadau i gyllidebau'r Gymraeg ar gyfer 2024-25.

Cam Gweithredu	Llinell Wariant yn y Gyllideb	£000oedd				
		2024-25 Dangosol (Cyllideb Derfynol 2023-24 – Chwefror 2023)	2024-25 Cyllid a Aiflaenoriaethwyd	2024-25 Cyfuno Grantiau	2024-25 Newidiadau Eraill	2024-25 Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2023)
		£000oedd				
Cymorth Addysg Cyn-16 drwy ALLau	<i>Cymraeg 2050</i> (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol)	0	0	9,770	0	9,770
Cyfanswm Cymorth Addysg Cyn 16 drwy ALLau		0	0	9,770	0	9,770
Cymraeg mewn Addysg	Cymraeg mewn Addysg	24,275	-3,500	-2,200	-1,675	16,900
Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg		24,275	-3,500	-2,200	-1,675	16,900
Y Gymraeg	Y Gymraeg	22,404	0	-500	1,675	23,579
	Comisiynydd y Gymraeg	3,357	-168	0	0	3,189
	Comisiynydd y Gymraeg - Heb Fod yn Arian Parod	121	0	0	0	121
Cyfanswm y Gymraeg		25,882	-168	-500	1,675	26,889
Cyfanswm Cyllidebau Adnoddau'r Gymraeg		50,157	-3,668	7,070	0	53,559
Y Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg - Heb Fod yn Arian Parod	50	0	0	0	50
Cyfanswm y Gymraeg		50	0	0	0	50
Cyfanswm Cyllidebau Cyfalaf y Gymraeg		50	0	0	0	50
Cyfanswm Cyllidebau'r Gymraeg		50,207	-3,668	7,070	0	53,609

1.5 Fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol, er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar eu gwaith hollbwysig o ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Felly, yn y gyllideb hon, rydym yn cynnig dull newydd o ymdrin â chyllid grant addysg cyn 16, er mwyn sicrhau nad yw awdurdodau lleol nac ysgolion yn cael eu llesteirio gan fiwrocratiaeth ddiangen. O 2024-25, rydym yn cynnig y dylid cyfuno'r grantiau i awdurdodau lleol a chonsortia, gan gynnwys grantiau'r Gymraeg, yn un cynllun grant o'r enw Grant Addysg i Awdurdodau Lleol. Bydd y cynllun grant hwn yn cynnwys pedair elfen o gyllid addysg, gan gynnwys *Cymraeg 2050* (y lleill yw Safonau Ysgolion, Tegwch a Diwygio).

1.6 Bydd y cyllid hwn yn hollbwysig er mwyn cyflwyno'r Bil arfaethedig ar Addysg Gymraeg. Bydd y Llinell Wariant newydd yn y Gyllideb ar gyfer *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol) yn darparu cyllid o £9.77m drwy'r grant hwnnw, gan gyfuno cyllid y Grant Cymraeg mewn Addysg (Llinell Wariant yn y Gyllideb Grant Gwella Ysgolion), Dysgu Proffesiynol (Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon), darpariaeth trochi hwyr (Llinell Wariant

yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg) a'r Siarter Iaith (Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg).

- 1.7 Drwy ymgorffori'r newidiadau hyn, bydd cyfanswm cyllideb ddangosol o **£53.6m** i gefnogi'r Gymraeg **yn 2024-25** – £53.559m adnoddau a £0.05m cyfalaf (heb gynnwys Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg drwy Llinell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg – ceir rhagor o wybodaeth yn adran 3.3).
- 1.8 Yn unol â chais y Pwyllgor, atodir dadansoddiad manwl o ddyraniadau cyllideb ddrafft 2024-25 (fel y bo'n berthnasol i'r Gymraeg), alldro terfynol ar gyfer 2022-23, ynghyd â'r rhagolwg o'r alldro ar gyfer 2023-24, yn **Atodiad A**. Mae hyn yn cadarnhau mai'r alldro terfynol ar gyfer cyllidebau'r Gymraeg (Llinellau Gwariant yn y Gyllideb y Gymraeg, Cymraeg mewn Addysg a Chomisiynydd y Gymraeg) yn 2022-23 oedd £44.937m (£44.695m adnoddau a £0.242m cyfalaf) a'r rhagolwg o'r alldro (yng nghyfnod 7) ar gyfer 2023-24 yw £48.643m (£48.593m adnoddau a £0.05m cyfalaf).
- 1.9 Mae'n bwysig nodi mai'r nod yw prif ffrydio *Cymraeg 2050* ym mhob un o feysydd portffolio Llywodraeth Cymru, ac mae gwariant ar yr iaith wedi'i ymgorffori eisoes yn y broses gyflawni mewn llawer o bortffolios gweinidogol eraill. Fodd bynnag, rhoddir manylion pellach isod ynghylch y Llinellau Gwariant penodol yn y Gyllideb ym Mhrif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni portffolio'r Gymraeg yn uniongyrchol.

Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg

- 1.10 Diben Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg yw cefnogi *Cymraeg 2050* o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau'r seilwaith cywir. Y gyllideb ddangosol ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg yw **£23.579m** yn 2024-25. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r penderfyniad i drosglwyddo £0.5m o Linell Wariant yn y Gyllideb y Siarter Iaith i Linell Wariant yn y Gyllideb *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol) a throsglwyddo £1.675m i mewn o Linell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg mewn perthynas â chyllid a ddyrannwyd drwy'r Cytundeb Cydweithio ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- 1.11 Yn 2022-23, dyrannwyd cyllid ychwanegol o £1.2m i'r Urdd i roi cymorth parhaus i ailadeiladu ei gwasanaethau o ganlyniad i bandemig COVID-19. Daeth y cyllid yn rhan o linell sylfaen cyllideb 2023-24 a'r bwriad yw dyrannu'r un swm ar gyfer 2024-25. Mae'n golygu y bydd cyfanswm y cyllid ar gyfer yr Urdd dros £2.2m y flwyddyn. Ceir rhagor o fanylion am y cyllid hwn o dan adran 3.1.
- 1.12 Dyrannwyd swm arall o £0.3m y flwyddyn i'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2022-23 er mwyn helpu'r sefydliad i adfer ar ôl COVID-19. Daeth y cyllid hwn yn rhan o'r llinell sylfaen yn 2023-24 ac rydym yn cynnig yr un swm ar gyfer 2024-25 sy'n golygu y bydd grant yr Eisteddfod Genedlaethol yn cynyddu i £1m y flwyddyn yn dyfodol.
- 1.13 Fel rhan o'r [Cytundeb Cydweithio](#), a thrwy gyllidebau presennol, rydym yn buddsoddi £1m o gyllid refeniw erbyn 2024-25 yn Sir Gaerfyrddin a hen

ardaloedd diwydiannol y Cymoedd Gorllewinol. Rydym yn gwneud hyn mewn ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad 2021 mewn perthynas â'r Gymraeg. Bydd yn ein helpu i ddeall y canlyniadau yn well ac yn ein galluogi i dreialu ymyriadau mewn ymateb i'r canlyniadau hynny.

1.14 Mae'r gyllideb sy'n weddill wedi'i chynnal ar lefel 2024-25 er mwyn cefnogi gweithgareddau partneriaeth gan gynnwys:

- Cymraeg i Blant – er mwyn helpu rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i ddefnyddio'r Gymraeg gartref, trosglwyddo'r iaith i'w plant a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol;
- darparu hyfforddiant iaith Gymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
- y Siarter Iaith sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc o oedran ysgol, gyda £0.5 o'r gyllideb hon yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol;
- cyflawni Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg;
- cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, drwy grantiau i nifer o bartneriaid allweddol, gan gynnwys: y rhwydwaith o fentrau iaith, y rhwydwaith o bapurau bro; Merched y Wawr; Cymdeithas Eisteddfodau Cymru; Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru; a Mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg;
- gwaith ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r strategaeth.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Comisiynydd y Gymraeg

1.15 Mae'r gyllideb hon yn cefnogi Comisiynydd y Gymraeg. Ceir rhagor o fanylion ynghylch cyllideb y Comisiynydd yn adran 3.2.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg

1.16 Y gyllideb ddangosol ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg yw £16.9m yn 2024-25. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r penderfyniad i ailflaenoriaethu cyllid o £3.5m o dan y Cytundeb Cydweithio i gronfeydd wrth gefn (gweler paragraff 1.3), trosglwyddo £1.675m i Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg ar gyfer yr elfen o gyllid sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Cydweithio ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a throsglwyddo £2.2m i Llinell Wariant yn y Gyllideb *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol) i ehangu'r ddarparu trochi yn y Gymraeg o ganlyniad i gyfuno grantiau.

1.17 Fel rhan o'n Cytundeb Cydweithio, bydd y cyllid sy'n weddill yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb, sef £2.825m yn 2024-25, yn cefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

1.18 Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg hefyd yn cefnogi camau gweithredu sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg yn *Cymraeg 2050*, gan gynnwys:

- cyllid ar gyfer Mudiad Meithrin i gynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg fel llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg;
- parhau â'r cyllid ar gyfer y rhaglen e-sgol, sef £0.6m y flwyddyn yn dilyn cynnydd mewn cyllid o 2022-23 ymlaen;
- rhoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) 10 mlynedd ar waith yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2019, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2020;
- comisiynu adnoddau addysgu a dysgu dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm a'i gymwysterau, gan gynnwys cyllido Adnodd, sef is-gwmni Llywodraeth Cymru a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2023.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg 2050 (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol)

- 1.19 Ceir cyllideb ddangosol o **£9.77m** ar gyfer y Llinell Wariant newydd hon yn y Gyllideb yn 2024-25 (cyfeiriwch at baragraffau 1.5-1.6). Drwy gyfuno'r grantiau bydd hyn yn rhoi golwg strategol a chyffredinol fwy cadarn i awdurdodau lleol o ran sut y gallant ymgorffori'r Gymraeg mewn polisiau addysg yn eu gwaith. Bydd hyn yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael yr ymreolaeth a'r adnoddau i gyflawni eu CSCAau, a dosbarthu'r cyllid a ddarperir i gefnogi eu cyd-destunau addysg ac ieithyddol lleol eu hunain.
- 1.20 Bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i lunio canllawiau penodol ar grantiau a gofynion ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â chyllid Cymraeg mewn Addysg. Bydd y dyraniadau cyllido ar gyfer pob awdurdod yn gyson â'r strwythurau sydd eisoes ar waith i gyflawni CSCAau awdurdodau lleol, llunio adroddiadau arnynt a'u monitro. Gall mwy o gysondeb rhwng y cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol a'r CSCAau ond gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

2. Gwybodaeth Arall

Gwybodaeth am y ffordd y caiff camau i weithredu portffolio y Gymraeg a chanlyniadau cysylltiedig eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.

- 2.1 O ran sicrhau gwerth am arian, mae eglurder ynghylch y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol yn ganolog i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg*, y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Mae gennym brosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd.
- 2.2 Caiff cynnydd yn erbyn [Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021 i 2026](#) ei fonitro'n flynyddol drwy broses sy'n cynnwys cyhoeddi [Cynllun Gweithredu](#) blynyddol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac yna Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn adrodd yn ôl ar y camau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu. Cynhelir adolygiadau rheolaidd i fonitro gwariant a chanlyniadau er mwyn sicrhau bod unrhyw adnoddau sydd ar gael yn cael eu hailflaenoriaethu er mwyn cyflawni'r strategaeth.

- 2.3 Mae Cyngor Partneriaeth y Gymraeg yn chwarae rôl drwy roi cyngor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at darged 2050 ac effeithlonrwydd ein rhaglenni a'n hymyriadau. Mae Bwrdd Rhaglen *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am asesu risgiau a nodi camau i'w lliniaru, ac mae'n prif ffrydio'r strategaeth ym mhob un o feysydd polisi'r Llywodraeth.
- 2.4 Rydym wedi cynnal Adolygiad o'r Cynllun Grant i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg. Nod yr adolygiad oedd asesu sut mae'r Cynllun cyfredol wedi cael ei gynllunio a'i roi ar waith, a llywio'r ffordd y byddwn yn cynllunio model cyllido yn y dyfodol i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y dyfodol. Byddwn yn troi ein hymateb i argymhellion yr adolygiad yn gynllun grantiau newydd i gefnogi *Cymraeg 2050*.
- 2.5 Ym mis Tachwedd 2022, gwnaethom gyhoeddi [Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso ar gyfer Cymraeg 2050](#). Mae'n rhoi arweiniad ar gasglu tystiolaeth a data, asesu cynnydd, a gwerthuso effaith y strategaeth wrth iddi barhau i gael ei rhoi ar waith. Bydd y fframwaith hwn yn sail i raglen ymchwil a gwerthuso Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r strategaeth dros y blynyddoedd i ddod.
- 2.6 At hynny, gallai ein targed o gynyddu darpariaeth blynyddoedd cynnar yn y Gymraeg drwy sicrhau bod 150 yn fwy o grwpiau meithrin wedi'u sefydlu erbyn 2028 leihau gwariant ar waith hyrwyddo ymhlith grwpiau oedran hŷn, gan eu bod yn helpu unigolion i sefydlu arferion iaith cadarn yn ifanc. Yn hyn o beth, mae Cylchoedd Meithrin yn cyfrannu at feithrin yr amodau sy'n creu siaradwyr Cymraeg newydd drwy drochi plant yn yr iaith a'i diwylliant, a thrwy helpu i fwydo ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwariant hwn ar y blynyddoedd cynnar yn paratoi'r ffordd ar gyfer ymyriadau pellach, er enghraifft y Siarter Iaith (sy'n annog plant ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol o oedran cynnar).
- 2.7 Mae ein [Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg](#) yn cynnwys sicrhau bod elfennau digidol Cymraeg yn cael eu creu a'u cynnal er mwyn sicrhau y gallant gael eu defnyddio a'u hailddefnyddio gan bawb o dan drwydded ganiataol addas. Mae'n hanfodol bod technoleg Cymraeg yn cael ei lledaenu hefyd er mwyn normaleiddio'r iaith a galluogi pobl i'w defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Lanswyd y Cynllun ar 23/10/2018 ac rydym wrthi'n paratoi i ddatblygu'r cynllun nesaf.
- 2.8 Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ein nod yw sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac mae ein cynlluniau gwariant yn anelu at sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau byrdymor a hirdymor.

Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i gefnogi strategaeth y Gymraeg Cymraeg 2050, yn enwedig dyraniadau i gyflawni'r 'cerrig milltir' a nodir yn Rhaglen Waith 2021-2026

- 2.9 Ers lansio *Cymraeg 2050*, rydym wedi bod yn gweithio tuag at gyflawni cyfres o gerrig milltir, gan gynnwys targedau o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg a

dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Rydym yn dilyn trywydd a ddatblygwyd yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011. Ar y cychwyn, gwnaethom ymrwymo i oedi unwaith inni gael canlyniadau Cyfrifiad 2021 er mwyn cloriannu ac adolygu ein cynlluniau gwaith a'r trywydd i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg fel y bo angen. Rydym bellach yn ystyried data'r Cyfrifiad ochr yn ochr â ffynonellau eraill o ddata, er enghraifft yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau ar y trywydd cywir o ran ein nod o ddyblu'r defnydd dyddiol o'n hiaith a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nodir isod ein cynnydd yn erbyn y cerrig milltir lefel uchel.

Carreg filltir: cynnal cyfraddau trosglwyddo'r iaith ymhlith teuluoedd gyda'r nod o weld cynnydd graddol ar hyd y ffordd hyd at 2050

- 2.10 Er mwyn cefnogi'r nod hwn, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn rhaglen Cymraeg i Blant yn ystod 2024-25, gyda chyllid o £0.73m yn **parhau**. Amcanion y prosiect yw helpu rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref a'i throsglwyddo i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol. Caiff hyn ei gyflawni drwy gyfres o sesiynau am ddim i rieni a'u plant, a rhwydwaith o swyddogion sy'n helpu teuluoedd i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref a'i throsglwyddo i'w plant, ac yn cefnogi datblygiad ieithyddol, cymdeithasol ac addysgol plant. Mae sesiynau wyneb yn wyneb bellach yn rhedeg ochr yn ochr â'r sesiynau rhithwir a gyflwynwyd yn ystod y pandemig.
- 2.11 Mae Cymraeg i Blant yn cefnogi ein [polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd](#). Mae annog teuluoedd i ddewis Cymraeg yn rhan bwysig o *Cymraeg 2050* ac mae'r polisi hwn yn amlinellu sut rydym yn bwriadu sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael y cymorth a'r anogaeth orau bosibl i ddewis defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Mae ein polisi ynglŷn â *throsglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd* yn gweithio ar y cyd â Cymraeg i Blant.

Carreg filltir: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

- 2.12 Un targed pwysig arall yn *Cymraeg 2050* yw grymuso siaradwyr i ddefnyddio eu Cymraeg gyda'r nod o ddyblu'r ganran ohonom sy'n defnyddio mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg bob dydd erbyn 2050. Gan gadw'r nod pwysig hwn mewn cof, mae pob un o'r ymyriadau ym mhorthfolio *Cymraeg 2050*, ac felly'r holl ddyraniadau cyllidebol cyfatebol, yn anelu at gynyddu'r defnydd o'r iaith, a chânt eu gwerthuso a'u monitro er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben hwn. Mae hyn yn wir o ran Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg a Llinell Wariant yn y Gyllideb Comisiynydd y Gymraeg. O dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, a'r broses o reoleiddio'r safonau, mae gan y Comisiynydd rôl i sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r iaith drwy weithio gyda chyrrff i wella a chynyddu'r defnydd o'u gwasanaethau Cymraeg.
- 2.13 Mae cefnogi'r Gymraeg fel iaith sy'n ffynnu yn y gymuned yn ganolog i'r [Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg](#). Un o themâu allweddol y cynllun hwn yw grymuso cymunedau i ddod yn gyfrifol am gynaliadwyedd y Gymraeg yn yr hirdymor. Mae prosiect Perthyn yn helpu sefydliadau cymunedol i sefydlu neu ehangu mentrau

cymdeithasol a thai cydweithredol a arweinir gan y gymuned. Mae i Perthyn, a gyflawnir gan Cwmpas, ddwy elfen – mae'r gyntaf yn darparu gwasanaeth cymorth a chyingor pwrpasol i grwpiau cymunedol ac mae'r ail yn rhoi grantiau bach i annog grymuso mewn cymunedau a meithrin gallu. Dyrannwyd cyfanswm o £0.465m ar gyfer Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn 2024-25. Ym mis Awst 2022, gwnaethom lansio'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Bydd y Comisiwn yn canolbwyntio ar ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol mewn cymunedau Cymraeg i ddechrau. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd y Comisiwn bapur safbwynt yn amlinellu ei ganfyddiadau cychwynol a bydd yr adroddiad terfynol yn dilyn yn ystod haf 2024.

- 2.14 Mae'r Siarter Iaith yn cefnogi ac yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc o oedran ysgol. Rydym wedi parhau â'r cyllid o £0.713m ar gyfer y rhaglen yn 2024-25. O'r dyraniad hwn, mae'r swm o £0.5m yn cael ei drosglwyddo i Linell Wariant newydd yn y Gyllideb *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol) er mwyn i awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion i gyflwyno'r rhaglen a chaiff £0.138m ei ddyrannu i'r Urdd er mwyn cyflwyno elfennau eraill o'r rhaglen. Mae'r gweddill yn cyllido gweithgareddau cenedlaethol megis cyhoeddi llyfrau Seren a Sbarc, adnoddau eraill a chyllid i gefnogi Bardd Plant Cymru.

Carreg filltir: Ceisio cefnogi'r gwaith o ehangu sector Cymraeg y blynyddoedd cynnar drwy greu 60 grŵp newydd erbyn 2026

- 2.15 Byddwn yn parhau â'r cyllid o £3.031m i'r Mudiad Meithrin i helpu ei aelodaeth o Gylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi i gryfhau ac ehangu ei wasanaethau. Mae'r gwaith o ddatblygu staff a gwirfoddolwyr yn lleoliadau ei aelodau wedi parhau, gyda'r amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael drwy ei 'Academi' yn ehangu a'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn cynyddu. Bydd cyllid hefyd yn parhau i alluogi'r Mudiad Meithrin i gynnal rhaglen Sefydlu a Symud sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar sefydlu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg newydd mewn ardaloedd o Gymru lle ceir diffyg gwasanaethau o'r fath ar hyn o bryd fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.
- 2.16 Drwy'r gwaith hwn, sefydlwyd 43 o grwpiau newydd yn ystod tair blynedd gyntaf y rhaglen hyd at 2021. Mae'r targed o sefydlu 60 o grwpiau eraill yn ystod tymor presennol y Senedd yn parhau, a darparwyd cyllid ychwanegol yn ystod 2022-23 a 2023-24 i alluogi Mudiad Meithrin i ragori ar ei dargedau blynyddol. Bydd y gyllideb hon yn parhau yn 2024-25 a bydd Mudiad Meithrin yn parhau i adeiladu ar allu'r blynyddoedd cynnar i gynnig llwybr tuag at addysg cyfrwng Cymraeg.
- 2.17 Ochr yn ochr â'r rhaglen o ehangu darpariaeth mae'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio i fynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg. Disgwylir y bydd y rhaglen Sefydlu a Symud ac ehangu Dechrau'n Deg (a ariennir drwy Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn cyfrannu at dargedau ei gilydd.

Carreg filltir: Cynyddu canran y dysgwyr blwyddyn 1 a addysgir yn Gymraeg o 23% (2020 i 2021) i 26% yn 2026.

- 2.18 Un o nodau allweddol *Cymraeg 2050* yw cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r data CYBLD mwyaf diweddar (2023), a gyhoeddwyd ym mis Medi, yn dangos gostyngiad canrannol bach yn nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, o 23.9% yn 2022 i 23.4% yn 2023. Yn *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26*, rydym wedi ymrwmo i gynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 1 a addysgir yn Gymraeg i 26% erbyn 2026. Mae gwaith yn y maes polisi hwn yn cynnwys nifer o ffrydiau gwahanol.
- 2.19 Byddwn yn parhau i ddyrannu £0.1m o Linell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg i gefnogi gwaith canolog ar y CSCAau. Gwnaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru roi ei CSCA 10 mlynedd ar waith ym mis Medi 2022 a chyflwyno ei adroddiad ar yr adolygiad blynyddol o'i CSCA ym mis Gorffennaf 2023, yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn ei dargedau yn ystod blwyddyn gyntaf ei Gynllun. Mae'r adroddiadau ar yr adolygiadau blynyddol o'r CSCAau wedi cael eu hasesu ac mae adborth wedi cael ei roi i bob awdurdod. Er bod y cynnydd yn nifer a chanran y dysgwyr yn amrywio ledled Cymru, mae adroddiadau'r adolygiadau blynyddol cyntaf yn dangos inni fod camau pendant wedi cael eu cymryd gan y mwyafrif o'r awdurdodau lleol i osod sylfeini cadarn i wneud cynnydd dros oes y CSCAau.
- 2.20 Yn 2024-25, byddwn yn canolbwyntio ar barhau i helpu awdurdodau lleol i roi eu CSCAau 10 mlynedd ar waith. Bydd hyn yn cynnwys:
- rhoi cyngor ac arweiniad ynglŷn â chyfathrebu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg;
 - parhau i gyllido rôl Hyrwyddwr cyfrwng Cymraeg yn y de-ddwyrain er mwyn cryfhau'r systemau sy'n cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal;
 - cymorth o hyd i roi'r CSCAau newydd ar waith a mynychu fforymau Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol;
 - helpu awdurdodau lleol i roi'r trefniadau newydd ar waith o ran categoreiddio ysgolion yn ôl darparu Cymraeg.
- 2.21 Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio cyllid o amrywiaeth o ffynonellau eraill i roi eu CSCAau ar waith, er enghraifft drwy raglen gyllid Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, grant cyfalaf y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'r Grant Cynnal Refeniw. Bydd cyllid penodol ar gyfer y Gymraeg megis y grant cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r Grant Trochi Hwyr yn parhau i gefnogi a chyflwyno gweithgareddau sy'n cefnogi'n uniongyrchol y gwaith o roi CSCAau ar waith.
- 2.22 Mae trochi hwyr yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith a wnawn i gynyddu canran y dysgwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26* a'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ein hymrwymiad i estyn y Rhaglen Trochi Hwyr er mwyn sicrhau bod pob newydd-ddyfodiad i'r iaith yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg pryd mae ei hangen

arnynt a ble bynnag y maent ar eu taith ddysgu. Ceir rhagor o fanylion am y cyllid hwn o dan adran 3.1.

2.23 Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg yn ystod tymor hwn y Senedd. Diben y Bil yw cryfhau a chynyddu ein darpariaeth addysg Gymraeg er mwyn ateb yr heriau a nodwyd yn *Cymraeg 2050*. Mae Llinell Wariant newydd yn y Gyllideb *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol) yn dwyn ynghyd gyllid awdurdodau lleol ar gyfer y Gymraeg, gan gefnogi'r broses o gyflwyno'r Bil arfaethedig.

Carreg filltir: cefnogi cynnydd yn nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031.

2.24 Mae cyllid ar gael yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon i helpu i roi ein Cynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg ar waith. Mae cyfanswm o £8.15m ar gyfer yn 2024-25 ac mae swm pellach o £2.57m wedi cael ei drosglwyddo i Linell Wariant newydd yn y Gyllideb *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol).

2.25 Caiff tua £4.3m ei flaenoriaethu i helpu i gyflawni nodau'r cynllun a chaiff ei dargedu'n bennaf at gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg. Caiff y cyllid ei flaenoriaethu ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

- parhad y rhaglen pontio cynradd i uwchradd;
- parhad y grantiau i ysgolion ddatblygu atebion arloesol i fynd i'r afael â phrinder athrawon;
- cyllid i gefnogi hyfywedd darpariaeth Safon Uwch Cymraeg mewn ysgolion a cholegau AB;
- ail flwyddyn bwrsari cadw athrawon;
- cyllid i CYDAG i gefnogi cydweithrediad rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn nifer o feysydd polisi.

2.26 Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn parhau i ddyrannu £0.150m o'i grant, a ariennir o Linell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg, yn 2024-25 i ddatblygu dau brosiect penodol, sef:

- treialu ysgoloriaeth ariannol a darpariaeth fentora i ddysgwyr israddedig er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer AGA drwy gyfrwng y Gymraeg;
- datblygu rhwydweithiau er mwyn ymgysylltu â graddedigion sy'n siarad Cymraeg sy'n astudio yn Lloegr a hyrwyddo cyfleoedd iddynt ddychwelyd i Gymru er mwyn paratoi i addysgu.

2.27 Rydym yn parhau i gymell athrawon dan hyfforddiant o Gymru sy'n gwneud AGA ac rydym wedi cynnal cymhelliant laith Athrawon Yfory o £5,000 ar gyfer pob myfyriwr sy'n paratoi i addysgu pynciau uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Ariennir hyn o linellau cyllidebol AGA yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon

2.28 Mae dysgu proffesiynol yn nodwedd allweddol ar ein dull o atgyfnerthu gallu addysgu cyfrwng Cymraeg a helpu ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Rydym yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y caiff

ymarferwyr eu nodi a'u cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn gwella'r ffordd y caiff Cymraeg ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a helpu pob ysgol i symud ar hyd y continwmm.

- 2.29 Caiff tua £3.8m ei ddyrannu yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon yn 2024-25 i'r Cynllun Sabothol er mwyn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr ym maes methodoleg ddwys addysgu'r Gymraeg ac ieithoedd. Mae cyrsiau ar gael ar sawl lefel i gynorthwywyr addysgu ac athrawon. Mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb hon yn ariannu'r costau cyflenwi sy'n gysylltiedig â rhyddhau ymarferwyr o ysgolion er mwyn iddynt ddilyn y cyrsiau. Mae hyn wedi cynyddu ar gyfer 2024-25 i gyfrif am gost uwch talu am drefniadau cyflenwi er mwyn galluogi ymarferwyr i fynd ar y cyrsiau.
- 2.30 Bydd cyllid sydd wedi'i ddyrannu i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn galluogi pob ymarferydd addysg i gael gwersi Cymraeg am ddim. Lanswyd gwefan ym mis Gorffennaf 2022 er mwyn rhoi gwybodaeth i ymarferwyr am y ddarpariaeth sydd ar gael iddynt drwy'r Cynllun Sabothol a [Gweithlu Addysg | Dysgu Cymraeg](#) y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn ystod 2024-25, bydd y Ganolfan yn datblygu darpariaeth bwrpasol newydd i ddiwallu anghenion y sector. Er enghraifft, caiff cwrs peilot ar gyfer athrawon uwchradd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n medru rhywfaint o Gymraeg ei ddatblygu i'w gyflwyno mewn ffordd hyblyg a chwrs magu hyder / 'gloywi' ar-lein byr i'r rhai sy'n addysgu mewn nifer o leoliadau. Caiff swm o £0.5m ei ddyrannu o Linell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon yn 2024-25 i gefnogi'r gwaith hwn.
- 2.31 Yn ychwanegol at y Cynllun Sabothol a'r ddarpariaeth drwy'r Ganolfan Genedlaethol, caiff cyfanswm o £2.57m ei ddyrannu i awdurdodau lleol fel rhan o elfen gyfunedig *Cymraeg 2050* o'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol yn 2024-25 er mwyn cefnogi darpariaeth addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Defnyddir y cyllid ar y cyd i helpu i ddatblygu adnoddau a darpariaeth dysgu proffesiynol genedlaethol, er enghraifft i helpu ymarferwyr sydd wedi cwblhau cyrsiau'r cynllun sabothol i ddefnyddio eu sgiliau newydd yn ôl yn yr ysgol; er mwyn helpu cynorthwywyr addysgu i fodlu patrymau iaith â dysgwyr a helpu penaethiaid i gynllunio'n strategol i ddatblygu'r Gymraeg yn eu hysgolion.
- 2.32 Hefyd, dyrennir £4.5m i awdurdodau lleol fel rhan o'r Grant Cymraeg mewn Addysg, a ailsefydlwyd yn 2023-24 ar ôl trafodaethau â'r awdurdodau lleol. Gyda 30% o arian cyfatebol gan awdurdodau lleol, cyfanswm gwerth y Grant Cymraeg mewn Addysg yw £5.85m. Mae'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi'r broses o roi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol ar waith mewn tri maes allweddol:
- cymorth i ganolfannau hwyrdyfydiadaid a throchi hwyr;
 - cymorth ar gyfer cynnydd ieithyddol ac i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;
 - cymorth i ddatblygu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

2.33 Bydd y Grant Cymraeg mewn Addysg yn 2024-25 yn parhau a bydd hefyd yn cael ei ddyrannu fel rhan o elfen gyfunedig *Cymraeg 2050* o'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol.

3. Meysydd Penodol

3.1 Diweddariadau ar ddyraniadau yng nghyllideb 2023-24

Gwybodaeth am ddyrannu £3 miliwn yn 2023-4 a £1.5 miliwn yn 2022-23 i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector prentisiaethau ac addysg bellach, a darparu gwersi Cymraeg am ddim i ddysgwyr 16 i 25 oed a staff addysgu.

3.1.1 Mae'r Rhaglen Lywodraethu a'n Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru yn cynnwys ymrwymiad i fuddsoddi yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn darparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 oed a staff addysgu. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn adeiladu ar y gyllideb graidd bresennol i'r Coleg sy'n cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn prifysgolion, colegau AB a darparwyr hyfforddiant drwy roi cyllid grant ynghyd â hyfforddiant a mentora i feithrin y gallu i addysgu.

Roedd cyllideb 2022-23 yn cynnwys swm ychwanegol o £1.5m a ddyrannwyd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel a ganlyn:

- Addysg ôl-16: £1,136,840
- Addysg Uwch: £213,160
- Addysg Gychwynnol i Athrawon: £150,000

3.1.2 Ariannodd y dyraniad ychwanegol raglen o grantiau datblygu i golegau a darparwyr prentisiaethau i ddatblygu gallu a darpariaeth mewn sectorau â blaenoriaeth, gan gynnwys gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon a hamdden, ac amaethyddiaeth. Hefyd, roedd y cyllid yn cefnogi dau brosiect penodol i ddatblygu hyder myfyrwyr sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ddenu myfyrwyr yn ôl i Gymru i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.1.3 Roedd y gyllideb ar gyfer 2023-24 yn cynnwys £3m pellach i'r Coleg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. O'r £4.5m ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer 2023-24, dyrannwyd £2.825m i'r Coleg ac £1.675 i'r Ganolfan Genedlaethol.

3.1.4 Ar gyfer 2023-24, mae'r Coleg yn defnyddio ei gyllid i barhau i gryfhau a chefnogi darpariaeth yn y sectorau hamdden a chwaraeon, iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant ac amaethyddiaeth; yn ogystal ag ymestyn darpariaeth yn y sector busnes a sector y celfyddydau creadigol. Yn y sector prentisiaethau, mae'r Coleg yn parhau i feithrin gallu yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r sector gofal plant, gan alluogi mwy o ddysgwyr i siarad

Cymraeg a bod yn siaradwyr dwyieithog hyderus yn y gweithle. Mae'r cyllid hefyd yn cefnogi parhad dau brosiect Addysg Gychwynol i Athrawon.

- 3.1.5 Mae'r swm o £1.675m i'r Ganolfan Genedlaethol yn 2023-24 yn cael ei ddefnyddio i ymestyn darpariaeth ar gyfer dysgwyr 16-25 oed a'r gweithlu addysg er mwyn cynnig mynediad am ddim i gyrsiau Cymraeg. Fel rhan o'r cynnig, bydd dysgwyr cymwys 18 oed a hŷn hefyd yn gallu dilyn y cyrsiau Dysgu Cymraeg prif ffrwd yn y gymuned. Hyd yma yn 2023/24, mae dros 1,300 o ddysgwyr 16-25 oed yn manteisio ar y cynnig.
- 3.1.6 Dechreuodd y Ganolfan Genedlaethol gynnig cyrsiau am ddim i athrawon a gweithwyr eraill yn y sector addysg ym mis Medi 2022 ac mae'r cyllid ychwanegol wedi galluogi'r Ganolfan i ymestyn y ddarpariaeth hon yn 2023-24. Mae data dros dro y Ganolfan Genedlaethol yn dangos bod 1,200 o unigolion wedi manteisio ar y ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23, ac mae mwy na 1,000 wedi cofrestru hyd yma yn ystod 2023/24.
- 3.1.7 Bydd y cyllid o dan y Cytundeb Cydweithio yn parhau ar £4.5m ar gyfer 2024-25. Mae'r gyllideb ar gyfer 2024-25 wedi ei rhannu dros dro yn £2.825m i'r Coleg a £1.675m i'r Ganolfan Genedlaethol o hyd. Drwy ailflaenoriaethu £3.5m o gyllid yn y ffordd hon ar gyfer 2024-25 bydd hyn yn ein galluogi i ddiogelu gwasanaethau craidd sy'n cefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer *Cymraeg 2050*. Yn benodol, byddwn yn gallu parhau â'r cyllid sy'n gysylltiedig â'r Bil Addysg Gymraeg, Mudiad Meithrin a'r gyllideb Cymraeg mewn Addysg i gefnogi darpariaeth Gymraeg.
- 3.1.8 Fodd bynnag, gall ailflaenoriaethu cyllid olygu y bydd yn rhaid i'r Coleg dynnu'n ôl o rai ymrwymadau a wnaed i golegau AB a darparwyr prentisiaethau. Gall hefyd arwain at leihad yn y niferoedd sy'n dysgu Cymraeg. Byddwn yn gweithio gyda'r Coleg a'r Ganolfan Genedlaethol i ystyried opsiynau i liniaru effaith hyn ac i gefnogi camau gweithredu i gynnal darpariaeth cyfrwng Gymraeg mewn sectorau â blaenoriaeth yn ogystal â darparu cyrsiau am ddim i ddysgwyr 16-25 oed a'r gweithlu addysg.

Diweddariad ar y ffordd y dosbarthwyd £2.2m sy'n cael ei ddyrannu (y flwyddyn) i ehangu darpariaeth trochi yn y Gymraeg ledled Cymru a sut mae'r cyllid hwn wedi cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

- 3.1.9 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ehangu'r Rhaglen Drochi i Ddisgyblion. Ers buddsoddi £2.2m yn 2021-22 i helpu dysgwyr Cymraeg i ymgymryd â throchi hwyr cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion, mae wyth awdurdod lleol wedi creu darpariaeth trochi hwyr cyfrwng Cymraeg newydd (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Torfaen, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Powys) ac mae awdurdodau lleol eraill wedi ehangu eu rhaglenni trochi hwyr presennol i ateb y galw cynyddol.
- 3.1.10 Mae parhad y cyllid o £2.2m yn 2023-24 wedi sicrhau bod awdurdodau lleol yn parhau i ddatblygu eu darpariaeth trochi hwyr yn eu hardal. Mae hyn wedi eu galluogi i wneud y canlynol:

- parhau â'u darpariaeth bresennol a'i datblygu;
- agor eu canolfannau trochi hwyr cyntaf – Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili a Chastell-nedd Port Talbot;
- cyflwyno darpariaeth megis cynlluniau peilot ar gyfer darpariaeth drochi 'sydyn'; caffael hyfforddiant arbenigol mewn methodolegau ac adnoddau trochi; prosiectau cwmpasu i bennu darpariaeth i hwyrddyfodiaid yn seiliedig ar fodolau ALI eraill ac adnoddau trochi hwyr cyfrwng Cymraeg;
- datblygu technolegau digidol arloesol i gefnogi dysgu, megis Aberwla, sef prosiectau adnoddau digidol rhithwir Gwynedd, sy'n cynnwys pentref rhithwir sy'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu sgiliau iaith mewn cyd-destunau gwahanol. Bydd y cyllid yn helpu i'w cyflwyno ledled Cymru dros y blynyddoedd i ddod.

3.1.11 Bydd y cyllid ar gyfer 2024-25, a fydd yn trosglwyddo fel rhan o'r grant cyfunedig i elfen *Cymraeg 2050* o'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol, yn galluogi awdurdodau lleol i barhau â'r prosiectau, gan sicrhau bod mwy na 60 o athrawon / cynorthwyr ystafell ddosbarth trochi hwyr arbenigol yn eu swyddi. Bydd hefyd yn parhau i gefnogi'r broses o gyflwyno prosiect rhithwir Gwynedd, Aberwla, ledled Cymru dros y blynyddoedd i ddod.

Manylion am niferoedd sy'n manteisio ar gymhelliant iaith Athrawon Yfory, ac unrhyw wybodaeth am werthuso ei effaith y gellid ei rhannu.

3.1.12 Mae'r tabl isod yn dangos nifer y myfyrwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon sydd wedi cael cymhelliant iaith Athrawon Yfory rhwng 2018-19 a 2022/23 (ar 13 Tachwedd 2023).

Blwyddyn Academaidd:	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Hawliadau SAC	60	95	130	105	75*
Hawliadau Sefydlu	45	80*	105*	65*	dd/g
Terfyn Amser SAC	31/08/2020	31/08/2021	31/08/2022	31/08/2023	31/08/2024
Terfyn Amser Sefydlu	31/08/2023	31/08/2024	31/08/2025	31/08/2026	31/08/2027
Cyfanswm yr Hawlwyr	60	95	130	105	73* i'w gadarnhau

**Mae'n bosibl y bydd y nifer hwn yn cynyddu am nad yw'r terfyn amser wedi mynd heibio eto. Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.*

3.1.13 Dim ond y rhai sy'n hawlio'r taliad cyntaf (SAC) sy'n gymwys i gael yr ail daliad. Oherwydd yr adeg o'r flwyddyn, nid oes unrhyw hawliadau na thaliadau wedi cael eu gwneud hyd yma yn erbyn Cynllun 2023-24. Mae hawlwr a oedd wedi dilyn AGA rhwng 2018/19 i 2022/23 yn hawlio'r cymhelliant hwn yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, ac fel y cyfryw mae'n bosibl na fydd y tabl isod yn dangos lefelau gwirioneddol recriwtio athrawon dan hyfforddiant Uwchradd AGA Cymru.

3.1.14 Ceir data ynglŷn â recriwtio AGA, gan gynnwys recriwtio cyfrwng Cymraeg ar gyfer cyfnodau a phynciau, ers y flwyddyn academiaidd 2016/17 yn y [bwletin ystadegol AGA](#) blynyddol. Caiff data ar y flwyddyn academiaidd 2022/23 eu cyhoeddi ym mis Mai 2024. Gwnaethom ddiweddarau'r [asesiad o'r effaith](#) ar gyfer y cynllun cymhellant yn ddiweddar.

Diweddariad ar ddyraniadau cyllidebol o rannau eraill o bortffolio'r Gweinidog, megis Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon mewn perthynas â'r ffordd y caiff ei defnyddio i helpu i ddatblygu'r Gymraeg yn y sector addysg.

3.1.15 Mae cyllid ar gael yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon i helpu i roi ein Cynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg ar waith (gweler paragraffau 2.24-2.29).

3.1.16 Parheir i wneud darpariaeth ddigonol fel rhan o Linell Wariant yn y Gyllideb y Cwricwlwm ac Asesu i barhau i ddatblygu adnoddau dwyieithog a deunyddiau ategol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru wrth i anghenion gael eu nodi drwy ymgysylltu ag ymarferwyr (a chyn bod Adnodd yn mabwysiadu ei swyddogaethau comisiynu a sicrhau ansawdd). Ochr yn ochr â hyn, mae ymarferwyr yn parhau i gefnogi'r adolygiad o holl adnoddau'r cwricwlwm ar lwyfan Hwb, sydd bellach yn poblogi adran benodol ar adnoddau'r Cwricwlwm i Gymru. Wrth i'r adolygiad fynd rhagddo, mae mwy a mwy o adnoddau dwyieithog yn ymddangos yn yr adran hon er mwyn sicrhau bod ysgolion a lleoliadau yn gallu cael sicrwydd ynglŷn â'u hansawdd a'u cysondeb â'r Cwricwlwm i Gymru.

3.2 Comisiynydd y Gymraeg

Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â'r gyllideb a ddyrannwyd i Gomisiynydd y Gymraeg yn 2024-25.

3.2.1 Fel yr amlinellir ym mharagraf 3, mae penderfyniad trawslywodraethol wedi arwain at ail-lunio'r dyraniadau o wariant dangosol i roi cyllid ychwanegol i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru a'u diogelu, sef y GIG a setliad llywodraeth leol craidd, sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol a gwasanaethau pob dydd eraill. Mae mwy o wariant mewn rhai meysydd yn golygu bod llai i'w wario mewn meysydd eraill. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 5% yng nghyllidebau pob un o'r pedwar Comisiynydd statudol yng Nghymru, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg. O ganlyniad, dyraniad refeniw Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2024-25 fydd £3.189m, sef gostyngiad o £0.168m. Nid oes unrhyw newidiadau yng nghyllideb anariannol y Comisiynydd, sef £0.121m a £0.050m cyfalaf ar gyfer 2024-25.

3.2.2 Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd i reoli'r effaith sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad hwn. Yn yr amcangyfrif o'r gyllideb ar gyfer 2024-25, tynnodd swyddfa'r Comisiynydd sylw at y pwysau a oedd yn gysylltiedig ag ariannu

cytundebau cyflog blynyddol i'r staff a gofynnodd am swm ychwanegol o £0.147m o reffeniwr i ariannu cytundeb cyflog amcanestynedig o 5% yn 2024-25. Mae tua £0.032m i'w briodoli i gynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cadarnhaodd Datganiad Hydref Llywodraeth y DU ar 22 Tachwedd y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i dalu am gostau amcangyfrifedig cynlluniau pensiwn yn ystod Gwanwyn 2024. Rydym yn disgwyl y bydd Cymru yn cael "cyfran Barnett" ganlyniadol o unrhyw gyllid ychwanegol a ddyrennir i Adrannau Llywodraeth y DU a chaiff gwybodaeth bellach ei ddarparu fel rhan o Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25.

3.3 Gwariant cyfalaf mewn perthynas â'r Gymraeg

Cynnydd manwl ynglŷn ag ehangu nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dosbarthiad y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg a chynnydd hyd yma mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.

- 3.3.1 Mae cyllideb cyfalaf cyfrwng Cymraeg yn cael ei hariannu o Linell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg ym Mhrif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg. Ei nod yw cynyddu lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd, cefnogi darpariaeth trochi hwyr yn ogystal â helpu dysgwyr o bob oedran i wella eu sgiliau Cymraeg a'u hyder yn Gymraeg.
- 3.3.2 I ddechrau, cymeradwywyd £46m o fuddsoddiad cyfalaf yn ystod cylch cyntaf cyllid cyfalaf cyfrwng Cymraeg yn 2018. Fodd bynnag, cymeradwywyd prosiectau ychwanegol ar ôl y cyhoeddiad gwreiddiol a gynyddodd y buddsoddiad cymeradwy ar gyfer y cylch cyntaf o £46m i £74m.
- 3.3.3 Cyhoeddwyd ail gyfran o gyllid gwerth £30m i gyd ym mis Mawrth 2021 i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud yn benodol â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg yn ôl anghenion CSCAau lleol. Roedd hyn yn ychwanegol at y dyraniad presennol a gyhoeddwyd ar gyfer Band B o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- 3.3.4 O'r 51 o gynigion a gyflwynwyd, cymeradwywyd cyfanswm o 11 o gynigion mewn naw ardal awdurdod lleol. Cafodd y cynigion eraill a oedd yn bodloni'r meini prawf, ond na ellid eu cefnogi oherwydd y cyllid a oedd ar gael, eu gosod ar restr wrth gefn.
- 3.3.5 Yn ystod mis Hydref 2022, cymeradwywyd prosiectau cyfalaf cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Roedd y prosiectau hyn a restrir yn Atodiad B ar y rhestr wrth gefn o ail gam y cyllid grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg. Yn sgil adolygiad pellach o'r rhestr wrth gefn ar gyfer grantiau cyfalaf cyfrwng Cymraeg, ym mis Gorffennaf 2023, cymeradwywyd prosiectau ychwanegol mewn egwyddor, yn amodol ar gymeradwyo achos busnes. Mae'r saith prosiect hyn a restrir yn Atodiad C yn werth cyfanswm o £14.540m.
- 3.3.6 Bydd y prosiectau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Ar lefel leol, byddant yn rhoi hwb cadarnhaol i'r iaith mewn nifer o siroedd. Cyfanswm y buddsoddiad ers 2018 yw bron £129m.

Crynodeb

Caiff y gyllideb sy'n berthnasol i'r Gymraeg ym Mhrif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg Cyllideb Ddrafft 2024-25 ei chyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

ATODIAD A – CYLLIDBAU'R GYMRAEG YM MHRIF GRŴP GWARIANT Y GYMRAEG AC ADDYSG CYLLIDEB DDRAFFT 2024-25, RHAGOLYGN 2023-24 AC ALLDRO TERFYNOL 2022-23

Cyllidebau adnoddau

Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	2022-23	2023-24	2023-24	2023-24	2024-25	2024-25	2024-25	2024-25	2024-25
		Alldro Terfynol	Cyllideb Derfynol (Chwef 2023)	Cyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2023)	Rhagolwg o'r Alldro (Cyfnod 7)	Dangosol (Cyllideb Derfynol 2023-24 – Chwefror 2023)				
£000oedd										
Cymorth Addysg Cyn-16 drwy ALIau	Cymraeg 2050 (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol)	0	0	0	0	0	0	9,770	0	9,770
Cyfanswm Cymorth Addysg Cyn 16 drwy Allau		0	0	0	0	0	0	9,770	0	9,770
Cymraeg mewn Addysg	Cymraeg mewn Addysg	17,713	20,775	19,030	18,830	24,275	-3,500	-2,200	-1,675	16,900
Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg		17,713	20,775	19,030	18,830	24,275	-3,500	-2,200	-1,675	16,900
Y Gymraeg	Y Gymraeg	23,716	22,404	24,149	26,236	22,404	0	-500	1,675	23,579
	Comisiynydd y Gymraeg	3,101	3,357	3,282	3,282	3,357	-168	0	0	3,189
	Comisiynydd y Gymraeg - Heb Fod yn Arian Parod	165	169	245	245	121	0	0	0	121
Cyfanswm y Gymraeg		26,982	25,930	27,676	29,763	25,882	-168	-500	1,675	26,889
Y Gymraeg – CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU		44,695	46,705	46,706	48,593	50,157	-3,668	7,070	0	53,559

Cyllidebau cyfalaf

Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	2022-23	2023-24	2023-24	2023-24	2024-25	2024-25	2024-25
		Alldro Terfynol	Cyllideb Derfynol (Chwef 2023)	Cyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2023)	Rhagolwg o'r Alldro (Cyfnod 7)	Dangosol (Cyllideb Derfynol 2023-24 – Chwefror 2023)		
£000oedd								
Y Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg	242	50	50	50	50	0	50
Cyfanswm y Gymraeg		242	50	50	50	50	0	50
Y Gymraeg – CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF		242	50	50	50	50	0	50

ATODIAD B – DYRANIADAU GRANT CYFALAF CYFRWNG CYMRAEG – CYMERADWYWDYD HYDREF 2022

Awdurdod Lleol	Prosiect	Cyfalaf	Statws
1. Casnewydd	Neuadd Chwaraeon ar gyfer Ysgol Gyfun Gwent Is Coed	£3,334,919	Datblygu'r cynllun. Diwygiwyd y cynllun a chymeradwywyd cyllid ychwanegol o £1,866,410.
2. Torfaen	Llain 3G ar gyfer Ysgol Gyfun Gwynllyw	£1,650,000	Gwaith adeiladu yn mynd rhagddo
3. Caerdydd	Uned Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Glantaf	£129,202	Cwblhawyd
4. Caerdydd	Adnewyddu Ysgol Bro Edern	£105,421	Cwblhawyd
5. Caerdydd	Uned dros dro Plasmawr a gwaith adnewyddu	£1,148,620	Cwblhawyd
6. Conwy	Cylch Meithrin Ysgol Bro Aled	£55,644	Cwblhawyd
7. Ynys Môn	Uned gofal plant Ysgol Llanfawr	£596,800	Cwblhawyd
8. Ynys Môn	Uned gofal plant Ysgol y Graig	£298,031	Cwblhawyd
9. Castell-nedd Port Talbot	Adnewyddu Ysgol Trebannws	£460,000	Cwblhawyd
10. Castell-nedd Port Talbot	Adnewyddu egin ysgol newydd Mynachlog Nedd	£550,000	Cwblhawyd
11. Powys	Adnewyddu ac estyn Ysgol Pennant	£671,473	Gwaith adeiladu yn mynd rhagddo
		£9,000,110	

Cafodd prosiect ychwanegol gymeradwyaeth ddirprwyedig ar ôl y cyhoeddiad gwreiddiol, sef £100,366 yn ystod 2022-23 i ariannu creu hwb bugeiliol yn Ysgol Morgan Llwyd. Cyflwynwyd y prosiect hwn i gael cyllid fel rhan o ail gam y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ac fe'i rhoddwyd ar y rhestr wrth gefn. Ym mis Hydref 2022, nodwyd ei fod yn brosiect y gellid ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Cyflwynwyd achos busnes sylfaenol a chytunwyd ar £100,366 o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23.

ATODIAD C – DYRANIADAU GRANT CYFALAF CYFRWNG CYMRAEG – CYMERADWYWYD GORFFENNAF 2023

Awdurdod lleol	Prosiect	Cyfalaf
1. Caerdydd	ADY Glantaf – Bydd y prosiect hwn yn creu 60 o leoedd ychwanegol posibl (30 i ddisgyblion ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig a 30 i ddisgyblion ag anghenion cyfathrebu ac iaith)	£7,850,000
2. Sir Ddinbych	Ysgol Bro Elwern – Adeiladu ystafell ddosbarth newydd a lle ategol yn yr ysgol	£1,066,546
3. Sir Ddinbych	Ysgol Bro Cinmeirch – estyniad 2 ystafell ddosbarth	£1,359,164
4. Sir Ddinbych	Ysgol Brynhyfryd – Mwy o leoedd a darpariaeth drochi	£1,561,924
5. Sir Ddinbych	Ysgol Tremeirchion – estyniad 2 ystafell ddosbarth	£1,255,021
6. Sir Ddinbych	Ysgol Henllan – estyniad 1 ystafell ddosbarth	£558,341
7. Bro Morgannwg	Ysgol Iolo Morganwg – Uned hunangynhwysol i ddarparu lleoliadau trochi cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chynnig gwersi Cymraeg i oedolion, yn enwedig y rhai sy'n byw o fewn y datblygiad preswyl.	£888,807
Cyfanswm		£14,539,803

Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon
a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

20 Rhagfyr 2023

Annwyl Delyth,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 14 Tachwedd ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

Mae proffil rhyngwladol Cymru'n parhau i godi. Mae llwyddiant ein cenedl mewn chwaraeon a diwylliant, a'n hymagwedd arloesol at bolisi, yn golygu bod y galw am ymgysylltiad rhyngwladol yn uchel ac ar gynydd. Mae gwerth yr ymgysylltiad rhyngwladol hwn wedi bod yn glir i'w weld mewn buddsoddiadau megis Vishay Intertechnology a KLA, yn ogystal â Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda rhanbarthau megis Baden-Württemberg eleni.

Fodd bynnag, fel rydym wedi'i weld yn y flwyddyn ariannol hon, mae'r flwyddyn ariannol nesaf yn debygol o barhau i fod yn heriol, gan arwain at flaenoriaethu a phenderfyniadau anodd pellach posibl o'n blaenau. O safbwynt rhyngwladol, mae hyn yn golygu, y flwyddyn nesaf, y bydd angen i ni gydbwysu'r galw cynyddol wrth barhau i ddarparu gwerth am arian ar yr un pryd. Bydd yr ymateb hwn yn egluro ein cynlluniau lefel uchel ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, a fydd yn cael eu datblygu'n fanylach dros y chwarter nesaf.

Blynyddoedd Ariannol Blaenorol a Phresennol

Alldro terfynol blwyddyn ariannol **2022-23** ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol oedd £7.689m yn erbyn ffigur o £8.424m. Ni chafodd y Rhwydwaith Tramor ei ddefnyddio'n llawn yn ystod 2022-23, a arweiniodd at danwariant. Mae'r sefyllfa wedi cael sylw bellach, gyda phresenoldeb cynyddol yn India a Gogledd America.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 50
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel yr amlinellwyd yn ein llythyr blaenorol, y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer **2023-24** oedd £8.383m. Cafodd hyn ei ostwng i £8.272m yn y Gyllideb Atodol Gyntaf. Roedd y gostyngiad o £0.111m ar gyfer trosglwyddiad o £0.100m o BEL Cysylltiadau Rhyngwladol i BEL Datblygu Rhyngwladol MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, i ymdopi â'r pwysau chwyddiant ar gyfer Rhaglen Plannu Coed Mbale a throsglwyddiad o £0.011m i gronfeydd wrth gefn mewn perthynas â phrydlesi IFRS16.

Yn dilyn ymarfer arbedion ariannol yn ystod y flwyddyn, dychwelwyd £260,000 i gyllid canolog. Ein haldro a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer 2023-24 yw £8.112m.

2024-25

Dyraniadau Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r dyraniadau ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn y Gyllideb Ddrafft ddangosol ar gyfer **2024-25**.

Llinell Wariant yn y Gyllideb	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 Rhagfyr 2023	Gostyngiad dros dro yn ystod y flwyddyn 2024-25	Trosglwyddiadau MEG i MEG	Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Mawrth 2024
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Cysylltiadau Rhyngwladol				
Cam gweithredu: Rhyngwladol	8,383	290	350	7,743
Maes Rhaglenni Gwariant: Rhyngwladol	8,383	290	350	7,743

Gofynnwyd i bob adran ar draws Llywodraeth Cymru adolygu eu cyllidebau yng ngoleuni'r heriau ariannol sy'n ein hwynebu. Yn achos Cysylltiadau Rhyngwladol, gwnaed gostyngiad i'r gyllideb gyffredinol, a ddarparodd gyllideb ostyngol gychwynnol o £8.383m. Yn ogystal â hyn, cwblhaodd staff Cysylltiadau Rhyngwladol archwiliad dwfn ychwanegol o ofnyon y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a nodwyd arbedion o £0.29m, gan leihau'r gyllideb i £8.093m. Ar ôl gweithredu'r trosglwyddiad MEG i MEG o £350,000 i Ddatblygu Rhyngwladol, mae hyn yn gadael cyllideb ddiwygiedig o £7.743m ar gyfer 2024-25.

Fel mewn blynyddoedd ariannol blaenorol, nod y trosglwyddiad MEG i MEG gwerth £350,000 o Gysylltiadau Rhyngwladol i Ddatblygu Rhyngwladol yw cefnogi cyflwyno agweddau Cymru ac Affrica ar y Strategaeth Ryngwladol. Mae hyn yn dilyn trosglwyddiadau tebyg a wnaed yn 2022-23 a 2023-24 y cadarnhawyd wedyn y byddent yn digwydd yn flynyddol drwy gydol y Strategaeth Ryngwladol.

Datblygu Rhyngwladol

Y Gyllideb Ddrafft Datblygu Rhyngwladol ar gyfer 2024-25 yw £1.050m, i fyny o £1.275m; mae'r gostyngiad o £225,000 o ganlyniad i'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn. Mae'r £1.050m hwn yn cynnwys £700,000 o'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol o dan gyfrifoldeb y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, ynghyd â'r trosglwyddiad MEG o Gysylltiadau Rhyngwladol o £350,000 i gyflawni agweddau ar y Strategaeth Ryngwladol.

Y gyllideb Datblygu Rhyngwladol ar gyfer 2022-23 oedd £1.275m, gyda dim ond £350,000 o'r cyfanswm hwnnw yr oedd y Prif Weinidog yn gyfrifol amdano. Yr alldro olaf am y flwyddyn oedd £1.386m. Darparwyd taliad DEC o £100,000 tuag at apêl llifogydd Pacistan, gyda'r cyllid hwn yn deillio o danwariant o £100,000 yn y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol. Roedd gorwariant ychwanegol o £11,000 hefyd o ganlyniad i ddyfarnu grant ychwanegol yn rownd 2 o gynllun grantiau bach Cymru ac Affrica.

Y gyllideb Datblygu Rhyngwladol ar gyfer 2023-24 oedd £1.375m ac, oherwydd ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddychwelyd £16,000 a ostyngodd y gyllideb i £1.359m, sy'n golygu mai'r alldro a ragwelir yw £1.359m.

Gwybodaeth arall

Mae gan Gymru ei Strategaeth Ryngwladol a'i hamcanion ei hun ar gyfer ymgysylltu â'r Undeb Ewropeaidd. Mae Swyddfa Brwsel Llywodraeth Cymru, a'n rhwydwaith o swyddfeydd ledled Ewrop yn Ffrainc, yr Almaen ac Iwerddon, yn ganolog i gefnogi ein gweithgarwch masnach a buddsoddi yn Ewrop a chyflawni ein hymrwymiad i ymgysylltu ag Ewrop. Mae'r presenoldeb hwn yn golygu y gallwn barhau i weithio gyda'n partneriaid yn Ewrop ar y gwerthoedd ac uchelgeisiau polisi a rannwn. Bydd yn ein galluogi hefyd i gefnogi busnesau i fasnachu mor effeithlon â phosibl yn y dyfodol.

Gan fod ymadael â'r UE wedi arwain at rwystrau ychwanegol i fasnach a buddsoddiad ym marchnad yr UE, mae'n bwysicach nag erioed cael presenoldeb ledled Ewrop i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan buddsoddi ac i gefnogi busnesau i barhau i fasnachu gyda'n partner masnachu mwyaf. Rhaid i ni weithio'n galetach i barhau'n bresennol ac yn berthnasol i'n partneriaid Ewropeaidd ar ôl Brexit.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu nodau polisi gyda'r UE ar lawer o faterion a heriau allweddol megis cynaliadwyedd, yr amgylchedd a bioamrywiaeth, hinsawdd, arloesi a datblygu rhanbarthol, cydraddoldeb a materion cymdeithasol, ymysg eraill. Mae ymadawriad y DU â'r UE wedi gwneud ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau'r UE ar y pynciau hyn yn fwy o her gan nad oes gennym yr un mynediad at fframweithiau sefydliadol yr UE mwyach i gasglu gwybodaeth a dylanwadu ar bolisi'r UE. Mae telerau'r cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU yn golygu ei bod yn bwysig deall cyfeiriad polisi'r UE yn y dyfodol a fydd â goblygiadau parhaus i Gymru.

Drwy waith Swyddfa Brwsel Llywodraeth Cymru, ein Cynrychiolydd Ewropeaidd a'n cysylltiadau blaenoriaeth â chenhedloedd a rhanbarthau Ewrop, rydym yn ailsefydlu ac yn atgyfnerthu ein cysylltiadau â sefydliadau'r UE a phartneriaid mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r trefniadau newydd ar ôl Brexit. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gydag amrywiaeth eang o rwydweithiau Ewropeaidd sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd. Mae'r rhwydweithiau hyn yn codi proffil Cymru yn Ewrop, yn darparu dadansoddiad manwl o gynigion polisi'r UE ac yn cefnogi adeiladu consortia ar gyfer cydweithredu rhyngranbarthol. Nid yw'r gweithgarwch a wneir gan bob un o'n swyddfeydd rhyngwladol, gan gynnwys y rhai yn Ewrop, wedi'i nodi'n rhagnodol yn nyranriad y gyllideb ddrafft ac mae'n ymateb yn hyblyg i heriau a blaenoriaethau byd-eang.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gadw swyddfa Brwsel. Trafodwyd prydles newydd a mwy ffafriol dros gyfnod o naw mlynedd, gan sicrhau Tŷ Cymru fel canolbwynt hanfodol ar gyfer ymgysylltiad Llywodraeth Cymru, y Senedd a Phrifysgolion Cymru â sefydliadau'r UE.

Mae'r camau i sefydlu academi heddwch yn un o ymrwymïadau pwysig eraill y Rhaglen Lywodraethu. Dyfarnwyd cyllid i Academi Heddwch, sy'n dod i gyfanswm o £140,918 yn y flwyddyn ariannol bresennol. Cynhaliodd yr Academi ei darlith heddwch gyntaf yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen eleni, gan ddyfarnu tystysgrifau i ysgolion am eu gwaith ar heddwch. Mae'r Academi wedi cwblhau rhywfaint o ymchwil sylfaenol ar 'Cymru fel Cenedl Heddwch' a fydd yn cynorthwyo i ddatblygu rhwydwaith ymchwil heddwch Cymru.

Yn anffodus, mae gwrthdaro byd-eang yn parhau i fod yn nodwedd arwyddocaol o'r agenda ryngwladol. Er nad yw hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol, mae ymateb i sefyllfaoedd, megis y rhyfel digymell yn Wcráin, yn parhau i fod yn rhan bwysig o waith Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi arwain ar ymateb y DU i'r digwyddiadau hyn, ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r FCDO i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi cymorth i'r rhai sydd wedi'u heffeithio drwy'r cynllun Cartrefi i Wcráin a gweithio gyda Phwyllgor Argyfyngau Brys Cymru. Mae cymorth Cymru i Wcráin yn cael ei drafod fel mater o drefn mewn ymgysylltiadau diplomyddol a, thrwy ein cyllid i Academi Heddwch, mae ysgolion ac eraill wedi cael eu cyfeirio at adnoddau sy'n esbonio'r gwrthdaro a'r ffyrdd y gall dinasyddion helpu.

Meysydd penodol

Strategaeth Ryngwladol

O fewn y gyllideb Ymgysylltiad Rhyngwladol hon o £3.059m, mae £150,000 wedi'i ddyrannu i'r Cynllun Gweithredu Perthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol sy'n cael Blaenoriaeth, £1.3m i'r Cynllun Gweithredu ar Gymell Tawel a Diplomyddiaeth Gyhoeddus a £190,000 i'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chymry ar Wasgar. Caiff gweddill y gyllideb, sef £1.419m, ei ddefnyddio i ariannu gweithgarwch trawsbynciol sy'n cefnogi ein hamcanion Cysylltiadau Rhyngwladol cyffredinol a'r Strategaeth Ryngwladol yn hytrach na chael ei ddyrannu'n uniongyrchol i Gynllun Gweithredu penodol.

Mae Cysylltiadau Rhyngwladol yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid strategol, gan gynnwys sefydliadau celfyddydol a chwaraeon, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ein Cymry ar wasgar byd-eang a'n rhanbarthau a'n gwledydd â blaenoriaeth, i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein Strategaeth Ryngwladol.

Rydym yn disgwyl i'n partneriaid strategol gyflwyno eu cynlluniau ymgysylltu a chyflawni yn chwarter cyntaf 2024 a byddwn yn ystyried eu ceisiadau am adnoddau yn unol â hynny. Byddwn yn parhau hefyd i weithio gyda phartneriaid strategol nad ydym yn eu hariannu'n uniongyrchol ond sy'n cyfrannu at gyflawni'r Strategaeth.

Bu ymgysylltiad sylweddol â rhanbarthau â blaenoriaeth yn y flwyddyn ariannol hon. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r tîm Cysylltiadau Rhyngwladol wedi trafod memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd gyda Fflandrys, datganiad ar y cyd â Baden-Württemberg a Chytundeb Cyfeillgarwch Rhyngwladol gyda dinas Birmingham, Alabama.

Mae Cymru wedi cynnal sawl Rhanbarth â Blaenoriaeth yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol hon, gan gynnwys dirprwyaeth o'n rhanbarthau â blaenoriaeth yn Wythnos Dechnoleg Cymru. Roedd y ddirprwyaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Silesia, Catalonia, Gwlad y Basg, Fflandrys, Ontario, Baden-Württemberg a Québec.

Rhaglen Cymru ac Affrica

Mae cyllideb Cymru ac Affrica 2023-24 yn £1.359m – gyda'r trosglwyddiad MEG i MEG o £350,000 a £100,000 ychwanegol i dalu am bwysau chwyddiant ar gyfer prosiect Plannu Coed Mbale. Dim ond ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 y mae'r trosglwyddiad ychwanegol hwn. Dychwelwyd £16,000 o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn yr ymarfer arbedion cost.

Mae rhaglen Cymru ac Affrica yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, gyda £350,000 (drwy drosglwyddiadau) o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol yn cyfrannu at gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol.

Mae'r £450,000 o gyllid Cysylltiadau Rhyngwladol yn cyfrannu at grant o £550,000 i raglen Maint Cymru, yn bennaf er mwyn darparu Rhaglen Plannu Coed Mbale, gyda rhywfaint o gyllid wedi'i ddyrannu i brosiect Coedwig Gymunedol Bore yn Kenya.

2024-25

Ar hyn o bryd, rhagwelir mai £1.050m fydd cyllideb Cymru ac Affrica ar gyfer 2024-25 – gyda'r trosglwyddiad MEG i MEG o £350,000. Mae'r swm is yn dilyn yr ymarfer arbedion ariannol canolog lle dychwelwyd £225,000 yn ganolog.

Swyddfeydd tramor

Y gyllideb ar gyfer Swyddfeydd Rhyngwladol yw £5,434,400. Mae'n cael ei rannu rhwng cyllideb flynyddol o £4,684,400 ar gyfer costau rhedeg swyddfeydd tramor a chyllideb flynyddol o £750,000 ar gyfer gweithgareddau cyfunol. Mae'r gyllideb costau rhedeg swyddfeydd tramor yn cynnwys rhent swyddfeydd, taliadau plattfform FCDO, cyflogau staff ac argostau. Mae'r gyllideb gweithgareddau'n cefnogi gweithgarwch rhwydwaith-cyfan ar gyfer y swyddfeydd tramor. Nid ydym yn pennu cyllidebau costau rhedeg rhaglenni ar gyfer pob swyddfa gan fod y rhain yn cael eu rheoli'n ganolog. Mae'r swyddfeydd tramor yn gallu gwneud cais i'r gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol hefyd i gyflawni yn erbyn y cynlluniau gweithredu a gweithgarwch trawsbynciol.

Mae'r Swyddfeydd Rhyngwladol yn cyflawni yn erbyn nodau penodol y Strategaeth Ryngwladol a'r Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig, yn ogystal â chylch gwaith cyhoeddedig y swyddfeydd unigol, gyda ffocws ar gymell tawel.

O ran ein hymgysylltiad â digwyddiadau mawr/rhyngwladol, cychwynnodd rhaglen o ddiplomyddiaeth chwaraeon ym mis Awst 2022, gyda'r nod o geisio manteisio ar gyfleoedd ar ôl i Gymru gyrraedd sawl pencampwriaeth o bwys mewn campau amrywiol gan gynnwys hoci, pêl-rwyd, rygbi a phêl-droed. Yn ystod 2023 drwyddi draw, gwnaethom geisio elwa i'r eithaf ar gyfleoedd chwaraeon gan ddechrau gyda Chwpan Hoci'r Byd yn India ym mis Ionawr hyd at Gwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc yn yr hydref.

Gwnaeth gwerthusiad annibynnol o ddull Tîm Cymru Llywodraeth Cymru adrodd yn gadarnhaol am bartneriaethau newydd, rhwydweithiau cryfach a chysylltiadau rhyngwladol economaidd, addysgol a diwylliannol gwell o ganlyniad i'n gwaith. Daeth i'r amlwg hefyd fod y gweithgareddau hyn wedi cyrraedd cynulleidfa eang, gartref ac yn rhyngwladol. Byddwn yn defnyddio'r dysgu hwn mewn gweithgareddau ac wrth gynllunio digwyddiadau yn y dyfodol. Mae'n bwysig nodi bod llawer o'r gwaith sy'n defnyddio chwaraeon fel offeryn ar

gyfer cymell tawel wedi'i wneud gan dimau ledled Llywodraeth Cymru, nid Cysylltiadau Rhyngwladol yn unig.

Mae cynlluniau ar gyfer ymgysylltu mewn digwyddiadau rhyngwladol yn 2024-25 yn parhau. Rydym yn rhagweld y bydd rhai o'r digwyddiadau hyn yn gysylltiedig â'n blwyddyn Cymru yn India a Dydd Gŵyl Dewi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD

Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

06.12.2023

Adroddiad ar yr amgylchedd waith a'r awyrgylch yn S4C



Capital Law Limited is a company (number 05841213) registered in England and Wales whose registered office is Capital Building, Tyndall Street, Cardiff, CF10 4AZ. VAT number 287 1463 77. A list of directors is available at Companies House. We use the term partner to refer to a director of the company or to an employee or consultant who is a lawyer with equivalent standing and qualifications. Capital Law Limited is authorised and regulated by the Solicitors Regulation Authority (SRA ID 644688). Members of CONSULEGIS International Association of Lawyers.

Cyflwyniad

Fe'm cyfarwyddwyd gan Awdurdod S4C (sef aelodau anweithredol S4C) i gynnal ymarfer canfod ffeithiau i amgylchedd waith a'r awyrgylch yn S4C yn dilyn llythyr cwyn a dderbyniodd gan BECTU ar 28 Ebrill 2023. Roedd y llythyr hwn yn dilyn e-bost cwyn cynharach gan BECTU, dyddiedig 2 Rhagfyr 2022, a anfonwyd at y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol S4C. Cyflogodd yr Awdurdod Capital Law i gynnal ymarfer canfod ffeithiau annibynnol, a dyma'n Hadroddiad ar y dystiolaeth a gasglwyd gennym y gellir ei chyhoeddi.

Mae Capital Law yn annibynnol o S4C gan nad ydym wedi gweithio iddynt ers o leiaf 5 mlynedd ac nid yw Capital Law, nac unrhyw un o'r bobl yn Capital Law a weithiodd ar yr Adroddiad hwn, wedi rhoi cyngor cyfreithiol i unrhyw un o aelodau'r Awdurdod ac nid ydynt ychwaith wedi cael unrhyw berthynas fasnachol na phersonol â nhw.

Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl sydd i'w weld yn Atodiad 1.

Rhodddwyd y dasg benodol i ddau gyfreithiwr gynnal ymarfer canfod ffeithiau – gan wrando ac adrodd yn ôl ar yr hyn a glywyd. Casglodd yr ymchwilyr hyn dystiolaeth gan aelodau o staff, cyn-aelodau o staff a phobl sydd wedi gweithio gydag S4C o'r blaen a oedd am gyfrannu at y broses a rhannu eu sylwadau am yr amgylchedd waith a'r awyrgylch o fewn S4C.

Penderfynodd yr Awdurdod fod yn rhaid i'r rhai a roddodd dystiolaeth fod yn sicr eu bod yn gwneud hynny'n gyfrinachol, ac yn ddiennw os oeddent yn dymuno hynny, a dyna oedd dymuniad llawer ohonynt (felly adroddodd yr ymchwilyr yr holl dystiolaeth yn ddiennw). Cyflwynwyd adroddiad o dystiolaeth yr ymchwilyr, ynghyd â thrawsgrifiadau o'r hyn a ddywedodd pob tyst, i Ysgrifennydd a Chadeirydd S4C a thîm arall o gyfreithwyr Capital Law, a weithiodd ar wahân ac yn annibynnol i'r ymchwilyr, i gynghori'r Awdurdod yn ei gylch. Cafodd y penderfyniad i benodi'r ddau dîm o fewn Capital Law ei wneud gan yr Awdurdod ar ran S4C.

O ystyried yr addewid o gyfrinachedd i'r tystion a'r cais o anhysbysrwydd a wnaed gan nifer, bu'n her darparu'r Adroddiad hwn â digon o eglurder a thystiolaeth ategol. Mae'r Awdurdod wedi derbyn adroddiad cynhwysfawr yn seiliedig ar y dystiolaeth, wedi ei gefnogi gan ddyfyniadau helaeth o'r dystiolaeth i'w alluogi i wneud y penderfyniadau sy'n ofynnol ohono, ond rydym wedi gorfod aralleirio'r rhan fwyaf o'r dyfyniadau yn yr Adroddiad hwn er mwyn i'r tystion beidio cael eu hadnabod, neu fel nad oes rhaid iddynt boeni y gallent gael eu hadnabod.

Roedd yn rhaid i ni flaenoriaethu diogelu hunaniaeth y tystion, yn enwedig gan fod rhai ohonynt wedi dweud eu bod wedi eu trawmateiddio ac yn nerfus ynghylch rhoi dystiolaeth. Mae'n rhaid i ni felly ddatgan yn eglur, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, pan nad ydym wedi gallu nodi dyfyniad gan dyst, fod dystiolaeth o'r fath yn bodoli ac wedi'i gweld gan aelodau'r Awdurdod.

Mae'r Adroddiad hwn, felly, yn ddistylliad o'r dystiolaeth helaeth a gasglwyd. Nid oes modd iddo fod yn gofnod lawn o'r holl dystiolaeth a ddarparwyd oherwydd y rhesymau uchod.

Yn gyffredinol, mae adroddiadau fel hyn yn ceisio gosod y dystiolaeth yn ddiennw er mwyn diogelu preifatrwydd hunaniaeth y rhai dan sylw. O ystyried natur y sefyllfa hon, ac mai pwysau'r dystiolaeth oedd bod y materion yn S4C am ei hamgylchedd waith a'i hawyrgylch yn cael eu hachosi gan bobl benodol, roedd yn amhosib peidio â'u henwi. Pe na baem wedi gwneud hynny, byddai wedi bod yn amlwg pwy oedd yn cael ei drafod.

Nid oedd yn ofynnol i ni o dan y Cylch Gorchwyl wneud argymhellion ynghylch yr hyn y dylai'r Awdurdod ei wneud oherwydd y dystiolaeth a gawson, a nid ydym wedi gwneud hynny.

Mae'r Adroddiad hwn yn ymdrin â'r dystiolaeth a ddarparwyd i Capital Law hyd at

Cyflwyniad

	<p>ddiwedd yr ymchwiliad canfod ffeithiau yn unig. Nid yw'n delio ag unrhyw faterion a godwyd ers hynny, boed yn y cyfryngau neu mewn gohebiaeth.</p>
<p>Methodoleg i gasglu'r dystiolaeth</p>	<p>Roedd y cyfraniadau a dderbyniwyd fel rhan o'r broses casglu tystiolaeth ('y Broses') yn gwbl wirfoddol. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfraniadau ar lafar, gyda sawl cyfraniad ysgrifenedig. Casglwyd dystiolaeth ddogfennol ychwanegol gan y cyfranogwyr hefyd.</p> <p>Gwirfoddolodd 95 o unigolion i gymryd rhan yn y Broses ond newidiodd 3 eu meddyliau ac ni wnaethant hynny.</p> <p>O'r 92 o gyfranogwyr a gymerodd ran yn y Broses:</p> <ul style="list-style-type: none"> — Roedd 46 ohonynt yn weithwyr presennol yn S4C, — Roedd 14 ohonynt yn gyn-weithwyr S4C, — Roedd 28 yn annibynnol o S4C ond wedi gweithio gydag S4C yn flaenorol, — Roedd 3 wedi gadael eu cyflogaeth gydag S4C ers i'r Broses ddechrau; a — ni ddatgelodd 1 ei enw/henw. <p>O'r 92 o gyfranogwyr, cyfarfuom â 79 a darparodd 13 gyfraniadau ysgrifenedig yn unig. O'r 79 o gyfranogwyr y gwnaethom gyfarfod â nhw, darparodd 40 dystiolaeth ddogfennol ychwanegol.</p> <p>Cafodd pob cyfarfod ei recordio â chaniatâd y tystion ac yna ei drawsgrifio.</p> <p>Bu'r ymchwilydd yn paratoi ar gyfer pob cyfarfod yn unol â'r Cylch Gorchwyl, gyda chwestiynau wedi'u paratoi ynglŷn â'r amgylchedd waith a'r awyrgylch o fewn S4C. Profodd pob cyfarfod i fod yn wahanol. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r holl gyfraniadau, ac ymdrechwyd i gadw'r cyfarfodydd yn berthnasol i'r Cylch Gorchwyl.</p> <p>Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, fe'i choladwyd gan yr ymchwilydd trwy grynhoi'r themâu a ddaeth i'r amlwg wedi'i ategu gan ddetholiad o ddyfyniadau o'r trawsgrifiadau a'r cyfraniadau ysgrifenedig. O'r 92 o gyfranogwyr, dyfynnir 65 ohonynt yn yr Adroddiad Tystiolaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> — O'r 92 o gyfranogwyr, gofynnodd 63 i aros yn ddienw. — O ganlyniad i'r cyfyngiadau ynghylch cyfrinachedd a dymuniadau'r mwyafrif o'r cyfranogwyr i aros yn ddienw, ni wahoddwyd ymatebion i unrhyw honiadau penodol gan gyfranogwyr. — O ystyried sensitifrwyd y dystiolaeth a nifer yr unigolion a ofynnodd am gyfrannu'n ddienw, mae'r trawsgrifiadau llawn wedi'u gwneud yn ddienw yn unol â dymuniadau'r cyfranogwyr. — Gofynnodd 38 o gyfranogwyr i gwrdd â ni wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hynny mewn 4 lleoliad gwahanol: Caerdydd, Caerfyrddin, Aberystwyth, a Chaernarfon. Cyfarfuom â 41 o'r cyfranogwyr yn rhithiol. Derbyniom 13 o gyfraniadau ysgrifenedig (heb gyfarfodydd). — Trwy gydol y Broses, daeth yn amlwg bod llawer o'r cyfranogwyr yn gwneud rhagdybiaethau ffug ein bod yn ymchwilio i honiadau o fwlio. Atgoffwyd y cyfranogwyr hynny mai proses wrando/canfod ffeithiau oedd hon, nid proses ymchwilio i unrhyw honiad penodol. — Ychydig iawn o gyfranogwyr a wnaeth sylwadau am y cyfnod (neu unrhyw ddigwyddiad) cyn penodi Sian Doyle yn Brif Weithredwr S4C. Daeth y rhan fwyaf o bobl i rannu eu sylwadau, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar yr amgylchedd gwaith yn S4C ers Ionawr 2022.

Strwythur yr Adroddiad hwn

	<p>Roedd prif thema'r dystiolaeth a gawsom yn canolbwyntio ar ymddygiad a gweithredoedd Prif Weihredwr S4C, Sian Doyle ac (ond i raddau llai) y Prif Swyddog Cynnwys, Llinos Griffin-Williams, sut yr aethant ati i wneud eu gwaith a sut yr ansefydlogodd y sefydliad. Mae hyn yn ein harwain at strwythuro'r Adroddiad hwn fel a ganlyn:</p>
<p>Pennod 1 Y Prif Weithredwr</p>	<ul style="list-style-type: none"> — Trosolwg — Gweithredu newid — Defnydd o iaith feirniadol a difriol — S4C Clic — Arddull arweinyddiaeth unbenaethol — Ymddygiad gwrthdrawiadol — "Shoot one and a thousand tremble" — Anwybyddu profiad ac arbenigedd — Diystyru ac anwybyddu staff — Iaith gorfforol — Ymddygiad amharchus — Dyletswydd gofal staff — Sylwadau cefnogol
<p>Pennod 2 Y Prif Swyddog Cynnwys</p>	<ul style="list-style-type: none"> — Trosolwg — Dileu cyfrifoldebau — Canslo cyfarfodydd yn rheolaidd — Diffyg cyfathrebu — Perthynas y comisiynwyr â chwmnïau allanol — Ymddygiadau'r comisiynwyr tuag at Llinos Griffin Williams
<p>Pennod 3 Yr effaith ar S4C fel sefydliad</p>	<ul style="list-style-type: none"> — Iechyd a llesiant — Anhrefn a chamweithrediad
<p>Pennod 4 Timau yr effeithiwyd arnynt</p>	<ul style="list-style-type: none"> — Timau'r Wasg a Marchnata — Swyddfa Caernarfon — Yr Adran AD
<p>Pennod 5 Y Cadeirydd</p>	

Pennod 1 – Y Prif Weithredwr

<p>Trosolwg</p>	<p>Roedd Sian Doyle a'i hymddygiad yn thema amlwg a godwyd dro ar ôl tro. Cawsom enghreifftiau o'i hymddygiad hi gan gyn-weithwyr, trydydd partïon a gweithwyr presennol o bob un o dair swyddfa S4C, o wahanol lefelau o fewn y sefydliad ac o wahanol adrannau. O ystyried nifer y cyfranogwyr a wnaeth sylwadau, a nifer yr enghreifftiau a roddwyd, amlygwyd ymddygiad Sian Doyle fel un a gafodd yr effaith fwyaf arwyddocaol negyddol ar yr amgylchedd waith ac awyrgylch o fewn S4C. Mae'r bennod hon yn cynnwys enghreifftiau perthnasol.</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau yn rhai'n ymwneud ag ymddygiad drwg honedig (87.9%) Sian Doyle. O'r 37 o'r cyfranogwyr hynny (26 o weithwyr presennol ac 11 o gyn-weithwyr), yr argraff oedd bod arddull Sian Doyle o reoli yn wrthdrawiadol, yn ddifriol ac anystyriol. Roedd ymddygiad Sian Doyle wedi cael effaith arwyddocaol ar 18 o weithwyr presennol S4C.</p> <p>Nid oedd llawer o'r enghreifftiau a ddarparwyd wedi'u profi gan dystiolaeth ddogfennol, na thystiolaeth gan fwy nag un tyst, ond roedd yna thema glir. Mae rhywfaint o'r dystiolaeth yn ymwneud â digwyddiadau penodol arwyddocaol tra bod dystiolaeth arall yn ymwneud â mân ddigwyddiadau, sy'n cael eu hailadrodd, gan greu patrwm. Rydym yn adrodd ar y ddau.</p> <ul style="list-style-type: none"> — Cawsom 116 o enghreifftiau o ymddygiad Sian Doyle - mae 101 ohonyn nhw wedi eu categorio fel ymddygiad drwg honedig. Mae 15 enghraifft wedi'u categorio fel ymddygiad da honedig. — Darparwyd y 101 enghraifft honedig o ymddygiad gwael Sian Doyle gan 29 o gyfranogwyr. — O'r 29 cyfranogwr a roddodd enghreifftiau o ymddygiad drwg honedig Sian Doyle, roedd 18 yn weithwyr presennol S4C, roedd 9 yn gyn-weithwyr S4C, ac roedd 2 wedi gadael y sefydliad ers dechrau'r Broses. — Mae'r 15 enghraifft o ymddygiad da honedig Sian Doyle wedi'u darparu gan 12 o gyfranogwyr. — O'r 15 enghraifft o ymddygiad da honedig Sian Doyle, mae 4 gan gyfranogwyr a roddodd enghreifftiau hefyd o ymddygiad drwg honedig Sian Doyle. — O'r 12 cyfranogwr a oedd wedi rhoi enghreifftiau o ymddygiad da honedig Sian Doyle, roedd 3 yn gyn-weithwyr S4C a 9 yn weithwyr presennol S4C. — O'r 12 cyfranogwr a oedd wedi rhoi enghreifftiau da o ymddygiad Sian Doyle, roedd 6 ohonynt yn benodiadau a wnaed pan yr oedd hi'n Brif Weithredwr. <p>Mae 16 tudalen o'r Adroddiad Tystiolaeth yn dyfynnu enghreifftiau o ymddygiad gwael tra bod 2 dudalen yn dyfynnu enghreifftiau o ymddygiad da.</p>
<p>Gweithredu newid</p>	<p>Er bod cyfranogwyr yn cydnabod bod angen newid o fewn S4C, a bod y cyfeiriad strategol cyffredinol yr oedd Sian Doyle yn gweithio tuag ato yn un cadarnhaol, disgrifiodd y cyfranogwyr sut roedd Sian Doyle wedi methu â dod â chydweithwyr S4C gyda hi wrth weithredu a rheoli'r newid hwn.</p> <p>Mae'r adroddiadau niferus gan dystion wedi'u crynhoi yn y cyfraniadau hyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> — Adroddwyd fod y Prif Weithredwr wedi ei gwneud yn eglur bod angen pryder yn hytrach nag ymddiriedaeth er mwyn cyflawni newid yn y gweithle a'u bod yn deall bod y Prif Weithredwr am i staff deimlo'n ansicr yn y gwaith i gyflawni'r newid. — <i>Dywedwyd fod yna '...ddiwylliant o zero critial discourse a mae 'di creu sefyllfa lle does dim analysis o'r gwir, mae'r gwir yn cael ei gyflwyno mewn ffordd ma Siân yn</i>

Pennod 1 – Y Prif Weithredwr

	<p><i>ei gweld e a nad yw'r tîm rheoli ddim yn ei herio achos mae'r diwylliant wedi mynd i fath raddau bod dim gyda ni'r hawl i herio ac yn fy marn i, i neud y job i ni fod i neud. Mae yn fath o 'compliance or die' ydy'r awyrgylch fydden i'n disgrifio.'</i></p>
<p>Defnydd o iaith feirniadol/ ddifriol</p>	<p>Disgrifiodd llawer o'r cyfranogwyr sefyllfaoedd lle'r oeddent wedi gweld Sian Doyle yn ymddwyn yn sarhaus wrth drafod cydweithwyr S4C a'u gwaith. Disgrifiwyd hyn mewn amrywiol ffyrdd, ond cyfeiriodd cyfranogwyr ati yn targedu cydweithwyr penodol yn gyhoeddus (a amlinellir isod) a'i defnydd o regfeydd a iaith ddifriol wrth eu trafod. Arweiniodd hyn at deimlad annymunol o ddiffyg ymddiriedaeth ymhlith y cyfranogwyr.</p> <p>Ceir adroddiadau niferus bod y Prif Weithredwr yn anghwrtais neu'n ddirmygus ynghylch cydweithwyr mewn cyfarfodydd mewnol neu gyhoeddus. Mae enghreifftiau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> — Sylwadau dilornus am raglenni S4C a'u cyflwynwyr. Mewn un enghraifft mewn perthynas â rhaglen benodol, adroddwyd bod y Prif Swyddog Gweithredol yn dweud "pw y ffwc yw [golygwyd - cyflwynwyr]? Pwy sy'n gwyllo'r rwts yma?" — "Dechreuodd Sian Doyle ddweud am [gyn-aelod o staff] nad yw bellach yn gweithio yn S4C. Roedd hi'n wyllt ac yna dywedodd "mae'n rhaid iddo fynd. Dydw i ddim yn mynd i gael unrhyw un fel hynny yn gweithio yma". Mae hynny'n aralleiriad o'i geiriau. Roedd hi jest yn dweud wrth ystafell yn llawn: "dyna ni. Mae'n rhaid iddo fynd. Rydw i'n mynd i gael gwared ag e." — Mewn un sgwrs am gydweithiwr, adroddwyd Sian Doyle yn dweud 'She's fucking gone, she shows me no respect, I'll get rid of her like that.'
<p>S4c Clic</p>	<p>Disgrifiodd y cyfranogwyr eu teimladau o rwystredigaeth o'r ffordd roedd Sian Doyle yn feirniadol yn gyhoeddus ar ddau achlysur: mewn cyfarfod tîm rheoli ar 27/1/2022 a chyfarfod staff ehangach ar 28/4/2022 - mae fideo o'r olaf a'r sylwadau a wnaed ynddo.</p> <p>Cawsom hefyd gopiâu o negeseuon SLACK rhwng aelodau staff S4C a oedd yn ymwneud â Clic. - tystiolaeth sy'n casglu eu sylwadau yn syth ar ôl y cyfarfod staff 28/4/2022. Dangosodd y dystiolaeth hon effaith andwyol a gafodd sylwadau Sian Doyle ar forâl y staff oedd wedi gweithio ar Clic a disgrifiodd y cyfranogwyr eu siom fod y sylwadau hyn am Clic wedi eu gwneud yn gyhoeddus, yn hytrach nag yn uniongyrchol ac yn breifat i'r unigolion dan sylw mewn modd proffesiynol.</p>
<p>Arddull Arweinyddiaeth Unbenaethol</p>	<p>Adroddwyd gan y cyfranogion bod arddull arweinyddiaeth Sian Doyle yn "unbenaethol", gan greu diwylliant o ofn. Disgrifiodd llawer o'r cyfranogwyr effaith negyddol hyn arnyn nhw a'u gwaith, gyda llawer yn amharod i herio'r Prif Weithredwr ac yn ofni datgan eu syniadau neu eu barn tuag ati. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi achosi i lawer o staff S4C i deimlo'n ofnus yn gyffredinol yn y gweithle.</p> <p>Mae yna nifer o adroddiadau yn ystyried eu bod yn gorfod gwneud yr hyn a ddywed y Prif Weithredwr, p'un ai eu bod yn cytuno neu beidio, gyda hi yn dweud:</p> <ul style="list-style-type: none"> — <i>Ydych chi gyda mi neu beidio, ydych chi gyda mi neu beidio? a 'fi neu'r Cadeirydd, mae'n rhaid i chi ddewis pwy rydych chi'n deyrngar iddo, fi neu'r Cadeirydd?'</i> — Adroddodd cyfranogwr ei bod, wrth geisio rhoi adborth i'r Prif Weithredwr, fe'i gwnaed yn glir nad oedd ei farn yn cael ei chroesawu nac ei gwerthfawrogi.

Pennod 1 – Y Prif Weithredwr

<p>Ymddygiad gwrthdaro</p>	<p>Yn ogystal â bod llawer o gyfranogwyr yn ystyried arweinyddiaeth Sian Doyle yn <i>"unbenaethol"</i>, clywsom gan lawer o bobl a oedd yn ei hystyried i fod yn wrthdrawiadol.</p> <p>Rhannwyd nifer o enghreifftiau â ni o hyn, ond gall darparu gwybodaeth a dyfyniadau, o'r adran hon yn benodol, fod yn debygol o dorri cyfrinachedd y cyfranogion. Mae sawl adroddiad yn awgrymu bod unigolion wedi cael eu dwrdio mewn cyfarfodydd gyda nifer eraill o staff yn bresennol, ond mae'r dystiolaeth yn bersonol iawn.</p> <p>Disgrifiwyd o leiaf un digwyddiad lle'r oedd ymddygiad cynhyrfus ac iaith gorfforol heriol wedi arwain at aelod o staff mewn dagrau a gorfod cael ei gysuro gan eraill a oedd yn bresennol.</p>
<p>"Shoot one and a thousand tremble"</p>	<p>Enghraifft a rannwyd â ni o arddull arweinyddol Sian Doyle oedd ei defnydd cyson honedig o'r ymadrodd <i>"Shoot one and a thousand tremble"</i>. Codwyd hyn gan lawer o gyfranogwyr a chafodd ei weld yn uniongyrchol gan 3.</p> <p>Mae'r cyfnewid hwn yn enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> — <i>Ymchwilydd</i>: "Ydych chi wedi clywed Sian yn dweud [<i>'shoot one and a thousand tremble</i>]?" <i>[Golygydd]</i>: "Do, ac mae'r tîm rheoli cyfan wedi clywed Sian yn dweud hyn sawl gwaith."
<p>Anwybyddu profiad ac arbenigedd</p>	<p>Clywsom fod cyfranogwyr yn teimlo bod Sian Doyle yn diystyru profiad, arbenigedd a llwyddiannau'r gorffennol. Dywedodd un tyst:</p> <ul style="list-style-type: none"> — <i>"O'n i wedi gweithio o dan 5 prif-weithredwr, perthynas rili da, nifer o gadeiryddion, ag interim prifweithredwr ag o'n i erioed wedi teimlo mor ddi-werth ag o'n i yn gweithio i Siân."</i>
<p>Diystyru ac anwybyddu staff</p>	<p>Dywedodd cyfranogwyr sut y cawsant eu hanwybyddu a/neu eu hosgoi gan Sian Doyle yn y gwaith ac mewn digwyddiadau gwaith, ac mae'r dyfyniad hwn yn dal y dystiolaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> — Dywedodd aelod o staff: <i>"Ni ddywedwyd dim wrthyf. Dim diolch. Dim byd. Dim byd"</i>. Disgrifiwyd ymhellach amgylchedd heriol lle roedd yn teimlo ei fod yn cael ei anwybyddu'n barhaus gan y Prif weithredwr yn ystod sgysiaau â rhanddeiliaid allweddol a arweiniodd at reolwr arall yn ymddiheuro am ymddygiad y Prif Weithredwr.
<p>Iaith y corff</p>	<p>Siaradodd y cyfranogwyr o rwystredigaeth â'r ffordd yr oedd Sian Doyle yn cynnal ei hun yn ystod cyfarfodydd, naill ai yn anwybyddu pobl neu yn defnyddio iaith gorfforol negyddol, fel rholio ei llygaid i fwrw dirmyg.</p> <p>Mae'r dystiolaeth hon wedi'i hamgáu gan y dyfyniad hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> — <i>"So, am fisoedd aeth y sgwrs ma mlaen a pob tro ro ni'n gwneud e, roedd yna gyfnod am dair, pedair mis lle dwi ddim yn meddwl nes i orffen un brawddeg achos yr eiliad o ni yn dechrau siarad mewn unrhyw gyfarfod, byse hi yn torri ar draws, byse hi yn edrych yn sarky. Os byswn i yn gwneud pwynt roedd hi'n anghytuno da, byse hi yn rollo llygaid ata i a neud at bobl eraill o gwmpas y bwrdd mewn ffordd eithaf cyhoeddus er mwyn trio tanseilio y pwynt o ni yn gwneud"</i>
<p>Ymddygiad amharchus</p>	<p>Disgrifiodd cyfranogwyr achlysuron pan oeddent yn ystyried ymddygiad Sian Doyle yn amharchus tuag at gydweithwyr S4C, ac at waith staff S4C.</p>

Pennod 1 – Y Prif Weithredwr

	<p>Er enghraifft, soniodd un tyst am siarad â'r Prif Weithredwr mewn digwyddiad am raglen newydd a gafodd dderbyniad da ond y dewisodd y Prif Weithredwr ei fychanu'n gyhoeddus.</p> <p>Darparwyd enghraifft arall gan gyfranogwr a adroddodd fod Sian Doyle wedi dweud yn rymus, wrth gael cynnig cyngor a briff: 'Pwy yw'r Prif Weithredwr?', gan roi'r argraff nad oedd y cyngor a'r briffio yn cyfri ac mai barn y Prif Weithredwr yn unig oedd yn cyfri.</p>
Dyletswydd gofal staff	<p>Ar ddau achlysur gwahanol, honnwyd bod Sian Doyle wedi gofyn i 2 gyfranogwr am reswm eu salwch / absenoldeb iechyd o flaen cydweithwyr eraill.</p> <p>Enghraifft o hyn yw'r Prif Weithredwr yn gofyn i gydweithiwr ymuno a hi mewn trafodaeth gyhoeddus gydag eraill ac yna'n ei holi am fater iechyd preifat penodol.</p>
Cefnogol	<p>Clywsom gan nifer o gyfranogwyr eu bod yn ystyried Sian Doyle yn gefnogol, gyda materion gwaith a materion personol yr oeddent wedi'u hwynebu. Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> — <i>"Mae Siân, y Prif Weithredwr, wastad yn gwneud pwynt o ddweud helo, a gwneud yn siŵr fy mod i'n iawn."</i> — <i>"Mae hi'n gefnogol, mae hi'n hyblyg, mae hi'n hawdd mynd ati ond dwi'n gwybod lle dwi'n sefyll hefyd."</i> — <i>"- mae'r Prif Weithredwr mae'n ddrwg gennyf - wedi bod yn gefnogol iawn i mi dros y blynyddoedd y mae wedi bod yn y rôl. Rwy'n credu ei bod wedi bod yn uchelgeisiol iawn, ac mae gweledd y sianel wedi bod yn fyd-eang ers iddi ddechrau, ac mae wedi bod yn llawer o help i mi."</i>
	<p>Ceir tystiolaeth bellach o ymddygiad heriol gan y Prif Weithredwr ym Mhennod 3 a 4 yr Adroddiad hwn.</p>

Pennod 2 – Y Prif Swyddog Cynnwys

<p>Trosolwg</p>	<p>Cafodd y Prif Swyddog Cynnwys feirniadaeth am y modd yr oedd yn delio â Chomisiynwyr S4C, haen allweddol o brofiad a dylanwad o fewn y sefydliad. Maent yn rhannu cyfrifoldeb sylweddol am gynnwys S4C, ac mae ganddynt ddylanwad dros weithrediad amcanion strategol y sefydliad. Clywsom gan amrywiaeth o bobl, yn gweithio o fewn a thu allan i S4C a oedd yn anhapus am ac yn feirniadol o'r amgylchedd waith a'r awyrgylch yn S4C fel ei fod yn cael effaith negyddol ar y Comisiynwyr a, thrwy hynny, ar allbwn y sefydliad.</p>
<p>Dileu cyfrifoldebau</p>	<p>Mynegodd pum Comisiynydd rwystredigaeth fod penderfyniadau a chyfrifoldebau wedi'u cymryd oddi arnynt a'u canoli yn nwylo Llinos Griffin Williams a oedd, yn eu barn hwy, yn microreoli heb allu gwneud penderfyniadau'n brydlon. Dywedodd y cyfranogwyr hefyd fod llawer o benderfyniadau yn cael eu gwneud gan Llinos Griffin Williams heb eu mewnbwn. Cafodd hyn effaith barlysol ehangach.</p> <p>Roedd enghreifftiau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> — <i>“O'r cychwyn cyntaf, roedd Llinos Griffin Williams yn trafod â chwmnïau cyn sgwrsio â ni fel Comisiynwyr e.e. Dywedodd [golygydd - cynhyrchedd] wrthyf fod Llinos Griffin Williams am benodi rhagor o bobl ar gyfer y tîm comisiynu fel adnodd ychwanegol. Mae'n anghredadwy nad oedd Llinos Griffin Williams wedi trafod hyn â ni.”</i> — <i>“Oedd pob dim yn mynd drwy Llinos, sy'n iawn oherwydd hi ydy'r, mae hi yn ei swydd, ond os wyt ti yn mynd i neud hynna mae'n rhaid i ti fod ar gael. Os wyt ti isio micro manageo hynna mae'n rhaid i ti fod ar gael achos mae pethau jyst yn dod i stop. Pethau bach fel penderfynu timod, pwy sy'n cael ymddangos, neu os baswn yn gofyn cyngor mewn email, ti'n gorfod dod mewn, wedyn timod, pan o'n i wedi seinio off rhaglen, dyma hi yn dod i fewn a newid a deud dwi'n mynnu cael gweld hwn a wedyn yn neud newidiadau, jyst tanseilio yn llygaid golygyddol i...”</i> — Soniodd cyfranogwr am batrwm clir o ddiffyg cyfathrebu mewnol â'r Comisiynwyr a disgrifiodd enghraifft lle'r oedd cynnig ar gyfer cyfres wedi'i rannu â'r sector cynhyrchu annibynnol ond heb ei gyfathrebu â'r cydweithwyr mewnol sy'n gyfrifol am y maes gwaith hwnnw.
<p>Canslo cyfarfodydd un i un yn rheolaidd</p>	<p>Mynegodd tri Chomisiynydd eu rhwystredigaeth bod yna, ar ôl apwyntiad Llinos Griffin Williams, amgylchedd o waith anhrefnus, gyda chyfarfodydd yn cael eu canslo yn gyson. Dywedodd eu bod yn dibynnu ar y cyfarfodydd hyn i rannu syniadau a chadarnhau cynlluniau. Eglurodd y Comisiynwyr fod canslo'r cyfarfodydd o'r fath wedi creu ansefydlogrwydd ac wedi cyfrannu at ddrwgdeimlad rhyngddynt a Llinos Griffin Williams.</p> <p>Enghraifft a roddwyd oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> — <i>“Cyfarfod 1 i 1 yn cael ei ganslo drwy'r amser. Fel arfer byddem yn cael 1 i 1 bob pythefnos gyda'r Pennaeth Cynnwys. Ers i Llinos Griffin Williams ddod mae'r cyfarfodydd hyn yn bethau prin iawn. Mae hyn yn arwain at oedi cyn gallu ateb cwmnïau cynhyrchu sy'n aml yn golygu bod llawer o gwmnïau'n grac ac yn rhwystredig.”</i>
<p>Cyfathrebu gwael</p>	<p>Dywedodd dau Gomisiynydd fod diffyg cyfathrebu ynghylch penderfyniadau pwysig. Darparwyd enghreifftiau penodol, megis galw cyfarfod grwp ar fyr rybudd oedd yn cynnwys y pennaeth AD yn annisgwyl (yn ei hun yn awgrymu cyfarfod drwgargoelus) ond i ddysgu yn ddiweddarach (ar ôl gofyn) ei fod i drafod ailstrwythuro sylweddol o fewn y tîm comisiynu.</p>

Pennod 2 – Y Prif Swyddog Cynnwys

<p>Perthynas y Comisiynwyr â chwmnïau allanol</p>	<p>Clywsom gan 5 o gyfranogwyr o gwmnïau allanol eu bod yn ymwybodol am y chwalfa yn y berthynas rhwng y Prif Swyddog Cynnwys a'r comisiynwyr a bod pryder cynyddol am effaith ei hymagwedd ar yr adran gomisiynu. Arweiniodd hyn at gamweithrediad a cham-gyfathrebu yn y sector wrth i sion gylchredeg am yr hyn yr oedd y Prif Swyddog Cynnwys am ei gomisiynu, gyda'r comisiynwyr yn credu nad oedden nhw'n gwybod beth oedd yn digwydd a bod rhaid iddyn nhw ofyn i gynhyrchwyr annibynnol beth oedden nhw'n ei wybod am yr hyn roedd y Prif Swyddog Cynnwys yn ei wneud.</p>
<p>Ymddygiad y Comisiynwyr tuag at Llinos Griffin Williams</p>	<p>Soniodd gweithwyr presennol a chyn-weithwyr S4C, a rhai tystion allanol, am y chwalfa yn y berthynas rhwng y Comisiynwyr a'r Prif Swyddog Cynnwys yn arwain iddyn nhw fod yn negyddol a gelyniaethus iawn tuag ati.</p>
	<p>Mae tystiolaeth ychwanegol o ymddygiad heriol gan y Prif Swyddog Cynnwys wedi'i chynnwys ym Mhenodau 3 a 4.</p>

Pennod 3 – Yr effaith ar S4C fel sefydliad

<p>Iechyd a lles Trosolwg</p>	<p>Yn ystod y Broses, daeth lles rhai o'r cyfranogwyr yn bryder, oherwydd eu bod yn amlwg yn anghyfforddus a/neu wedi'u cynhyrfu a rhai yn torri lawr yn ystod ein cyfarfodydd â nhw, yn enwedig wrth fanylu ar eu teimladau am yr amgylchedd waith a'r awyrgylch o fewn S4C.</p> <p>Yn ogystal, clywsom am ddigwyddiad difrifol mewn cyfarfod tîm rheoli S4C rhwng 21/2/2023-22/2/2023 lle wnaeth un gweithiwr ddiodeff digwyddiad iechyd sylweddol.</p>
<p>Llesiant cyffredinol y cyfranogwyr</p>	<p>Yn ystod ein cyfarfodydd, torrodd 10 o'r cyfranogwyr i lawr yn crio, yn bennaf wrth drafod eu profiadau yng ngweithle S4C.</p> <p>Adroddodd 11 o gyfranogwyr am yr effeithiau andwyol yr oeddent yn eu hystyried y cafodd yr amgylchedd waith yn S4C ar eu hiechyd.</p> <p>Roedd enghreifftiau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> — <i>“Fe wnes i adael oherwydd doeddwn i ddim yn teimlo am unrhyw reswm fod gen i ddewis ond gadael oherwydd y sefyllfa. Roedd y Prif Weithredwr wedi fy rhoi mewn sefyllfa gas iawn, llawer o staff eraill hefyd, roeddwn yn ymwybodol o hynny. Ond roedd fy ffrindiau a fy nheulu yn poeni llawer am fy iechyd meddwl ar y pryd. Roeddwn i wedi dod yn ddagreuol iawn. Allwn i ddim cysgu. Ac roedd yr awyrgylch yn y gwaith yn ystod y misoedd olaf o gyflogaeth yn S4C yn anodd iawn a doeddwn i ddim yn teimlo bod gen i ddewis ond gadael.”</i> — Disgrifiodd un cyfranogwr sut roedd yr <i>“awyrgylch wedi newid yn llwyr”</i> yn dilyn penodiad y Prif Weithredwr. Roeddent yn teimlo bod y <i>“gofynion gwaith amhosib!”</i> a'r pwysau dilynol wedi cyfrannu at fethu â gweithio oherwydd iselder a phryder.
<p>Diwrnod Ffwrdd y Tîm Rheoli - 22/2/2023</p>	<p>Rhwng 21/2/2023 a 22/2/2023 cyfarfu'r tîm rheoli ar ddiwrnod ffwrdd lle diodeffodd unigolyn cyflogedig ddigwyddiad iechyd sylweddol.</p> <p>Codwyd y digwyddiad hwn gan 18 o gyfranogwyr, roedd 5 ohonynt yn bresennol a 13 wedi clywed amdano ar lafar.</p> <p>Er mwyn diogelu cyfrinachedd yr unigolyn, ac oherwydd eu cyflwr meddygol (er na ofynnodd i aros yn ddiennw), rydym wedi crynhoi'r dystiolaeth yn sylweddol.</p> <p>Disgrifiodd y tyst sgwrs fywiog a oedd yn cynnwys y Prif Weithredwr ac uwch aelodau eraill o staff am lefel y newid yr oedd ei angen yn S4C. Roedd hyn yn cynnwys disodli llawer o staff a ddisgrifiwyd fel rhai <i>“ddim yn werth poeni amdanynt”</i> a bod y Prif Weithredwr wedi awgrymu nad oedd gan lawer o staff S4C y sgiliau na'r wybodaeth i allu cyfiawnhau bod yn eu swyddi ac y gallai golli <i>“o leiaf 50 ohonyn nhw”</i>.</p> <p>Dyweddodd y tyst eu bod yn ofidus am yr hyn oedd yn cael ei awgrymu a heriodd y Prif Weithredwr yn ystod y rhyngweithio hwn. Disgrifiodd sut y credai fod y sefyllfa straeus wedi cyfrannu at y digwyddiad iechyd sylweddol a ddiodeffodd ar y diwrnod hwnnw, ac aed â hwy i'r ysbyty i dderbyn triniaeth.</p> <p>Nid oedd y 4 tyst uniongyrchol arall a oedd yn agos i arweithiaeth y diwrnod ffwrdd, (tri aelod o'r uwch tîm rheoli ac y cyfarwyddwr), yn ystyried y cyfarfod yn anarferol.</p>
<p>Anhrefn, anfodlonrwydd ac anghytundeb</p>	<p>Mynegodd nifer o gyfranogwyr anfodlonrwydd sylweddol â'r amgylchedd waith a'r awyrgylch yn S4C, ac yn aml iawn, roedd eu rhesymau dros deimlo'n anfodlon yn seiliedig ar enghreifftiau o ymddygiad honedig gan Sian Doyle a/neu Llinos Griffin Williams. Fodd bynnag, daeth yn amlwg i ni fod teimladau rhai cyfranogwyr yn seiliedig ar straeon neu gleics gan gydweithwyr ac nad oeddent yn dyst i'r</p>

Pennod 3 – Yr effaith ar S4C fel sefydliad

digwyddiadau hyn eu hunain. Gellir gweld o'r dystiolaeth, felly, fod lledaeniad straeon, yn enwedig am Sian Doyle a Llinos Griffin Williams, yn cyfrannu'n negyddol at yr amgylchedd waith a'r awyrgylch yn S4C gan achosi anhrefn, anfodlonrwydd ac anghytuno.

Tystiolaeth Ail Law

Yn ystod y Broses, gwnaeth 19 o gyfranogwyr sylwadau ar ymddygiad drwg honedig gan Sian Doyle a Llinos Griffin Williams, nid yn seiliedig ar yr hyn a welsant, ond yn hytrach, yn seiliedig ar yr hyn a glywsant yn ail law gan aelodau eraill o staff.

Mae'r dystiolaeth yn cynnwys:

- Y sylw *"shoot one and a thousand will tremble"* gan y Prif Weithredwr.
- Diwrnod Ffwrdd y Tîm Rheoli.
- Sylwadau a wnaed gan Sian Doyle am gyn-aelod o staff i *"gael gwared ag ef"*.
- Microreoli gan Sian Doyle a Llinos Griffin Williams.
- Y cyfarfod staff rhithiol ar 12 Rhagfyr 2022. Disgrifiodd un tyst y cyfnewid rhwng unigolyn a Sian Doyle lle'r oedd hi'n anghwrtais i gydweithiwr a'i cwestiynodd, a chyfeiriwyd y cydweithiwr yn ddiweddarach at AD am wneud hynny.
- Cynhaliwyd digwyddiad ar gyfer staff S4C yn Boom Battle Bar yng Nghaerdydd ar 19 Ebrill 2023, lle'r honnwyd bod Llinos Griffin Williams wedi galw staff S4C yn 'twats' ac wedi chwythu mwg sigarêts i wyneb cydweithiwr.

Anhrefn

Trafododd sawl cyfranogwr y diffyg trefn o fewn S4C, a'r ffordd yr oedd yr anhrefn hwn yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd waith ac awyrgylch. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd i ni gan wahanol gyfranogwyr yn amrywiol ac yn aml heb gysylltiad â'u gilydd, ond roedd yr effaith ar y cyfranogwyr yn debyg a bu iddynt sôn am rwystredigaeth a llai o gynhyrchiant. Dyma ddwy esiampl:

- *"Dw i ar goll a does gen i ddim syniad beth sy'n digwydd o ran beth sy'n cael ei gomisiynu a beth yw'r drafodaeth o gwmpas hynny."*
- *"Y mater mwyaf dwi'n meddwl, eto gyda nhw, yw pwynt a wnes i'n gynharach, ac un o'r pwyntiau roeddwn i am ei drafod oedd yn union faint o gyfarfodydd mae [golygwyd] a [golygwyd] yn eu canslo yn wythnosol. Hynny yw, i roi syniad i chi. Rwyf wedi sbio ar hanes y pedair/pump wythnos diwethaf ac mae 17 cyfarfod wedi cael eu canslo gan [golygwyd] a [golygwyd]. Wythnosol nawr, a dyna 3 ½ cyfarfod yr wythnos wedi cael eu canslo."*

Pennod 4 – Timau Penodol

<p>Cyflwyniad</p>	<p>Cafodd sylwadau negyddol eu gwneud am dri tîm neu adran yn S4C: swyddfa Caernarfon, Timau'r Wasg a Marchnata a'r adran AD. I ryw raddau neu'i gilydd maent i gyd wedi'u heffeithio gan yr anhrefn, yr anfodlonrwydd a'r anghytuno yr adroddwn amdanynt.</p> <p>Rydym wedi adrodd ar effaith y digwyddiadau yn yr Adroddiad hwn ar iechyd a lles llawer yn S4C a, chyda hynny mewn golwg, (ynghyd a'r ffaith y fod unigolion sy'n ymwneud â'r timau hynny yn parhau i fod yn gyflogedig neu yn gydweithwyr), nid ydym wedi darparu dyfyniadau helaeth o'r dystiolaeth amdaynt.</p> <p>Nid oedd y dystiolaeth a dderbyniwyd am y timau yma wedi'i chyfyngu i'r rhai a oedd yn gweithio ynddynt, ond hefyd gan y gweithlu ehangach.</p>
<p>Timau'r Wasg a Marchnata</p>	<p>Cododd y cyfranogwyr faterion am berfformiad y tîm a mynegodd rhai bryderon ynghylch microreoli.</p> <p>Clywsom fod timau'r Wasg a Marchnata wedi gwynebu newidiadau sylweddol drwy gydol 2022 a effeithiodd yn naturiol ar eu hamgylchedd waith ac awyrgylch S4C.</p> <p>Disgrifiodd y cyfranogwyr y llwyth gwaith ychwanegol a brofwyd ar ôl ymadawiad nifer o aelodau'r tîm. Roedd nifer yn anfodlon â'r amser a gymerodd i lenwi swyddi gwag, a arweiniodd at bwysau gwaith dwysach ac a gyfrannodd at deimlad o ddiffyg cyfeiriad, tra dywedodd eraill fod y pwysau ychwanegol yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd.</p> <p>Er gwaethaf yr effaith hyn ar dimau'r wasg a marchnata clywsom fod rhai penodiadau diweddar wedi cael eu gwneud mewn rolau allweddol a dywedwyd bod hyn wedi lleddfu'r pwysau gwaith.</p> <p>I grynhoi, roedd amgylchedd gwaith negyddol ar draws timau'r Wasg a Marchnata wedi'i brofi gan nifer o ymatebwyr gyda diffyg cefnogaeth wedi'i amlygu fel mater cyson. Mae'n amlwg eu bod wedi bod trwy newid sylweddol, a chyfnod heriol sydd angen ailadeiladu ohono.</p>
<p>Swyddfa Caernarfon</p>	<p>Er bod swyddfa S4C yng Nghaernarfon yn weithle i drawstoriad o weithwyr ac aelodau o dimau amrywiol ar draws y sefydliad, roedd cyfraniad yr unigolion sy'n gweithio yno yn drawiadol. Fe wnaeth sawl aelod o staff sydd wedi'u lleoli yng Nghaernarfon rhoi tystiolaeth ac roedd tenor eu cyfraniad bron yn gyson.</p> <p>Roedd teimlad eang bod swyddfa Caernarfon yn weithle anhapus a negyddol, yn teimlo'n ynysig oddi wrth weddill y sefydliad a bod diffyg cefnogaeth i'r rhai sy'n gweithio yno.</p>
<p>Adran Adnoddau Dynol</p>	<p>Clywsom gan lawer o gyfranogwyr eu bod yn anfodlon â'r amgylchedd gwaith a'r awyrgylch o fewn S4C, ond, er hyn, roedd amharodrwydd gan nifer i rannu eu teimladau ac i'w trafod ag adran Adnoddau Dynol S4C. Mynegodd y cyfranogwyr amharodrwydd cyffredinol i rannu pryderon â'r tîm Adnoddau Dynol, yn enwedig os oeddent yn ymwneud â'r uwch reolwyr.</p> <p>Roedd tystiolaeth o ddatgysylltiad rhwng yr Adran AD a'r gweithlu ehangach, gyda rhai yn pryderu bod staff yn gyndyn i ymddiried yn yr adran i weithredu ar bryderon neu gadw materion yn gyfrinachol a bod rhai yn gweld y tîm AD yn rhy agos at y Prif Weithredwr a'r uwch dim rheoli.</p> <p>Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod camddealltwriaeth gan rai o'r tystion ynghylch rôl AD. Er bod adranau AD yn hwyluso cymorth i weithwyr, mae'n rhaid iddynt hefyd weithio'n agos gyda timau rheoli ac uwch unigolion. Ond mae'n rhaid i aelodau sefydliad gredu bod adran AD yn cyflawni'r rolau hynny'n gyfartal ac yn cynnal y cydbwysedd cywir rhyngddynt.</p>

Pennod 5 – Y Cadeirydd

	<p>Cododd rhai unigolion bryderon am Rhodri Williams a honni ei fod wedi dwysau'r pwysau ar rai cyfranogwyr drwy effeithio'n negyddol ar awyrgylch ac amgylchedd gwaith S4C iddynt.</p> <p>Er bod rhai o'r pryderon hyn yn ymwneud â'r Cadeirydd yn bersonol, gellid disgrifio eraill fel rhai a gyfeiriwyd at yr Awdurdod a rhai o'i benderfyniadau'r Awdurdod.</p>
<p>Mae'r mater eisoes wedi'i drin a'i ddatrys</p>	<p>Mynegodd un tyst bryder am ymddygiad Rhodri Williams yn ystod cyfarfod rhwng Aelodau Anweithredol y Bwrdd a'r Tim Rheoli ar 15/6/2023, ar ôl i'r llythyr gan BECTU ac ar ôl i'n ymchwiliad cychwyn, a dystiwyd gan eraill. Mae'r mater hwn yn ymwneud â chwyn a godwyd gan Llinos Griffin Williams ynghylch ymddygiad y Cadeirydd. Roedd hyn yn destun proses ac ymchwiliad ar wahân i'r ymchwiliad canfod ffeithiau hwn, a daeth yr ymchwiliad hwnnw i ben yn fuan ar ôl i'r gwyn gael ei godi.</p>
<p>Materion a godwyd yn ystod y Broses</p>	<p>Fe wnaeth un tyst honni bod y Cadeirydd wedi codi ei lais ar alwad ffôn a hefyd honni ei fod wedi'i "geryddu" dro ar ôl tro am beidio â gwneud cynnydd wrth symud aelod o staff.</p> <p>Dyweddodd tyst arall fod y Cadeirydd yn gwybod am y materion yn y gweithle yn S4C cyn i lythyr BECTU ddod i law ac felly wedi bod yn gamarweiniol mewn cyfweiliad cyfryngau ym mis Mai. Adroddwyd yn eang ar y cyfweiliad hwn ac mae hon yn farn ynysig.</p>
<p>Materion a godwyd mewn perthynas â'r Broses</p>	<p>Tra bo rhai o'r pryderon hyn a nodir yn yr adran hon yn ymwneud â'r Cadeirydd yn bersonol, gellid disgrifio eraill fel rhai a gyfeiriwyd at yr Awdurdod a rhai o'i benderfyniadau'r Awdurdod.</p> <p>Dyweddodd un cyfranogwr nad eu bod yn hoffi'r Cadeirydd yn delio â'r cyfryngau am yr ymchwiliad cyn neu ar yr un pryd ag yr oedd staff yn darganfod beth oedd yn digwydd. Dywedasant:</p> <ul style="list-style-type: none"> — <i>'Roedd penderfyniad mewnol y cadeirydd i nodweddu natur cwynion llythyr BECTU fel un nad oedd yn gyfforddus i'w ddarllen, os yn wir yn peri gofid i ni, ac nid y math o bethau yr hoffai unrhyw un sy'n gyfrifol am unrhyw fath o gorff eu darllen, yn annoeth, ac ni fyddai unrhyw gorff arbenigol yn cynghori gwneud datganiadau o'r fath yn gyhoeddus mewn amgylchiadau o'r fath.'</i> <p>Roedd hwn yn deimlad a adleisiwyd gan 5 tyst a deimlai y dylai llythyr BECTU fod wedi cael ei drin yn fwy gofalus. Dywedodd un:</p> <ul style="list-style-type: none"> — <i>"Dyna'r ffordd mae'r llythyr gan yr undeb. newydd ffrwydro yn y newyddion ac ati. Dydw i ddim yn aelod o'r undeb felly doeddwn i ddim yn gwybod dim amdano. Daeth fel sioc i mi. Wydden ni ddim...daeth e-bost ar ôl oriau gwaith oddi wrth y Cadeirydd; Rwy'n credu. Fe'i gwelais ond roedd llawer o'r swyddfa nad oedd wedi ei weld, newydd weld y stori ar y newyddion."</i> <p>Parhaodd y thema hon â phedwar tyst yn siarad mewn rhyw ffordd neu'i gilydd am y ffordd yr oedd y cadeirydd wedi bod yn gyfrifol am gyfathrebu drwy gydol y cyfnod hwn a'r hyn a ddywedodd. Roedd un yn credu ei fod yn briffio'r cyfryngau y tu ôl i'r llenni a bod hyn wedi gwaethygu'r sefyllfa. Dywedodd un:</p> <ul style="list-style-type: none"> — <i>"Mae'r cadeirydd wedi mynd allan dro ar ôl tro a briffio'r wasg heb roi gwybod i ni ac rydym wedi gorfod darllen yn y wasg yr hyn a ddywedodd am hyn. ... er bod gennym arbenigwr cyfathrebiadau, fe wnaethom ofyn am ddod â chyfathrebiadau argyfwng i mewn, fe'i rhoddodd ei hun yn gyfrifol am yr holl gyfathrebu. Sydd eto'n rhywbeth nad ydw i erioed wedi'i brofi mewn unrhyw sefydliad arall."</i> <p>Teimlai dau dyst na roddwyd digon o sylw i effaith yr ymchwiliad ar eu hiechyd, a dywedodd un ohonynt y tynnwyd hyn yn uniongyrchol at sylw'r bwrdd. Roeddent hefyd yn teimlo'n ddifffurddu'r cymorth cyfreithiol yn ystod y broses.</p>

Appendix 1 – Cylch Gorchwyl

Cylch Gorchwyl am Broses Canfod Ffeithiau gan Capital Law am yr amgylchedd gwaith a'r awyrgylch y tu mewn i S4C

1. Swyddog Comisiynu

- i. Rhodri Williams yw Comisiynydd y broses hon a phrif gyswllt i'r Arweinydd bydd Geraint Pugh, Ysgrifennydd Bwrdd S4C.
- ii. Mae'r Comisiynydd wedi apwyntio [redacted], Partner o Capital Law, sy'n hollol allanol ac annibynnol i S4C, ac wedi cytuno'r Cylch Gorchwyl yma.

2. Arweinydd y Broses

- i. i. Bydd [redacted] yn arwain y broses (yr Arweinydd). Bydd [redacted], Cyfreithiwr o Capital Law, yn cefnogi'r Arweinydd trwy'r broses a bydd unigolyn hefyd yn mynychu pob cyfarfod i gymrydnodiadau.
- ii. ii. Gall [redacted] a [redacted] cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol am y materion i'w hymchwilio ac nad oes unrhyw wrthdaro buddiannol hysbys.
- iii. iii. Prif rôl yr Arweinydd yw cwrdd ag unrhyw aelod o staff (gan gynnwys cyn-aelodau staff neu unigolion sydd wedi gweithio gyda S4C yn flaenorol) sydd am gyfrannu i'r broses a rhannu eu sylwadau am yr amgylchedd gwaith a'r awyrgylch y tu mewn i S4C ac wedyn i gyflwyno ei ganfyddiadau i Aelodau Anweithredol Bwrdd S4C. Bydd yr Arweinydd yn aros yn hollol wrthrychol trwy gydol y broses.

3. Y Broses

- i. Bydd yr Arweinydd yn creu cyfeiriad e-bost (S4C@capitallaw.co.uk) er mwyn i staff S4C medru cysylltu er mwyn trefnu apwyntiad i'w cyfarfod. Bydd S4C yn cyfeirio unrhyw aelod o staff sydd am gyfrannu i'r broses i gysylltu gyda'r Arweinydd yn y modd hwnnw.
- ii. Bydd S4C yn darparu rhestr o'i aelodau staff i'r Arweinydd er mwyn iddo fedru gwirio os yw unigolyn yn gymwys i gyfrannu i'r broses, sef yn aelod presennol o staff, cyn-aelod o staff neu unigolion sydd wedi gweithio gyda S4C yn flaenorol. Tra nad oes cyfyngiad ar y dyddiad pryd wnaeth cyn-aelod o staff adael cyflogaeth S4C, mae'r Comisiynydd yn gofyn i'r Arweinydd i ystyried perthnasedd sylwadau gan unigolyn i'r hyn sydd yn honni i fod yn digwydd ar hyn o bryd ac yn ddiweddar y tu mewn i S4C. Er mwyn gwirio cyn-aelod o staff neu unigolyn sydd wedi gweithio i S4C yn flaenorol, ar ôl i'r dyddiad cau i unigolion trefnu apwyntiadau (gweler cymal 3iii. isod), bydd yr Arweinydd yn gofyn i'r Comisiynydd i ddarparu rhestr o staff dros y cyfnod yn dechrau gyda'r mis cynharach gwnaeth unigolyn gadael/gweithio gyda S4C hyd at ddyddiad cau.
- iii. Bydd aelodau staff yn medru cysylltu gyda'r Arweinydd hyd at 19 Mai 2023, yn y man cyntaf, er mwyn trefnu apwyntiad.
- iv. Cyn cychwyn cyfarfodydd gyda staff, er mwyn
 - a. Carwyn Donovan, Undeb BECTU, a
 - b. Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol S4C.
- v. Yn ychwanegol i unrhyw ddogfennau perthnasol mae'r Comisiynydd yn datgelu i'r Arweinydd, bydd y Comisiynydd yn datgelu unrhyw ddogfennau arall mae'r Arweinydd yn credu sy'n berthnasol iddo ystyried yn ystod y broses.
- vi. Bydd yr Arweinydd yn trefnu cyfarfodydd gydag unrhyw aelod o staff cymwys cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu trefnu naill ai mewn person, dros Teams/Zoom neu dros y ffôn, pa un bynnag yw'r gorau gan bob unigolyn. Mae'r Comisiynydd yn rhagweld bydd rhai aelodau staff am gyfrannu i'r broses ond ni fyddent am gyfarfod gyda'r Arweinydd. Yn yr achos

Appendix 1 – Cylch Gorchwyl

hwnnw bydd yr Arweinydd yn derbyn sylwadau/gyfraniadau yn ysgrifenedig o'r unigolion. Gall unigolion mynychu'r cyfarfodydd gyda'r Arweinydd yng nghwmni naill ai cydweithiwr neu gynrychiolydd undeb.

- vii. Mae'r Comisiynydd a'r Arweinydd yn cydnabod ni allent roi amserlen ar bryd bydd y cyfarfodydd gyda staff yn gorffen oherwydd mae hynny'n dibynnu yn hollol ar sawl unigolyn sydd yn cyfrannu i'r broses.
- viii. Mae'r Comisiynydd a'r Arweinydd yn cydnabod y gallai mwy o aelodau staff ddod ymlaen yn hwyrach na'r 19 o Fai 2023 yn dymuno cyfrannu i'r broses. Bydd yr Arweinydd yn hysbysu'r Comisiynydd os yw hynny'n digwydd (heb enwi'r unigolion) a bydd y Comisiynydd yn cadarnhau os yw'n barod i'r Arweinydd trefnu mwy o gyfarfodydd.
- ix. Yn ystod y broses, os yw'r Arweinydd yn ystyried y byddai yn fuddiol iddo gwrdd ag unrhyw aelod o staff sydd heb ddod ymlaen yn barod, bydd y Comisiynydd yn cytuno i helpu trefnu cyfarfodydd gyda'r aelodau staff perthnasol gan gydnabod ni all y Comisiynydd na'r Arweinydd gorfodi unrhyw un i gwrdd â'r Arweinydd neu i gyfrannu i'r broses.
- x. Bydd yr Arweinydd yn gofyn i'r unigolion sy'n cyfrannu i'r broses os ydynt yn dymuno cael eu henwi yn yr adroddiad neu aros yn ddiennw. Heb ganiatâd yr unigolyn, ni fydd yr Arweinydd yn datgelu i S4C pwy sydd wedi dod ymlaen i gyfrannu i'r broses, boed hynny trwy gyfarfod neu yn ysgrifenedig.
- xi. Ar ôl cwrdd â'r aelodau staff, bydd yr Arweinydd yn paratoi adroddiad yn gosod allan y ffeithiau a'r dystiolaeth a gafwyd trwy gydol y broses. Bydd yr Arweinydd ond i anfon yr adroddiad llawn i'r Comisiynydd a Geraint Pugh. Bydd yr Arweinydd hefyd yn paratoi crynodeb o'i ganfyddiadau fel gall hwn cael ei rannu gydag aelodau anweithredol y Bwrdd. Bydd yr Arweinydd hefyd yn paratoi crynodeb lefel uchel o'i ganfyddiadau gan ddeall gall y crynodeb yma gael ei wneud yn gyhoeddus. Mae'r Arweinydd yn deall nad yw ei adroddiad llawn i'w rannu gydag unrhyw aelodau anweithredol arall o'r Bwrdd, heblaw'r Comisiynydd oherwydd efallai y bydd rhaid iddynt gymryd rhan mewn prosesau mewnol yn dilyn y broses yma, os yw'n briodol.
- xii. Nid yw'r Arweinydd i ddod i benderfyniadau ar unrhyw honiadau sydd yn codi trwy'r broses, ond i datgan y ffeithiau a'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r broses.

4. Amserlen

- i. Bydd yr Arweinydd yn dechrau'r broses mor fuan ag sy'n bosib ond ni fydd terfyn amser ar y broses er mwyn sicrhau nad oes cyfyngiad ar y nifer o aelodau staff sy'n gallu cyfrannu. Bydd yr Arweinydd yn bwriadu cyflwyno ei adroddiad mor fuan ag sy'n bosib ar ôl cyfweld a'r aelodau staff ond bydd y cyfnod hwnnw yn dibynnu ar y nifer o staff a ddaw ymlaen.

Carwyn Donovan

Bectu

20 Rhagfyr 2023

Sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gydag aelodau Awdurdod S4C

Annwyl Carwyn,

Ysgrifennaf atoch cyn sesiwn dystiolaeth wedi'i haidrefnu'r Pwyllgor gydag aelodau Awdurdod S4C ar 11 Ionawr 2024. Mae hyn yn dilyn cyhoeddiad gan Awdurdod S4C o adroddiad Capital Law i amgylchedd gwaith ac awyrgylch y darlledwr.

Cyn y sesiwn dystiolaeth, rwyf am roi cyfle ichi gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar faterion y bydd Bectu efallai am eu codi gyda'r Aelodau. Gall materion o'r fath gynnwys y camau nesaf yr hoffech i weld S4C yn eu cymryd, sylwadau am y broses a arweiniodd at gyhoeddi'r adroddiad, a safbwyntiau ar y trefniadau llywodraethu presennol a'r trefniadau mewnlol ar gyfer datrys pryderon Adnoddau Dynol.

Hoffwn bwysleisio na fydd Aelodau yn gallu trafod, na chodi, unrhyw faterion, pryderon neu honiadau sy'n ymwneud ag unigolion lle mae'n bosibl y bydd achosion cyfreithiol eisoes wedi dechrau, neu gellir ei dechrau yn y dyfodol. Deallaf os nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu cyflwyno unrhyw sylwadau ar yr uchod, ond rwyf am sicrhau bod gennych y cyfle i wneud hynny.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig **erbyn 5 Ionawr 2024 fan bellaf**. Ni ddylai'r hyn a gyflwynir fod yn hwy na phedair ochr A4. Oni bai bod rheswm dros beidio, bydd y dystiolaeth a ddarperir ar gael i'r cyhoedd.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,



Delyth Jewell

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

5 January 2024

Dear Delyth,

Committee evidence session with S4C Authority members

Thank you for your letter 20 December 2023 regarding the rescheduled evidence session with members of the S4C Authority following its publication of the Capital Law report into the working environment at the channel. I am grateful your committee is taking the opportunity to consult Bectu on this important matter.

For the purposes of this evidence, I understand S4C's Authority to mean the non-executive members of its Board.

All workers have the right to be treated with dignity and respect, in a working environment free from discrimination and harassment. Through our representation of members who have experienced harassment at work, to our use of collective bargaining to influence and shape better workplace policies and cultures, Bectu is committed to protecting members from harassment at work.

As Senedd Members will be aware, Bectu wrote to S4C's Authority in April 2023 outlining our concerns about the work environment at the channel. Bectu was reassured by the swift action the S4C Authority took to establish an independent investigation following our letter.

Since the publication of the Capital Law report, Bectu has also been reassured by the inclination of the S4C Authority to work with the Union to ensure the channel provides a safe and happy workplace and ensure that such a situation does not occur again. Bectu has been clear that regardless of other action taken, a plan of restorative and repair action is required to achieve that. We welcome S4C's response to that request and Bectu is committed to working with S4C's Authority to that effect.

Such restorative actions should include:

- Training for all S4C's workforce on what positive workplace culture looks like. This should include a paid induction for any freelancers working for the channel.
- Training for all S4C managers on how to foster and maintain a positive workplace culture.
- A review of several of the organisation's policies to be undertaken in consultation with the Union.
- Quarterly union liaison meetings with S4C's executive board members.
- Annual union liaison meetings with S4C's Authority.
- Bectu are long-standing advocates of the need for an Independent Standards Authority for the creative industries. The power imbalances in the sector are particularly extreme and we

BECTU
1 Cathedral Road/1 Heol y Gadeirlan
CARDIFF/CAERDYDD
CF11 9SD

029 2066 6557
cdonovan@bectu.org.uk
rhaywood-powell@bectu.org.uk
bectu.org.uk

welcome the recent development of the Creative Industries Independent Standards Authority (CIISA). CIISA is being developed to uphold and improve standards of behaviour across the sector and to prevent and tackle all forms of bullying and harassment. Bectu understands that S4C is supportive of this initiative, we welcome that and look forward to the channel becoming a formal signatory to CIISA.

As the collective voice of S4C's workforce, Bectu is integral to bringing about the changes necessary to the organisation. We are committed to playing our part in delivering a first-class workplace for those dedicated individuals who deliver Welsh language television to the world.

Yours sincerely,



Carwyn Donovan
Negotiations Officer - Wales



Adolygiad Buddsoddi 2023

Gwneud Apêl



Cynnwys

1. Diben y ddogfen hon.....	3
2. Penderfynu a oes gennych sail i'ch apêl.....	3
3. Sut i apelio.....	5
4. Beth sy'n digwydd ar ôl ichi wneud apêl?	6
5. Ystyriaeth lawn i'ch apêl.....	7
6. Gwrandawriad yr apêl.....	8
7. Y broses ar ôl y gwrandawriad	10
Adolygiad Buddsoddi 2023 – amserlen apelio	11

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain, ffurf Easy Read ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.



1. Diben y ddogfen hon

- 1.1 Yn ystod 2023 byddwn yn cynnal ein proses Adolygu Buddsoddiad. Mae'n debyg y bydd rhagor o newidiadau yn lefelau'r arian a gynigiwn. Fydd ddim pob sefydliad yn llwyddiannus ac mae'n bosibl y caiff sefydliadau leihad yn y lefelau arian o'i gymharu â'r hyn a gawsant gynt neu ddiddymiad o'r arian hwnnw.
- 1.2 Yn y ddogfen hon esboniwn yr hawl i apelio a'r weithdrefn gysylltiedig a fydd ar gael i unrhyw sefydliad sy'n anfodlon ar ein penderfyniad ariannu. Mae'r weithdrefn apelio yn gymwys i Adolygiad Buddsoddi 2023 yn unig. Os oes gennych gwynion am unrhyw fater arall, dilynwch y gweithdrefnau safonol a ddisgrifir yn ein Gweithdrefn Gwyno. [Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan.](#)
- 1.3 Pan fo'r ddogfennaeth yma'n cyfeirio at deitlau swyddi penodol, gall y rhain newid yn achos absenoldeb neu diffyg argaeledd neu os yw teitl y swydd wedi'i newid. Ni fydd camau'r broses yn newid.

2. Penderfynu a oes gennych sail i'ch apêl

- 2.1 Gwyddom nad pleser o'r mwyaf yw gorfod cyflwyno apêl. Felly ymdrechwn ymdrech deg i gyrraedd penderfyniadau sy'n glir, yn deg ac yn gyson â'n polisiau a'n blaenoriaethau datganedig. Serch hynny, os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y cyraeddasom ein penderfyniad ac am wneud apêl, mae'n bwysig eich bod yn glir am sail eich apêl.
- 2.2 Un o gyfrifoldebau pwysicaf Cyngor Celfyddydau Cymru yw gwneud penderfyniadau strategol am ddyrannu arian y cyhoedd.

Rydym eisiau buddsoddi mewn sefydliadau llwyddiannus iawn a all gael effaith arwyddocaol ar fywyd diwylliannol Cymru gyfan. Dibynna'r graddau y gallwn gyflawni'r nod hwn ar yr arian sydd ar gael a'r penderfyniadau strategol a wnawn. Pan fo'r galw am arian yn uwch na'r arian sydd ar gael inni, ac er mwyn cyflawni ein huchelgais ar gyfer celfyddydau Cymru, yn aml wynebwn ddewisiadau anodd a heriol. Gan ddefnyddio ein barn broffesiynol mae'n bosibl y cyrhaeddwn benderfyniadau sy'n amhoblogaidd neu rai na chânt groeso gan sefydliad. Yn ôl ein Gweithdrefn Apelio, nid yw hyn ynddo ei hun yn sail ddigonol am apêl.

- 2.3 Os ystyriwch wneud apêl, dylech ystyried yn ofalus yr hyn a geisiwn ei gyflawni drwy ein Hadolygiad Buddsoddi. Disgrifir rhesymeg yr Adolygiad Buddsoddi yn ei Gylch Gorchwyl (noder – mae'r rhain yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd) yn dilyn ymgynghoriad a chadarnhau'r fersiwn derfynol (sydd ar gael ar ein gwefan) gan y Cyngor.
- 2.4 Gwyddom mai un o'r canlyniadau posibl i'r Adolygiad Buddsoddi yw tynnu/lleihau arian sefydliad a ariannwyd gennym gynt. Golyga hyn, felly, na ellwch apelio yn erbyn tynnu/lleihau grant ar y sail – ac ar y sail honno'n unig – fod y Cyngor wedi penderfynu ymgymryd ag Adolygiad Buddsoddi.
- 2.5 Disgrifir sail ein hasesiad a'n penderfyniadau yng Nghylch Gorchwyl yr Adolygiad Buddsoddi.
- 2.6 Wrth wraidd ein hasesiad a'n proses benderfynu fydd y cais a luniasoch gydag unrhyw wybodaeth arall a fanylasom arni'n rhan o'r broses ymgeisio. Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau y derbynnir eich cais, yn llawn, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Ni dderbyniwn geisiadau hwyr neu unrhyw ddeunyddiau ychwanegol yr hoffech eu cyflenwi'n rhan o'ch cais os deuent yn hwyrach na'r dyddiad cau. Gellwch ddim ond apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru o ran y cyflwyniad hwnnw a wnaethoch yn rhan o broses yr Adolygiad Buddsoddi.
- 2.7 Gellwch ddim ond apelio os oes gennych dystiolaeth benodol sy'n arddangos un neu ragor o'r canlynol:
- ni ddilynasom y gweithdrefnau cyhoeddedig am asesu eich cais;
 - camddeallasom ran arwyddocaol o'ch cais;
 - ni chymerasom sylw o wybodaeth berthnasol, hynny yw, y wybodaeth a gymerasom i ystyriaeth fel y diffinnir yn nogfen y **Cylch Gorchwyl**.
- 2.8 Os ystyrir eich apêl yn gymwys i gael gwrandawriad (gweler adran 4 isod), â ymlaen at y Panel Apêl ("y Panel"). Nid yw'r Panel yn driwiwlys cyfreithiol a gweithreda ar sail synnwyr cyffredin a thegwch.
- 2.9 Cyfrifoldeb aelodau o'r Cyngor yw pob penderfyniad o ran ariannu. Ymgynghorol felly yw penderfyniadau'r Panel a byddant ar ffurf argymhellion i'r Cyngor.
- 2.10 Nid oes hawl i apelio yn erbyn y swm a ddyfarnwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru heblaw bod un o'r seiliau apelio a nodwyd yn 2.7 yn gymwys.
- 2.11 Nid oes hawl apelio yn erbyn penderfyniad o ran sefydliad arall.

3. Sut i apelio

- 3.1 Bydd yn rhaid gwneud unrhyw apêl ar y Ffurflen Apelio (Atodiad 1). Gellwch gael copi o'n gwefan. Ni dderbynnir unrhyw ddull arall o apelio.
- 3.2 Bydd yn rhaid ichi lenwi'r Ffurflen Apelio drwyddi draw, gan nodi rhesymau manwl am sail yr apêl fel y disgrifir ym mharagraff 2.7. Er enghraifft, ni fydd yn ddigonol i honni'n syml mai anghywir yw penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru. Bydd yn rhaid ichi hefyd ddweud ym mha ffordd y mae'r penderfyniad yn anghywir a'r sail ar gyfer yr honiad hwnnw. Gellid barnu bod apêl na rydd resymau digonol yn anghymwys (gweler adran 4 isod).
- 3.3 Bydd yn rhaid nodi'n glir a diamwys unrhyw ddetholiad o'r cais yn y Ffurflen Apelio. Nid ystyrir unrhyw wybodaeth ddiwygiedig neu ychwanegol; bydd yn rhaid i'r apêl fod yn berthnasol i'r wybodaeth a ddarparasoch yn rhan o'ch cais neu'r wybodaeth berthnasol, ychwanegol fel y diffinnir yn nogfen y **Cylch Gorchwyl**, sydd gennym ac sydd wedi, neu y dylai fod wedi, ei hystyried yn ystod broses asesu a phenderfynu Cyngor Celfyddydau Cymru.
- 3.4 Bydd yn rhaid i'r Ffurflen Apelio gael ei llofnodi gan uwch gynrychiolydd o staff eich sefydliad a Chadeirydd eich Bwrdd (neu uwch aelod o'r corff rheoli sy'n goruchwyllo eich gwaith).
- 3.5 Bydd yn rhaid inni dderbyn apeliadau erbyn 4pm a hynny 21 o ddiwrnodau calendr ar ôl y llythyr sy'n hysbysu'r penderfyniad a apelir.

Dylai apeliadau fod ar ffurf electroneg a dylid eu hanfon i'r cyfeiriad e-bost canlynol: apeliadau@celf.cymru

Serch hynny, os na ellwch am amryw resymau gyflwyno eich apêl yn drydanol, anfonwch gopi caled mewn amlen wedi'i chyfeirio at:

Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd CF10 5AL
- 3.6 Ni dderbynnir apeliadau hwyr.

4. Beth sy'n digwydd ar ôl ichi wneud apêl?

Y cam cyntaf yn y broses yw'r **Ystyriaeth Gychwynnol**. Ymgymerir â'r cam hwn gan rywun annibynnol ac allanol, ("yr Adolygydd"). Defnyddiwn adolygydd cwynion annibynnol i ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Ei nod fydd penderfynu a yw'ch apêl yn gymwys am wrandawriad gan y Panel Apelio ar un neu ragor o'r seiliau a amlinellir ym mharagraff 2.7 uchod. Diben hyn yw osgoi gwastraffu adnoddau gan eich sefydliad a Chyngor Celfyddydau Cymru os penderfyna'r Adolygydd na fydda'n bosibl i'r apêl lwyddo.

4.1 Ystyria'r Adolygydd yr apêl er mwyn penderfynu ar dri mater o egwyddor. Dyma hwy:

- **a wnaed eich apêl yn gywir** – sef bod y ffurflen wedi'i llenwi'n iawn a'i llofnodi ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol;
- **a yw'ch apêl yn brydlon** – sef i'ch apêl ein cyrraedd erbyn 4pm a hynny 21 o ddiwrnodau calendr ar ôl y llythyr sy'n hysbysu'r penderfyniad a apelir;
- **a yw'ch apêl yn seiliedig ar gamdybiaeth** – sef naill ai na seilir eich apêl ar un neu ragor o'r seiliau apelio a nodir ym mharagraff 2.7 uchod, neu fod sail eich apêl yn hollol annigonol.

4.2 Bydd yr Adolygydd yn penderfynu, seiliedig ar yr uchod, a ddylid derbyn neu wrthod eich apêl. Os penderfyna'r Adolygydd na wnaed eich apêl yn gywir, a/neu ei fod yn rhy hwyr, a/neu y seilir hi ar gamdybiaeth, gwrthodir yr apêl a bydd pwyntiau 4.3-4.7 yn gymwys.

4.3 Mae penderfyniad yr Adolygydd yn derfynol. Nid oes hawl apelio pellach yn erbyn y penderfyniad hwn.

4.3 Mae penderfyniad yr Adolygydd yn derfynol. Nid oes hawl bellach i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Rhydd yr Adolygydd wybod ichi ac i Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes Cyngor Celfyddydau Cymru am ei benderfyniad. Gwneir hyn mewn 16 o ddiwrnodau calendr o ddyddiad cau cyflwyno'r apêl. Cynnwys y llythyr grynodedb o resymau gwrthod yr apêl a rydd wybod ichi am eich hawl i fynd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (gweler paragraff 7.6).

4.4 Edrydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes am y penderfyniad wrth Brif Weithredwr ac aelodau o Gyngor Cyngor Celfyddydau Cymru.

- 4.5 Ni chaiff yr Adolygydd gysylltu â chi o gwbl ar yr adeg hon a bydd yn rhaid iddo ymgymryd ag Ystyriaeth Gychwynnol ar sail y wybodaeth sydd yn yr apêl a'r wybodaeth honno'n unig. Felly mae er eich budd chi i sicrhau bod pob gwybodaeth berthnasol yr hoffech gael ei hystyried yn nogfennaeth gyffredinol yr apêl.
- 4.6 Arfer yr Adolygydd ei grymoedd yn rhesymol a chyda chyffyrddiad ysgafn. Os oes ganddo unrhyw amheuaeth ynghylch gwrthod neu dderbyn eich apêl ar yr adeg hon, caiff eich apêl ei derbyn ac â ymlaen at gam y gwrandawriad.

5. Ystyriaeth lawn i'ch apêl

- 5.1 Os na wrthodir eich apêl yn ystod yr Ystyriaeth Gychwynnol, rhydd y Panel Apeliadau ystyriaeth lawn iddi.
- 5.2 **Cyfansoddiad y Panel Apelio:** Cynnwys y Panel Apeliadau dri aelod allanol, annibynnol a dynodir un ohonynt yn Gadeirydd. Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes Cyngor Celfyddydau Cymru fydd cynullydd y Panel Apeliadau ond ni chwery ran yn y broses o gyrraedd penderfyniad am eich apêl.
- 5.3 Mewn 6 diwrnod calendr o gael y llythyr am benderfyniad yr Adolygydd oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, rhydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes wybod i Brif Weithredwr ac aelodau o Gyngor Cyngor Celfyddydau Cymru a Chadeirydd y Panel Apelio y caiff yr apêl ei hystyried yn llawn.
- 5.4 Gall Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru roi cyflwyniad ysgrifenedig i'r Panel Apelio os gwêl yn dda. Gorffenna'r Prif Weithredwr ei gyflwyniad mewn 21 o ddiwrnodiau calendr o gael gwybod am benderfyniad yr Adolygydd ac anfonir copi ohono at y sefydliad sy'n apelio.
- 5.5 Cysyllta Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes Cyngor Celfyddydau Cymru ar adeg cael yr apêl â phob aelod o'r Panel Apelio i bennu dyddiad, amser a lle cyfleus am y gwrandawriad. Ysgrifenna atoch ac at Brif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru. Rhydd wybod iddynt fod yr apêl i'w hystyried gan y Panel Apelio a nodi'r dyddiad, amser a lle am y gwrandawriad.

- 5.6 Bydd gan Gadeirydd y Panel Apelio y grym i newid dyddiad, amser neu le'r gwrandawriad am reswm da ar unrhyw adeg ar gais. Bydd yn rhaid i ddyddiad gwrandawriad yr apêl fod erbyn 28 o ddiwrnodiau calendr o dderbyn gan Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes benderfyniad yr Adolygydd am yr apêl. Os yw'r partion yn cytuno fel arall, neu os yw'n hollol anymarferol i gynnal y gwrandawriad yn y cyfnod hwnnw, bydd yn rhaid ei gynnal ar yr adeg fwyaf buan wedyn sy'n ymarferol.
- 5.7 Anfonir copïau llawnion o'r Ffurflen Apelio ac unrhyw ymateb i Gyngor Celfyddydau Cymru o leiaf 7 diwrnod calendr cyn dyddiad y gwrandawriad at yr aelodau o'r Panel Apelio a ystyria'r apêl.

6. Gwrandawriad yr apêl

- 6.1 Nod y gwrandawriad yw gadael i bob aelod o'r Panel gael dealltwriaeth lawn o resymau Cyngor Celfyddydau Cymru am ei benderfyniad a'r rhesymau dros eich apêl chi er mwyn gallu penderfynu'n deg ar yr apêl.
- 6.2 Cworwm y Panel Apelio yw tri aelod annibynnol lle dynodir un ohonynt yn Gadeirydd.
- 6.3 Ni all unrhyw aelod o'r panel wrando ar apêl os oes ganddo unrhyw ymwneud sylweddol â'r penderfyniad a apelir neu os oes ganddo neu gan ei deulu unrhyw fudd yn eich sefydliad.
- 6.4 Cyn y gwrandawriad gall y Panel Apelio, yn ei ddoethineb, ymgyswrtu i ystyried y materion a godir gan yr apêl a phroses y gwrandawriad.
- 6.5 Ystyria'r Panel Apelio y materion a godir gan y partion yn yr apêl ac yn ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru a rheiny'n unig. Ni ellir ymdrin ag unrhyw faterion eraill gan y Panel Apelio yn y gwrandawriad.
- 6.6 Bydd gennych chi a chan Gyngor Celfyddydau Cymru yr hawl i ymddangos yn y gwrandawriad a chael eich clywed. Gall yr un o'r ddau barti ddewis peidio ag ymddangos a gofyn i'r apêl gael ei phenderfynu ar sail y sylwadau ysgrifenedig yn unig. Bydd yn bosibl y cynrychiolir chi a Chyngor Celfyddydau Cymru gan hyd at ddau o bobl o'u dewis yn y gwrandawriad, heb gynnwys unrhyw rai sydd yno at ddiben darparu cefnogaeth gyfathrebu'n unig i unrhyw barti (e.e. cyfieithwyr Arwydddeg).
- 6.7 Cynhelir y gwrandawriad yn breifat ac yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis yr apelydd.

- 6.8 Dylai proses y gwrandawriad fod mor anffurfiol â phosibl a fyddai'n gyson â'r amcanion a nodir ym mharagraff 6.1 uchod a'r angen am wrandawriad teg i bawb perthnasol. Yn ddarostyngedig i'r hyn a ddilyn, y Cadeirydd yn unig fydd yn gyfrifol am benderfynu ar yr union broses i'w dilyn yn y gwrandawriad a sut y cynhelir yr apêl yn gyffredinol. Bydd y broses a fabwysiedir yn y gwrandawriad yn cynnwys yr elfennau canlynol:
- 6.8.1 Esbonia cynrychiolydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn fyr wrth y Panel Apelio y penderfyniad a apelir, y rhesymau am y penderfyniad, ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru i'r apêl a'r ymateb i unrhyw faterion a godir gennych cyn ac yn ystod y gwrandawriad. Gall y cynrychiolydd gyfeirio at unrhyw dystiolaeth ddogfennol berthnasol i gyfiawnhau penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru cyn belled bod y deunydd wedi'i gopïo gynt i chi a'r Panel Apelio.
 - 6.8.2 Gwahoddir eich cynrychiolydd i esbonio'n fyr wrth y Panel Apelio y rhesymau am yr apêl a pham eich bod yn anfodlon ar y penderfyniad. Gellwch gyfeirio at unrhyw dystiolaeth ddogfennol berthnasol i gyfiawnhau eich apêl cyn belled â'ch bod wedi copïo'r deunydd a'i anfon at y Panel Apelio a'i fod yn rhan o'ch cais gwreiddiol i Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru. Cewch gyfle i wneud sylwadau ar bob mater a godir gan Gyngor Celfyddydau Cymru cyn ac yn ystod y gwrandawriad.
 - 6.8.3 Gall yr aelodau o'r Panel Apelio ofyn cwestiynau i unrhyw un sydd yn y gwrandawriad y cred ei bod yn berthnasol i'r apêl.
 - 6.8.4 Ar ddiwedd y gwrandawriad, rhoddir y cyfle i'r ddau barti grynhoi'n fyr eu safbwynt a gwneud unrhyw sylwadau terfynol yr hoffent eu cyflwyno sy'n berthnasol i unrhyw fater a godir yn y gwrandawriad gan y parti arall a'r Panel Apelio.
- 6.9 Os methwch chi neu'ch cynrychiolydd ag ymddangos yn y gwrandawriad, gallai'r Panel Apelio yn ei ddoethineb ac ar ôl ymfodloni i'r rhybudd priodol gael ei roi am y dyddiad, amser a lle, wrando ar yr apêl yn eich absenoldeb, neu wrthod yr apêl heb ei gwrandawrio.
- 6.10 Mae'r baich profi ar y sefydliad sy'n apelio. Mewn geiriau eraill, bydd yn rhaid ichi brofi hyd fodlonrwydd y Panel Apelio fod sail i'ch apêl yn erbyn penderfyniad ariannu Cyngor Celfyddydau Cymru.

7. Y broses ar ôl y gwrandawriad

- 7.1 **Grymoedd y Panel Apelio.** Yn sgil y gwrandawriad, yn absenoldeb cynrychiolwyr y partïon, ystyria'r Panel Apelio ei benderfyniad. Mae gan bob aelod o'r Panel bleidlais gan gynnwys y Cadeirydd. Mae tri phenderfyniad posibl gerbron y Panel Apelio:
- caniatáu'r apêl
 - parhau â'r gwrandawriad ar ddyddiad yn y dyfodol
 - gwrthod yr apêl
- 7.2 **Amser am roi'r penderfyniad.** Bydd yn rhaid anfon yn ysgrifenedig benderfyniad y Panel Apelio gyda ei resymau ategol a, lle bo'n briodol, ei argymhellion at y ddau barti mewn 7 diwrnod calendr o'r gwrandawriad. Bydd yn rhaid adrodd am y penderfyniad gyda'r rhesymau ategol a, lle bo'n briodol, yr argymhellion ar yr un pryd wrth Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru.
- 7.3 **Caniatáu apêl.** Gall y Panel Apelio dim ond caniatáu'r apêl os yw'n fodlon bod un neu ragor o seiliau i'r apêl, sydd ym mharagraff 2.7 uchod. Os yw'r Panel Apelio'n caniatáu'r apêl, nid oes ganddo y grym i wneud penderfyniad o'r newydd. Yn lle hynny, bydd Cadeirydd y Panel yn rhoi gwybod ichi i'r Panel argymhell i Gadeirydd y Cyngor y dylid ailystyried y mater gan nodi sail y fath argymhelliad. Ystyrir argymhelliad y Panel Apelio yng nghyfarfod nesaf y Cyngor a chewch wybod am benderfyniad y Cyngor mewn 7 diwrnod calendr o ddyddiad y cyfarfod hwnnw.
- 7.4 **Parhad y gwrandawriad.** Os penderfyna'r Panel Apelio fod yn rhaid i'r gwrandawriad barhau, pennir dyddiad parhad y gwrandawriad, lle bo'n bosibl, yn y gwrandawriad cyntaf ac os nad yw hynny'n bosibl, cyn gynted â phosibl yn ysgrifenedig wedyn.
- 7.5 **Gwrthod apêl.** Ni ellir gwneud apêl bellach yn erbyn penderfyniad y Panel Apelio.
- 7.6 **Yr Ombwdsmon.** Os byddwch o'r farn y bu camweinyddu ar ein rhan, neu wrth inni gynnal yr apêl, bydd gennych hawl i fynd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cynhyrchodd yr Ombwdsmon daflen sy'n esbonio sut i wneud cwyn. Mae hi ar gael gan Ganolfannau Cyngor ar Bopeth, llyfrgelloedd cyhoeddus ac yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pen-coed CF35 5LJ
www.ombwdsmon.cymru

Adolygiad Buddsoddi 2023 – amserlen apelio

Medi 2023	Cyhoeddi penderfyniadau ‘mewn egwyddor’ y Cyngor a rhoi gwybod i’r ymgeiswyr 21 diwrnod calendr i ymgeiswyr apelio
21 diwrnod	Dyddiad cau apelio
16 diwrnod	Dyddiad cau i’r Adolygydd Annibynnol roi gwybod i’r Cyngor a’r person sy’n apelio am ei benderfyniad ar yr apêl
28 diwrnod	Dyddiad cau i’r panel apeliadau gwrdd a chlywed apeliadau
7 diwrnod	Dyddiad cau i’r panel apeliadau roi gwybod i’r person sy’n apelio a Chadeirydd y Cyngor am y penderfyniad
Dyddiad i’w gadarnhau	Cyngor yn cwrdd i ystyried penderfyniadau’r Panel Apeliadau a chytuno ar lefelau ariannu
Diwedd Rhagfyr 2023	Dyddiad cau i’r Cyngor roi gwybod i’r person sy’n apelio am ei benderfyniad



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Adolygiad Buddsoddi 2023

Ffurflen Apelio

Rhagfyr 2022



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.



Adran 1: Am eich sefydliad

Enw eich sefydliad:

Click or tap here to enter text.

Cyfeiriad:

Click or tap here to enter text.

Rhif ffôn:

Click or tap here to enter text.

E-bost:

Click or tap here to enter text.

Enw a swydd y cynrychiolwyr a ymddengys os digwydd gwrandawriad:

Click or tap here to enter text.

Adran 2: Sut i lenwi'r ffurflen Apelio hon

Bydd yn rhaid ichi ddefnyddio'r ffurflen hon pe hoffech apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru ynghylch Adolygiad Buddsoddi 2023. Ni dderbyniwn apêl oni chyflwynir hi drwy lenwi'r ffurflen hon. Cyn llenwi'r ffurflen apelio, **cyngorir chi'n gryf iawn i ddarllen '[Gweithdrefn Apelio - Adolygiad Buddsoddi](#)'** sy'n atodedig. Bydd yn rhaid ichi lenwi'r ffurflen apelio hon yn gyflawn, gan nodi sail eich apêl a rhesymau manwl.

Bydd yn rhaid ichi nodi'n glir a diamwys unrhyw ddetholiad o'ch Cyflwyniad gwreiddiol y cyfeiriwch ato yn y ffurflen hon. Nid ystyrir unrhyw wybodaeth ddiwygiedig neu ychwanegol. Bydd yn rhaid i'r apêl fod yn berthnasol dim ond i'r wybodaeth a roesoch eisoes yn rhan o'ch Cyflwyniad ac a gafodd ei ystyried (neu a ddylai fod wedi'i ystyried) yn ystod proses benderfynu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae'n hanfodol yr anfonir copïau o'r wybodaeth hon gyda'r ffurflen apêl. Ystyrir eich apêl ar y cychwyn gan Adolygydd Annibynnol a allai wrthod eich apêl os nad yw'r ddogfennaeth hon yn amgaaedig gyda'r ffurflen apelio hon.

Bydd yn rhaid inni gael y ffurflen apêl hon yn y cyfeiriad a nodir ar y tudalen olaf. Bydd yn rhaid iddo ein cyrraedd mewn 21 diwrnod calendr o ddyddiad rhoi gwybod am y bwriad i apelio'r penderfyniad. Cadwch gopi llawn o'ch apêl. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich apêl yn ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau.

Adran 3: Sail eich Apêl

Cewch dim ond apelio ar y sail sydd gennych dystiolaeth sy'n arddangos un neu ragor o'r canlynol (ticiwch bob un sy'n gymwys):

- Ni ddilynasom y gweithdrefnau cyhoeddedig am asesu eich Cyflwyniad.
- Camddeallasom ran arwyddocaol o'ch Cyflwyniad.
- Ni chymerasom sylw o wybodaeth berthnasol.

Adran 4: Sail yr Apêl

Yma dylech esbonio sail eich apêl. Dylech nodi pam yr ystyriwch fod y rhesymau uchod yn wir a pham y credwch fod penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru yn anghywir.

Mae'n bwysig ichi fod mor benodol ag y gellwch. Er enghraifft, ni fydd cwyn gyffredinol am gamymddwyn heb unrhyw sail ffeithiol iddi yn debyg o fod yn sail ddigonol ar gyfer apêl. Dylech gyfeirio at unrhyw ddeunyddiau eraill, sydd yn eich Cyflwyniad gwreiddiol, sy'n cefnogi eich apêl. Parhewch ar dudalen ar wahân neu ragor os oes angen.

Sail fy apêl yw:

Click or tap here to enter text.

Atodaf y dogfennau canlynol:

Click or tap here to enter text.

A ninnau'n gynrychiolwyr a nodwyd gan y sefydliad sy'n apelio, cyflwynwn yr apêl hon.

Llofnod: Click or tap here to enter text.

Printiwch eich enw: Click or tap here to enter text.

Swydd: Click or tap here to enter text.

Dyddiad: Click or tap here to enter text.

Llofnod: Click or tap here to enter text.

Printiwch eich enw: Click or tap here to enter text.

Swydd: Click or tap here to enter text.

Dyddiad: Click or tap here to enter text.

Cyfeiriad gohebu:

Click or tap here to enter text.

E-bostiwch y ffurflen apelio hon a'r dogfennau ategol i'r cyfeiriad hwn:

apeliadau@celf.cymru

gan nodi'n glir "Apêl" yn llinell bwnc yr e-bost.

Bydd yn rhaid i'ch apêl lawn ein cyrraedd erbyn 4pm 21 diwmod calendr o ddyddiad rhoi gwybod am y bwriad i apelio'r penderfyniad.

Apêl gan National Theatre Wales

Cyflwynodd National Theatre Wales (NTW) apêl yn erbyn penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) i roi'r gorau i ariannu NTW. Penderfyniad oedd hwn a wnaed fel rhan o Adolygiad Buddsoddi 2023 CCC.

Yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr, ac ar ôl gwrandawriad llawn yr apêl ar 29 Tachwedd, aeth y Cyngor ati'n fanwl i ystyried a thrafod adroddiad ac argymhellion y Panel Annibynnol a benodwyd i glywed yr apêl. Fel rhan o'r broses hon, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth ofalus i argymhellion y Panel ynghylch apêl NTW ac ynghylch yr Adolygiad Buddsoddi'n gyffredinol.

Mae ymateb manwl wedi'i anfon at NTW. Yn unol â'n hymrwymiad i fod yn dryloyw drwy gydol yr Adolygiad Buddsoddi, ceir isod grynodedb o benderfyniad y Cyngor.

Cyflwynodd NTW apêl fanwl iawn, a rhannwyd yr apêl hon â'r Panel ac â Swyddogion CCC yn unol â'n Proses Apelio sydd wedi'i chyhoeddi. Wrth ymateb, darparodd CCC gyflwyniad yr un mor fanwl, a hwnnw'n rhoi sylw'n uniongyrchol i'r holl bwyntiau a godwyd yn yr apêl. Rhannwyd y cyflwyniad hwn hefyd â NTW cyn y gwrandawriad. Yn ôl adroddiad y Panel, wrth iddo bwysu a mesur, ni fu'n bosibl rhoi sylw i bob elfen mewn apêl a ddisgrifiwyd ganddo fel un 'fanwl a chymhleth'. Gan hynny, roedd ei adroddiad yn canolbwyntio ar yr hyn a ddisgrifiodd fel 'ffactorau ar lefel gymharol uchel'.

Yn unol â pharagraff 7.3 o'n Proses Apelio sydd wedi'i cyhoeddi, gwnaeth y Panel, y mae ei rôl yn gynghorol (ac nad oes ganddo'r grym i wneud ei benderfyniad ei hun a fyddai'n disodli'r penderfyniad gwreiddiol ynghylch cais NTW am gyllid), argymhelliad i Gadeirydd y Cyngor oedd y dylid ailystyried cais NTW am gyllid yn unol â'r rhesymau a roddodd dros ei argymhelliad.

Hefyd, yn unol â gofynion y Broses Apelio, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth briodol i'r materion a godwyd gan y Panel yn ei adroddiad, ynghyd ag ystyried gwybodaeth berthnasol arall, fel Canllawiau Adolygiad Buddsoddi CCC, a ddisgrifiwyd gan y Panel fel 'dogfen ragorol'. Cytunodd y Cyngor yn unfrydol nad oedd unrhyw ffactorau perthnasol i warantu adolygu ac ailasesu'r cais. Penderfynodd felly llynu wrth ei benderfyniad gwreiddiol i beidio â chynnig cyllid aml-flwyddyn i NTW yn Adolygiad Buddsoddi 2023. Wrth wneud y penderfyniad hwn, rhoddodd y Cyngor gryn bwyslais ar Ganllawiau'r Adolygiad Buddsoddi, ac ar y ffaith bod y broses asesu a ddisgrifiwyd wedi'i dilyn yn llawn. Mae ein hymateb manwl i NTW yn cyflwyno rhesymau penodol y Cyngor dros y penderfyniad hwn.

Dyna gwblhau ein Proses Apelio.

Correspondence from Mike How (Executive Artistic Director and founder of Grass Under Foot)

Dear Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee,

I grew up in North Wales from the age of 14 - 19 and in many ways they were my formative years. It's here that I first discovered my love of theatre being involved in Clwyd Youth Theatre productions. That was 40 years ago and in the last few years I've moved back to North Wales as a creative theatre professional. I'm happy to say that once again I call Wales my home.

I writing to share this open letter to you from National Theatre Wales regarding the recent funding decision that I'm sure you are aware of.

<https://www.nationaltheatrewales.org/news-stories/an-open-call-to-acw-for-conversation>

I acknowledge the great work that Arts Wales does to support Wales unique and wonderful cultural heritage. I also accept that in a highly competitive and under funded sector that they have been forced to make some tough, if not impossible choices. However, as someone who is committed to grass roots theatre, (something that Wales does so well) I do think that this particular decision is, in my view, an extremely short sighted one. In my considered opinion it goes against, not only their own stated aims of broadening the appeal of theatre in Wales, but also that of the cultural aims of the Country as a whole.

I urge you to enter the debate to save Wales' National Theatre and to call on Arts Wales to enter an interim dialogue with them. The unique cultural landscape of Wales, based on community is what attracted me back here and it saddens me that this brilliant company, a flagship of theatre arts in Wales has been put at risk.

Many thanks for considering this email.

Best Regards,

Mike How (Executive Artistic Director and founder of Grass Under Foot)—



Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ashok Ahir
Cadeirydd
Pedr ap Llwyd
Prif Weithredwr a Phrif Lyfrgellydd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru

13 Rhagfyr 2023

Craffu cyffredinol ar waith Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Annwyl Ashok a Pedr

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2023, i roi tystiolaeth ar gyfer ein gwaith craffu cyffredinol ar waith Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Rydym yn ddiolchgar am y dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod ein sesiwn, ac rydym yn ysgrifennu atoch i ofyn am rywfaint o wybodaeth ychwanegol.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethom drafod ehangu mynediad ac ymgysylltu. Hoffai'r Pwyllgor ddeall yn well y cyfyngiadau hawlfraint a roddir ar yr archif ddarlledu a pham na ellir agor mwy o gynnwys ar-lein. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu mwy o wybodaeth am hyn a phwrpas Corneli Clip y Llyfrgell.

Deallwn fod angen adolygu'r strategaeth gyfredol ar gyfer y Llyfrgell ac ailystyried yr hyn y gellir ei gyflawni yn sgil y newid yn y sefyllfa ariannol. Gwnaethoch esbonio y gallai fod angen cyflwyno strategaeth newydd unwaith y bydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 ar gael. Rydym hefyd yn cydnabod eich cynnig i drafod eich gweledigaeth ar gyfer Oriel Gelf Genedlaethol i Gymru. Byddem yn awyddus i glywed gennych eto i drafod y materion hyn yn ystod gwanwyn 2024.

O ystyried mai byr yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau fel rhan o'r gwaith craffu seneddol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu unrhyw faterion eraill y dylem eu hystyried yn ystod y gwaith craffu hwnnw yn eich barn chi, a hynny erbyn 3 Ionawr 2024.

Edrychwn ymlaen at eich ymateb cyn bo hir maes o law.

Yn gywir



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Sport Wales National Centre
Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru
Sophia Gardens | Gerddi Sophia
Cardiff | Caerdydd
CF11 9SW
0300 3003123
www.sport.wales | www.chwaraeon.cymru

CEO | Prif Weithredwr: Brian Davies
Chair | Cadeirydd: Baroness, Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL

Delyth Jewell AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Gadeirydd,

Diolch i chi am y gwahoddiad diweddar i ymuno â'r Pwyllgor fel rhan o sesiwn craffu gyda Chwaraeon Cymru. Roedd yn gadarnhaol iawn gallu rhannu'r gwaith rydym ni fel sefydliad, a sector, yn ei wneud. Croesawyd y cyfle hefyd i glywed barn, cwestiynau a heriau gan aelodau'r Pwyllgor ac rydym yn parhau i fod yn ddiolchgar am yr her adeiladol y mae'r Pwyllgor yn ei chyflwyno yn y sesiynau hyn.

Roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig sicrhau ein bod yn adeiladu ar rai o'r pwyntiau a godwyd, yn ogystal â darparu gwybodaeth ac adnoddau manylach mewn perthynas â rhai o'r pwyntiau y bu i ni, ac aelodau'r Pwyllgor, eu codi yn ystod y trafodaethau.

Costau byw a chwyddiant

Roeddem eisiau ymateb i ddechrau i faterion yr argyfwng costau byw a phwysau chwyddiant. Mae'r rhain yn cyflwyno eu hunain fel her i Chwaraeon Cymru a'n partneriaid o ran ein hadnoddau cyllidebol ein hunain ac i allu ariannol y cyhoedd ehangach i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Fel y nodwyd, mae Chwaraeon Cymru wedi bod yn modelu'r effaith y byddai unrhyw doriadau ariannol yn ei chael ar ein gallu gweithredol. Byddwn yn ceisio amsugno cymaint â phosibl unrhyw newidiadau i'n cyllideb ddangosol, ond mae'n bwysig ailadrodd ei bod yn annhebygol iawn y byddwn yn gallu osgoi gorfod adlewyrchu unrhyw newidiadau negyddol i'r gyllideb yn y cynigion rydym yn eu gwneud i bartneriaid. Yn ddi-os, bydd hyn yn rhoi pwysau ar eu gallu, yn ogystal â'n gallu ni, i ddarparu'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig ar y cyd.

Mae effaith hefyd ar brosiectau cyllid cyfalaf. Rydym wedi bod yn hynod ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ei blaengaredd yn buddsoddi'n sylweddol mewn prosiectau cyfalaf drwy Chwaraeon Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r galw wrth gwrs wedi bod yn llawer mwy na lefel y cyllid sydd ar gael. Gyda chwyddiant yn gwthio costau prosiectau cyfalaf yn uwch, hyd at 25%, ni all y cyllid sydd ar gael ymestyn mor bell ag y byddai wedi'i wneud yn flaenorol. Mae hyn yn effeithio ar gostau prosiectau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae ein pryderon hefyd yn ymwneud â'r rhwystrau o ran cymryd rhan. Rydym yn gwybod oddi wrth y [Traciwr Gweithgarwch Cymru](#) diweddaraf a gyhoeddwyd bod yr argyfwng costau byw yn cael effaith barhaus ar gyfraddau a thueddiadau cyfranogiad y cyhoedd. Dros gyfres o arolygon tracio rydym wedi gweld y cyhoedd yn gyson yn nodi eu bod yn newid eu harferion oherwydd pryderon ariannol. Mewn rhai achosion mae hyn wedi golygu newid i weithgareddau am ddim, mewn achosion eraill mae wedi arwain at y penderfyniad i roi'r gorau i weithgareddau yn gyfan gwbl. Byddwn yn parhau i fonitro'r duedd allweddol yma drwy'r gyfres ddata chwarterol hon.


Buddsoddiad Chwaraeon Cymru

Fel rhan o'r sesiwn gofynnwyd i ni pa ddata a ddefnyddiwyd o fewn model ariannu Chwaraeon Cymru. Cyfeiriwyd hefyd at ein dull o fuddsoddi ar sawl pwynt yn ystod y sgwrs. O'r herwydd, roeddem yn teimlo ei bod yn briodol rhoi dolenni i'r Pwyllgor i'r adnodd rydym wedi'i gyhoeddi'n flaenorol er mwyn sicrhau mai hwn yw'r dull buddsoddi mwyaf tryloyw posibl. Rydym yn eithriadol falch o fod yn gwbl agored am natur y data rydym yn eu defnyddio, pam rydym wedi eu blaenoriaethu, sut maent yn cael eu defnyddio, a'u ffynonellau.

Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn dod o hyd i'n dull o fuddsoddi mewn partneriaid [yma](#), ac mae'r data penodol sy'n sail i gyllid y Corff Rheoli Cenedlaethol ar gael [yma](#). Fel bob amser, os bydd unrhyw Aelod o'r Pwyllgor yn dymuno cael trafodaeth am y dull ariannu hwn, byddem yn hapus i hwyluso hynny.

Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad

Mewn ymateb i'r heriau a wynebir gan chwyddiant a chostau byw roeddem yn glir iawn ynghylch yr angen am gydweithio ar draws gwahanol sectorau. Mae'n hollbwysig bod chwaraeon yn chwarae rhan bwysig yn y dyfodol fel rhan o ddull ataliol o fynd i'r afael â rhai o'r heriau ariannol y mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn eu hwynebu. Mae hyn yn gofyn am newid mewn dull ariannol, lle mae chwaraeon yn cael eu hystyried fel rhan o gamau cynnar ymyriadau ac yn rhan o ddull llesiant o wario ar iechyd. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi'r astudiaeth Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil y Diwydiant Chwaraeon, sefydliad blaenllaw ym Mhrifysgol Sheffield Hallam. Mae'r ffigurau'n syfrdanol ac yn dangos y cyfraniad blynyddol anhygoel y mae chwaraeon yn ei wneud tuag at iechyd, a meysydd eraill, sy'n ychwanegu pwysau ymhellach at ddyhead y Llywodraeth bod gan chwaraeon y potensial i fod yr adnodd iechyd ataliol mwyaf effeithiol yn y wlad. Mae manylion y canlyniadau i'w gweld yn y raffeg gwybodaeth isod.



Byddwn yn ceisio gweithio gyda chydweithwyr ar draws ystod eang o feysydd polisi, ond yn benodol iechyd fel blaenoriaeth, gan gydnabod y pwysau ariannol y gellir mynd i'r afael ag ef yn greadigol ar y cyd, yn ogystal ag effaith sylfaenol chwaraeon ar ddarpariaeth lle mae angen i ni sicrhau'r effaith orau bosibl i bobl Cymru.

Addysg

Un maes y tynnwyd sylw ato yn ystod ein sesiwn tystiolaeth oedd pwysigrwydd addysg wrth ddatblygu cyfleoedd chwaraeon cynhwysol sy'n arwain at fwynhad oes o chwaraeon. Fel y nodwyd, cynhaliwyd sawl cynllun peilot gennym ledled Cymru, ar y cyd ag ysgolion a phartneriaid mewn awdurdodau lleol, a chawsom wybodaeth bwysig am y ffordd y gall y dull hwn o weithredu ysgogi canlyniadau chwaraeon ac addysgol. Mae adolygiad o'r cynllun peilot ar gael [yma](#).

Ymhellach, nodwyd gennym hefyd yr adnoddau sylweddol y mae Chwaraeon Cymru wedi'u datblygu gyda'r sector addysg fel rhan o'n rhaglen "CitBag". Mae hwn yn hwb dysgu ar-lein i helpu i roi'r sgiliau, yr hyder a'r profiadau chwaraeon i bobl ifanc er mwyn iddynt fwynhau chwaraeon am oes. Mae'r adnoddau ar gyfer athrawon, rhieni, gwarcheidwaid, dysgwyr, gwirfoddolwyr a hyfforddwyr fel ei gilydd. Mae'r adnoddau wedi cael croeso da iawn gan y sector addysg hyd yma a byddem yn annog Aelodau'r Pwyllgor i rannu mynediad i Citbag gydag etholwyr drwy'r [ddolen](#) yma.

Partneriaethau Chwaraeon

Roeddem hefyd eisiau tynnu eich sylw at ein gwaith parhaus ar y Partneriaethau Chwaraeon. Mae'r newid hwn i fodel darparu rhanbarthol wrth galon llawer o'r hyn a drafodwyd uchod. Rydym yn parhau i weithio tuag at sefydlu'r 5 rhanbarth Partneriaeth Chwaraeon, gydag Actif North Wales wedi'i sefydlu'n flaenorol a'r Partneriaeth Chwaraeon newydd yng Ngorllewin Cymru i fod yn gwbl weithredol yn fuan. Mae'r dull hwn o weithredu'n helpu i greu newid llwyr yn y modd y mae chwaraeon yn cael eu darparu. Bydd Partneriaethau Chwaraeon yn helpu i sicrhau bod arbenigedd aml-sector yn cael ei ddwyn ynghyd fel ffordd o sicrhau bod chwaraeon yn cefnogi ystod eang o ganlyniadau, gan greu cynigion sy'n ddiogel, yn gynhwysol, yn ddatblygiadol ac yn cael eu harwain gan angen.

Byddem yn croesawu cefnogaeth barhaus y Pwyllgor i'r rhaglen hon ac edrychwn ymlaen at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnydd dros y flwyddyn sydd i ddod.

Adroddiad Blynyddol

Yn olaf, efallai eich bod wedi gweld ein Hadroddiad Blynyddol sydd wedi'i gyflwyno gerbron y Senedd yn ddiweddar. Roedd yn cynnwys holl waith y sefydliad dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Rydym yn hynod falch o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud gan y sefydliad a'r sector chwaraeon ehangach. Gallwch edrych yn ôl ar y manylion [yma](#) ac edrychwn ymlaen at barhau â'r dull adeiladol o weithio gyda'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Yn Gywir,



Brian Davies
Prif Weithredwr
Chwaraeon Cymru



Y Farwnes Grey-Thompson
Cadeirydd
Chwaraeon Cymru

Y Farwnes Grey-Thompson
Cadeirydd
Brian Davies
Prif Weithredwr
Chwaraeon Cymru

13 Rhagfyr Tachwedd 2023

Gwaith Craffu Blynyddol ar Waith Chwaraeon Cymru

Annwyl Tanni a Brian

Diolch am ddod i'r sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Pwyllgor ddydd Mercher 8 Tachwedd 2023, a diolch am y llythyr dyddiedig 7 Rhagfyr 2023. Rydym yn ddiolchgar i chi am ateb ein cwestiynau. Yn dilyn ein trafodaeth, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ychwanegol isod i ni.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu gwybodaeth am ganran y cyfleusterau chwaraeon sydd wedi'u lleoli y tu ôl i gatiâu'r ysgol, fel y soniwyd yn ystod ein cyfarfod. Hoffem hefyd wybod mwy am yr unedau uniondeb yn Awstralia, Seland Newydd a Chanada y gwnaethoch sôn amdanynt.

Rydym yn deall bod eich cyflawniadau allweddol yn cael eu gosod yn erbyn cefndir anodd o ostyngiadau mewn termau real yn eich cyllid, yr argyfwng costau byw sy'n effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf yn benodol, a'r bylchau economaidd-gymdeithasol sy'n ehangu o ran y rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. O ystyried mai byr yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau fel rhan o'r gwaith craffu seneddol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu unrhyw faterion penodol y dylem eu hystyried yn ystod y gwaith craffu hwnnw yn eich barn chi, a hynny erbyn 3 Ionawr 2024 fan bellaf.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Sport Wales National Centre
Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru
Sophia Gardens | Gerddi Sophia
Cardiff | Caerdydd
CF11 9SW
0300 3003123
www.sport.wales | www.chwaraeon.cymru

CEO | Prif Weithredwr: Brian Davies
Chair | Cadeirydd: Baroness, Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL

Delyth Jewell AS

Senedd Cymru
Stryd Pierhead,
Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Gadeirydd,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 13 Rhagfyr ac am y cyfle diweddar i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Rwyf yn croesawu eich cais am wybodaeth ychwanegol, ac rwyf wedi ychwanegu'r atebion perthnasol yn y llythyr hwn at eich ymholiadau ynghylch 'cyfleusterau chwaraeon y tu ôl i giatiau ysgolion', 'unedau integriti' a 'materion yn ymwneud â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru'. Gobeithio y bydd yr atebion yn ddefnyddiol ac yn cynnig gwybodaeth i chi.

Cyfleusterau Chwaraeon

O ran yr wybodaeth y gofynnwyd amdani am ganran y cyfleusterau chwaraeon sydd wedi'u lleoli y tu ôl i giatiau ysgolion, nid oes gennym ddata pendant am hyn yng Nghymru ar hyn o bryd. Er ei bod yn hysbys bod diffyg mynediad i gyfleusterau ysgolion at ddefnydd cymunedol wedi bod yn rhwystr i fwy o gyfranogiad, nid yw graddfa'r her wedi'i fesur o hyd. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyhoeddi map cyfleusterau ar '[DataMapWales](#)'.

I grynhoi, rydym yn mapio caeau artiffisial o bob math a maint ledled Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn gallu nodi lleoliad pob cae ac, o'r herwydd, byddwn yn gallu tynnu sylw at y cyfleusterau hynny sy'n agored i'r gymuned (neu nad ydynt, fel sy'n berthnasol) ar safleoedd ysgolion neu addysg. Disgwylir i hwn gael ei wneud yn gyhoeddus yn y Flwyddyn Newydd a bydd yn helpu i nodi cyfleusterau cymunedol lleol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli o fewn safleoedd ysgolion.

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024/25:

Gyda'r newyddion am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-2025, rydym yn edrych ar dirlun anodd wrth i ni symud i mewn i 2024. Mae'n debygol y bydd gostyngiad o 10.5% yn ein cyllideb yn arwain at effaith enfawr, gan gynnwys diswyddiadau posibl o fewn y sector, gyda rhaglenni sylweddol yn cael eu gohirio neu eu canslo'n gyfan gwbl a phenderfyniadau anodd yn gorfod cael eu gwneud i lawer o sefydliadau, gan arwain at effaith anghymesur ar y grwpiau sy'n cael eu tanwasanaethu fwyaf yn y wlad.

Fel y nododd adroddiad y pwyllgor ei hun, [Lefelur Cae Chwarae](#), 'Gall chwaraeon fod yn adnodd iechyd ataliol mwyaf effeithiol y genedl'.

Bydd y toriadau arfaethedig i gyllideb Chwaraeon Cymru yn effeithio'n ddifrifol hefyd ar ein gallu i gyflawni'n uchelgeisiol elfennau ehangach y ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn gwybod o brofiad bod y sector cyhoeddus ehangach yn cydnabod bod gan chwaraeon y gallu i gyffwrdd â bywydau unigolion yng Nghymru mewn ffordd wahanol i lawer o sectorau eraill. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ffrwyno chwaraeon i gyflwyno rhaglenni iechyd cyhoeddus, cydraddoldeb, tlodi plant a chyfiawnder cymdeithasol uchelgeisiol y Llywodraeth, gan ein bod wedi profi i fod yn gorff sy'n cyflawni yn erbyn yr agendâu hanfodol hyn. Byddem eisiau gweld buddsoddiad mewn chwaraeon yn cael ei gynnal sy'n galluogi ein sector i barhau i gyflawni'r canlyniadau hyn. Rydym yn credu'n gryf y gall Chwaraeon Cymru fod yn hyrwyddwr ar gyfer moderneiddio a chyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru.

Er ein bod yn gweithio ar hyn o bryd ar sut gallwn amsugno cymaint o'r toriadau hyn â phosibl, mae'n sicr y bydd costau a fydd yn cael eu trosglwyddo i bartneriaid. Rydym wedi cychwyn trafodaethau cynnar gyda'n rhwydwaith o bartneriaid i nodi graddfa'r her i bob un ohonynt, yn ogystal â pha gefnogaeth y gall Chwaraeon Cymru ei darparu i helpu gydag unrhyw bontio. Fel sefydliad rydym hefyd yn adolygu ein gallu a'n rhaglenni ein hunain yng ngoleuni'r sefyllfa gyllido.

Er y bydd y toriad cyllid o 10.5% yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod yn hynod heriol i Chwaraeon Cymru a'r sector chwaraeon, y pryder mwyaf fyddai effaith ddwysach toriad tebyg yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Bydd Chwaraeon Cymru yn amsugno cymaint o'r toriad cyllid hwn â phosibl er mwyn diogelu ein partneriaid o ran eu gallu i gadw staff a rhaglenni.

Os bydd y duedd hon yn parhau ac os bydd blynyddoedd ariannol y dyfodol yn cynnwys toriadau sylweddol i gyllid, ni fydd fawr o le i Chwaraeon Cymru amddiffyn ein partneriaid ac mae'n anochel y bydd hyn yn arwain at ganlyniadau difrifol i'r sector chwaraeon yng Nghymru, yn ogystal â'r cymunedau a'r unigolion mae'n eu cefnogi.

Mae'r sefyllfa ariannol hefyd yn golygu ei bod yn bosibl na fydd rhaglenni sy'n cael effaith ataliol sylweddol ar iechyd sydd wedi'u cynllunio neu sydd ar y gweill ar gyfer grwpiau targed yn gallu dechrau neu barhau, ac rydym yn ofni am yr effaith hirdymor y gallai hynny ei chael ar iechyd a lles pobl yng Nghymru. Fel yr amlinellwyd yn ein llythyr blaenorol atoch, amlygodd yr Astudiaeth Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar bod y sector iechyd yng Nghymru yn elwa o hyd at £621m o ganlyniad i effaith chwaraeon ar atal salwch. Mae'n destun pryder mawr y bydd unrhyw ostyngiadau yn y cyllid ar gyfer chwaraeon yn y dyfodol, a'r effeithiau cysylltiedig ar gyfranogiad, yn lleihau'r ffigur hwn, gan ychwanegu mwy o bwysau hirdymor ar wasanaethau iechyd yng Nghymru, ar amser pan mae'n bwysicach nag erioed i ni symud at ddull gwirioneddol ataliol o weithredu o ran lles y wlad.

Mae ein hastudiaeth SROI ddiweddar yn dangos, am bob punt sy'n cael ei gwario ar chwaraeon yng Nghymru, bod elw enfawr o £4.44 i iechyd a lles pobl a'r economi.

Rydym yn ddiolchgar nad yw ein cyllideb wedi cael ei thorri i'r graddau y mae cyrff eraill wedi wynebu, ac rydym yn cydnabod y dewisiadau eithriadol anodd mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rydym yn credu'n gryf bod chwaraeon a gwaith Chwaraeon Cymru yn cyfrannu ymhell y tu hwnt i'r briff diwylliant ac economi, a byddwn yn parhau i wthio am yr angen i chwaraeon gael ei ystyried ym mhob briff polisi ac i bortffolios eraill fanteisio i'r eithaf ar effeithiau chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

O ran ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, gwnaethom ymateb i ymgynghoriad cychwynnol y pwyllgor cyllid ar y gyllideb ddrafft, a gellir gweld ein hymateb yma:

[Ymateb Chwaraeon Cymru](#)

Buom yn trafod rhai o'r pwyntiau yn ystod y sesiwn craffu ond y pwyntiau allweddol a ddaeth i'r amlwg i ni oedd y rhain:

- Rydym yn credu y dylid manteisio i'r eithaf ar chwaraeon ar draws meysydd portffolio'r Llywodraeth, a bod y budd unigryw y gall chwaraeon ei gynnig wrth gyflawni dros Gymru yn cael ei ddeall a'i gydnabod yn y gyllideb.
- Rydym yn dymuno gweld cyllidebau atal iechyd yn ystyried chwaraeon a gweithgarwch corfforol fel dull o gyflawni eu canlyniadau, a phwlio cyllidebau lle mae eraill mewn gwell sefyllfa i gyflwyno gweithgarwch.
- Rydym yn credu bod angen golwg hirdymor barhaus ar gyllidebu gyda mwy o ffocws ar atal.

Unedau Integriti:

Yn ystod y sesiwn fe wnaethom hefyd gyffwrdd ag unedau integriti, ac rwyf wedi ychwanegu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am y rhain yma mewn ymateb i'ch cais.

Isod rwyf wedi rhannu dolenni i bob un o'r tair uned integriti a grybwyllwyd yn ystod y sesiwn craffu. Mae'r rhain i gyd wedi'u sefydlu o fewn cyd-destun y gwledydd unigol hyn felly, yn unol â hynny, mae ganddynt ffocws gwahanol.

Canada: <https://sportintegritycommissioner.ca/>

Awstralia: <https://www.sportintegrity.gov.au/>

Seland Newydd: <https://sportnz.org.nz/integrity/>

Ar lefel y DU mae'r tirlun ychydig yn wahanol gyda phob un o'r pum cyngor chwaraeon ar draws y DU yn archwilio mecanweithiau y gallwn eu defnyddio i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon yn y maes hwn. Rydym yn credu bod synergedd digonol ar draws tirlun chwaraeon y DU i warantu dull unedig o weithredu a hefyd sicrhau bod buddiannau penodol Cymru yn cael eu gwasanaethu'n dda.

Rwy'n gobeithio y bydd yr holl wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi ac, fel bob amser, rwy'n fwy na pharod i ateb unrhyw gwestiynau ychwanegol sydd gennych chi. Unwaith eto, hoffwn ddiolch i chi am y cyfle i siarad gyda'r pwyllgor ym mis Tachwedd ac edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda chi ac aelodau eraill y pwyllgor yn ystod 2024 a thu hwnt.

Diolch



Brian Davies
Prif Weithredwr
Chwaraeon Cymru

Efa Gruffudd Jones

Comisiynydd y Gymraeg

5 Rhagfyr 2023

Gwaith craffu blynyddol: cwestiynau dilynol

Annwyl Efa

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Mercher 8 Tachwedd 2023, ar gyfer ein sesiwn graffu flynyddol. Rydym yn ddiolchgar i chi am ateb ein cwestiynau. Yn dilyn ein trafodaeth, hoffem ofyn cyfres o gwestiynau i chi sy'n codi o'r dystiolaeth a ddarparwyd gennych.

System Rheoli Achosion

Roeddem yn pryderu ynghylch y wybodaeth a glywsom am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran gweithredu'r System Rheoli Achosion newydd ar gyfer y swyddfa. Mae eich adroddiad blynyddol yn nodi y bydd y system newydd yn weithredol yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Fodd bynnag, roedd eich ymateb yn y cyfarfod yn awgrymu na fyddai'r system yn gwbl weithredol. Gwnaethoch ddweud wrthym:

Mi oedd y system yma i fod, yn wreiddiol, i'w gyflwyno i ni ym mis Hydref 2022 i'w brofi. Cafodd hynny ei fwrw ymlaen i Chwefror 2023, ac mae'n flin gyda fi i rannu gyda chi ein bod ni'n dal mewn sefyllfa lle dŷn ni ddim yn gallu defnyddio'r system ar hyn o bryd...Mae yna elfennau o'r system rŷn ni'n gallu eu defnyddio, ond dyw'r system yn ei chyfanrwydd ddim yn barod eto i ni ei defnyddio.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pa agweddau sy'n weithredol ar hyn o bryd, a phryd yr ydych yn disgwyl i elfennau eraill y system fod yn barod.

O ystyried y ffaith bod eich swyddfa wedi gwario £243,000 ar y prosiect hwn hyd yma, rydym yn siŵr eich bod yn gwerthfawrogi'r ffaith ein bod yn awyddus i ganfod sut y mae'r gwariant hwn yn sicrhau

gwerth am arian (yn enwedig o ystyried y pwysau ar eich cyllidebau), a sut y bydd yn cefnogi swyddogaethau eich swyddfa. Byddem yn croesawu crynodeb o'r manteision a ddaw yn sgil defnyddio'r system newydd hon.

Roedd clywed am y costau anhysbys ychwanegol a allai godi yn sgil natur y contract dan sylw hefyd yn destun pryder. O ystyried y swm a wariwyd eisoes, a'r cyfyngiadau ariannol y mae'n rhaid i chi lynu wrthynt, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi sicrwydd na fydd cost y prosiect hwn yn cynyddu, a bod cynllun ar gyfer ei roi ar waith.

Annibyniaeth ar y Llywodraeth

Yn ystod y cyfarfod, buom hefyd yn trafod sut yr ydych yn bwriadu cynnal eich annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru.

Rydych wedi cyhoeddi eisoes na fyddwch bellach yn cynnal nifer y swyddfeydd yr oeddech yn eu cynnal yn flaenorol (cyfanswm o bedair swyddfa). Fel rhan o'r gweithgarwch ad-drefnu hwn, byddwch yn prydlesu swyddfeydd yn adeiladau Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays. Mewn perthynas â Pharc Cathays, gwnaethoch ddweud wrthym:

Rŷn ni ar lawr ar wahân i swyddogion Llywodraeth Cymru, â system pàs sy'n golygu allwn ni ddim crwydro i swyddfeydd ein gilydd o gwbl.

Roeddem yn ddiolchgar ichi am egluro'r sefyllfa honno. Fodd bynnag, mae gan rai o Aelodau'r Pwyllgor amheuon ynghylch y trefniant hwn, fel y soniwyd yn ystod y cyfarfod. Gwnaethoch ddweud wrthym:

Dwi'n meddwl ein bod ni'n gallu rhoi digon o gamau mewn lle i sicrhau ein hannibyniaeth ni.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu'r camau pellach y byddwch yn eu cymryd i ddangos sut y byddwch yn gallu cynnal ac arddangos yr annibyniaeth hon.

Yn ogystal, rydym yn pryderu ynghylch unrhyw ddiffygion cyllidebol y byddwch yn eu hwynebu yn y dyfodol, o bosibl, a'ch annibyniaeth wrth fynd i'r afael ag unrhyw sefyllfa o'r fath. Gwnaethoch ddweud wrthym:

...rwy'n credu bod gennym ni lythyr ar ffeil gan Lywodraeth Cymru sy'n dweud pe bydden ni yn y sefyllfa o gyrraedd diwedd blwyddyn ariannol ac ein bod ni angen cyllid ychwanegol, y bydden nhw'n rhoi ystyriaeth lawn i hynny...

Pe bai sefyllfa o'r fath yn codi eto, a phe bai angen cyllid arnoch i herio Llywodraeth Cymru ei hun, mae pryder y gallai sefyllfa o'r fath gael ei gweld fel un a fyddai'n peryglu eich annibyniaeth. Byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu sut yr ydych wedi rhoi ystyriaeth i senario o'r fath, a phe gallech roi sicrwydd na fydd eich annibyniaeth yn cael ei pheryglu.



Heriau ariannu ar gyfer 2024-25

Rydym yn nodi mai costau staffio sy'n gyfrifol am oddeutu 75 y cant o wariant blynyddol y sefydliad, a bod eich adroddiad blynyddol yn nodi bod yr undebau llafur "wedi bod yn brwydro dros gynnydd i gyflogau" mewn ymateb i bwysau chwyddiant. Mae chwyddiant yn parhau i fod yn uchel, ac roeddem yn pryderu i glywed y gallai'r cam o fodloni'r gofynion hyn o ran cyflogau arwain at ddiswyddiadau. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth ynghylch yr asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r effaith y gallai diswyddiadau o'r fath ei chael ar allu eich swyddfa i gyflawni ei gwaith, o ran eich swyddogaethau rheoleiddio, ac o ran hyrwyddo a hwyluso'r iaith yn y sector preifat a'r trydydd sector.

O ystyried mai byr yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau fel rhan o'r gwaith craffu seneddol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu unrhyw faterion eraill y dylem eu hystyried yn ystod y gwaith craffu hwnnw yn eich barn chi, a hynny **erbyn dydd Gwener 15 Rhagfyr 2023 fan bellaf.**

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

15/12/2023

Annwyl Delyth

Gwaith craffu blynyddol: cwestiynau dilynol

Diolch am y cyfle i ymddangos gerbron y Pwyllgor i drafod fy Adroddiad Blynyddol 2022-23 ac Adroddiad Sicrwydd 2023 ddechrau mis Tachwedd. Diolch ichi hefyd am y llythyr dilynol lle'r ydych yn gofyn am ragor o wybodaeth am rai agweddau o'n tystiolaeth. Isod rwy'n ymateb i'ch cwestiynau fesul maes.

1. System Rheoli Achosion

Cyflwynwyd system rheoli achosion inni gan y darparwyr i'w phrofi ym mis Chwefror 2023. Yn dilyn ein gwaith profi roeddem o'r farn fod agweddau o'r system sy'n ymwneud â gwaith llywodraethiant a gwaith hybu'r Gymraeg gyda'r trydydd sector a'r sector preifat wedi'u cyflawni yn unol â'n disgwyliadau erbyn diwedd cyfnod y contract. Nid oeddem er hynny, o'r farn fod agweddau sylweddol o'r system yn ymwneud â gwaith rheoleiddio'r sefydliad wedi'u cyflawni yn unol â'n disgwyliadau. Fodd bynnag, oherwydd natur y system a'r ffaith nad oeddem o'r farn fod agweddau helaeth o'r gwaith wedi'u cyflawni yn unol â'n disgwyliadau rydym wedi penderfynu peidio â defnyddio'r elfennau oedd yn dderbyniol gennym am y tro.

Rwy'n deall eich pryderon am y costau ychwanegol cysylltiedig â chwblhau'r gwaith. Oherwydd natur y cytundeb roeddem ar ddeall y byddai angen rhywfaint o waith mireinio pellach ar y system yn dilyn y cyfnod profi cychwynnol ac y byddai peth costau yn gysylltiedig â hynny, ond fel yr eglurais uchod, nid ydym o'r farn fod y system a gyflwynwyd inni i'w phrofi wedi cwrdd â'n disgwyliadau yn y lle cyntaf. Rydym yn y broses o gael cyngor arbenigol pellach i'n cynorthwyo gyda'r camau nesaf. Yn dilyn hynny

Comisiynydd y Gymraeg

Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221

post@comisiynyddygybraeg.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Welsh Language Commissioner

Unit 2, Block C
Victoria Dock
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221

post@comisiynyddygybraeg.cymru

Correspondence welcomed in Welsh and English



byddwn mewn gwell sefyllfa i ystyried y camau dilynol. Wrth wneud hynny byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i gostau'r prosiect a gwerth am arian cyhoeddus.

Yn y cyfamser, fel yr eglurais yng nghyfarfod y Pwyllgor, mae staff y Comisiynydd yn gallu parhau â'u gwaith yn effeithiol. Mae'r manteision a ragwelwyd a ddeuai yn sgil y system yn ymwneud yn bennaf ag arbedion o safbwynt effeithlonrwydd y defnydd o amser staff ac yn cynnwys:

- Awtomeiddio rhai tasgau gan olygu arbedion mewn amser staff
- Lleihau baich tasgau dydd i ddydd ailadroddus a gweinyddol
- Ein galluogi i gadw gwell cofnod o'n gwaith ac amserlenni y mae angen cadw atynt
- Ein galluogi i fesur cynnydd yn haws yn erbyn ein mesuryddion perfformiad
- Ein galluogi i adrodd yn well ar berfformiad y cyrff yr ydym yn eu rheoleiddio

2. Annibyniaeth ar y Llywodraeth

Cyn penderfynu bwrw at i logi gofod yn adeilad Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays cynhaliwyd ymarferiad i bwysu a mesur risgiau a chostau gwneud hynny mewn perthynas â risgiau a chostau symud i ofod arall. Daethpwyd i'r casgliad y byddai costau llogi gofod ym Mharc Cathays yn sylweddol is na llogi gofod gan ddarparwr masnachol a bod modd gosod camau mewn lle i liniaru risgiau a adnabuwyd mewn perthynas ag annibyniaeth y sefydliad. Rwyf yn hyderus yn dilyn yr ymarferiad hwnnw ein bod wedi dod i'r casgliad cywir o safbwynt adnoddau fy swyddfa ac y bydd camau addas yn eu lle i warchod annibyniaeth y Comisiynydd. Mae'r camau hynny yn cynnwys:

- Mae pob un aelod o staff y Comisiynydd wedi ymrwymo i weithredu yn unol â chod ymddygiad sy'n seiliedig ar egwyddorion ymddygiad Nolan mewn bywyd cyhoeddus. Mae sicrhau annibyniaeth y Comisiynydd yn greiddiol i'r cod hwnnw. Golyga hynny na fydd fy mhenderfyniadau a'm hymwneud i a'm staff yn cael eu dylanwadu gan leoliad ein swyddfa, ac na fyddwn yn trin Llywodraeth Cymru yn wahanol i'r sefydliadau eraill sy'n cael eu rheoleiddio gennym.
- Yn gysylltiedig â'r uchod, mae gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd femorandwm o gyd-ddealltwriaeth sy'n gosod allan gyfrifoldebau'r ddau sefydliad a'u perthynas â'i gilydd.
- Mae rhannu gofod yn y ffordd hon yn dod ag arbedion ariannol i'r Comisiynydd ac i gyrff cyhoeddus eraill y byddwn yn rhannu gofodau â hwy. Mae'n ffordd ddarbodus o weithio mewn hinsawdd ariannol anodd. Byddai'n hynod anodd i'r Comisiynydd rannu gofod â chyrrff cyhoeddus eraill nad ydynt yn gorfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Yn hynny o beth, byddwn yn rhannu ein gofod â nifer o gyrff rheoleiddio eraill gan gynnwys yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Chyfoeth Naturiol Cymru.
- Bydd gan staff y Comisiynydd basys unigryw i'w galluogi i gael mynediad i bedwerydd llawr yr adeilad ac ardaloedd cyhoeddus yn unig. Ni fydd gan staff y Llywodraeth fynediad i bedwerydd llawr yr adeilad.
- Lleiafrif o staff y Comisiynydd fydd wedi'u lleoli yn y swyddfeydd hyn, a byddant oll yn gweithredu trefniant gweithio hybrid. Swyddfa Caernarfon bellach yw prif swyddfa'r Comisiynydd a dyma'r cyfeiriad fydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cyfathrebu.



Nid oes gan y Comisiynydd yr hawl i wario mwy na'r hyn sydd wedi ei bleidleisio gan y Senedd, mae hyn yn unol ag egwyddor 'Parliamentary Supply' o fewn fframwaith Rheoli Arian Cyhoeddus y DU. Os oes angen cyllid ychwanegol arnom ar gyfer unrhyw un o'r categorïau gwariant mae'n ofynnol inni wneud cais i Lywodraeth Cymru drwy'r broses 'cyllideb atodol'. Yn flaenorol byddai'r Comisiynydd wedi gallu rheoli unrhyw ofynion gwariant ychwanegol o'r gronfa wrth gefn, ond bellach nid oes modd cadw cronfa wrth gefn at y dibenion hyn felly mae fy ngallu i reoli gwariant ychwanegol wedi'i gyfyngu.

Wrth sefydlu'r drefn hon tanlinellodd y Comisiynydd y gwrthdaro allasai godi mewn cysylltiad â'r posibilrwydd o fod angen gofyn am gyllid ychwanegol er mwyn dwyn achos yn erbyn y Llywodraeth sydd wrth gwrs, yn cael ei rheoleiddio gennym. Rhoddwyd ymrwymiad mewn llythyr y byddai modd i Gomisiynydd y Gymraeg ofyn am gyllid gan y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros Gyllid at ddibenion dwyn achosion cyfreithiol yn erbyn y Llywodraeth pe na bai digon o gyllid gennym yn absenoldeb cronfa wrth gefn. Mae cydnabyddiaeth o'r gwrthdaro posibl felly ac mae proses mewn lle i oresgyn yr anhawster hwn ac i amddiffyn annibyniaeth y Comisiynydd.

3. Heriau ariannu ar gyfer 2024-25

Fel sy'n ofynnol, cyflwynais bapur i'r Llywodraeth erbyn 31 Hydref 2023 yn amlinellu'r cyllid sydd ei angen ar fy swyddfa i gyflawni ein gwaith. Yn y papur a gyflwynwyd nodais bod angen cynnydd o £147,000 i gyllideb refeniw y Comisiynydd ar gyfer 2024-25 i gynnal yr un gweithgareddau â'r llynedd. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o £132,000 i gwrdd â chynnydd o 5% mewn costau cyflogaeth. Fel sefydliad rydym yn dilyn patrwm cyflogau Llywodraeth Cymru. Heb gynnydd i'r gyllideb refeniw waelodol i gwrdd â'r cynnydd hwnnw, byddai'n anorfod bod angen inni wneud penderfyniadau anodd er mwyn cyflawni arbedion i gwrdd â'r diffyg. Byddwn eisoes wedi cyflawni arbedion o £97,000 yn 2023-24 drwy leihau ein hystâd felly prin iawn yw'r arbedion pellach y bydd modd inni eu gwneud i gostau rhedeg y sefydliad yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Gan nad ydym eto yn gwybod beth fydd y setliad a gawn ni gan Lywodraeth Cymru rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar senarios gwahanol yn ddibynnol ar ragweld setliadau gwahanol. Mae hynny, yn anorfod, yn cynnwys edrych ar y strwythur staffio. Byddai cyflwyno newidiadau i'n strwythur staffio yn effeithio yn sylweddol ar allu'r swyddfa i gyflawni ein gwaith; rwyf eisoes er enghraifft, wedi penderfynu cadw dwy swydd yn wag am y tro yn dilyn ymadawiadau staff. Dylwn nodi fod y sefydliad eisoes yn cyflogi 4 aelod staff yn llai nag yn 2015-16 – byddai gostyngiad o 6 yn ostyngiad o dros 10%. Mae'r gwaith hwn o baratoi ar gyfer senarios gwahanol hefyd yn golygu bod angen inni edrych ar ein cyllideb rhaglenni sydd eisoes yn fychan (£150,000).

Hyderaf fod y llythyr hwn yn ymateb yn llawn i gwestiynau'r Pwyllgor. Ar bob cyrif mae croeso ichi gysylltu â mi os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth am unrhyw fater.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Yr eiddoch yn gywir,

Efa Gruffudd Jones.

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

15 Rhagfyr 2023

Annwyl Huw,

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Nulyn

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 23 Tachwedd ynghylch y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol ac Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig sy'n cael ei chynnal yn Iwerddon, hoffwn dynnu eich sylw at fy [natganiad ysgrifenedig](#) heddiw, ac at [hysbysiad](#) y Cyngor sy'n crynhoi canlyniadau'r Uwchgynhadledd.

Tra roeddwn yn yr Uwchgynhadledd, manteisiais ar y cyfle i gynnal cyfarfodydd dwyochrog gyda'r Gweinidog Gwariant Cyhoeddus a Diwygio, Paschal Donohoe TD, y Taoiseach Leo Varadkar TD, Prif Weinidog yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Humza Yousaf ASA, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Llywodraeth Leol a Thai; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; a Chydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 146
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi.
Llywodraeth Cymru

19 Rhagfyr 2023

Datganiad ar y Cyd ar Gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Baden- Württemberg

Annwyl Mark a Vaughan,

Ysgrifennaf atoch ynghylch y Datganiad ar y Cyd ar Gydweithrediad a gwblhawyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Baden-Württemberg a gyhoeddwyd ar 14 Tachwedd 2023.

Hyd yn hyn, mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliad manwl i'r Cyd-ddatganiad a'r Cynllun Gweithredu ar y Cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon. Ffrwyth y gwaith hwn oedd ein hadroddiad, a ddilynwyd gan ddadl gynhyrchiol a gwerthfawr yn y Senedd ar 29 Tachwedd 2023. Fe fyddwch yn ymwybodol bod argymhelliad 11 o'n hadroddiad yn argymhell:

Lle mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu ymagwedd debyg at berthnasoedd rhyngwladol eraill sy'n cael blaenoriaeth, dylai gynnwys canfyddiadau'r adroddiad hwn o'r cychwyn cyntaf.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn yn ei hymateb ysgrifenedig i'r adroddiad.

Er ichi gyhoeddi datganiad i'r wasg ar wefan Llywodraeth Cymru, yn ogystal â diweddarau tudalen we'r cytundebau dwyochrog rhyngwladol, nodaf nad yw'n ymddangos bod unrhyw fanylion pellach ar gael am y cytundeb diweddaraf hwn. Byddwn yn ddiolchgar o gael deall pam y mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyn lleied o fanylion y tro hwn, o gymharu â swmp y wybodaeth a gyhoeddwyd am y cytundeb rhwng eich Llywodraeth ac Iwerddon. Hoffwn nodi hefyd ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Baden-Württemberg wedi mabwysiadu dull gwahanol, drwy gyhoeddi cyhoeddiad manwl a thestun llawn y Cyd-ddatganiad yn Almaeneg a Saesneg.

Yng ngoleuni'r ymateb cadarnhaol a gawsom gan y Prif Weinidog i argymhellion y Pwyllgor ar gytundebau dwyochrog rhyngwladol yn y dyfodol, ac yn wir yng ngoleuni'r ysbryd adeiladol y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddangos i'n gwaith craffu ehangach ar gysylltiadau rhyngwladol, byddwn wedi gobeithio gweld copi o'r Cyd- ddatganiad hwn yn cael ei rannu'n rhagweithiol â'r Pwyllgor hwn.

Er mwyn llywio rhaglen waith y Pwyllgor yn y dyfodol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech:

- Ddarparu copi o'r cytundeb i'r Pwyllgor hwn;
- Cadarnhau a gytunwyd ar unrhyw gynlluniau gweithredu cysylltiedig ac, os felly, rhannu copïau ohonynt â'r Pwyllgor; a
- Chadarnhau sut y mae, neu sut y bydd, argymhelliad 11 o'r adroddiad ar cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei weithredu mewn perthynas â'r cytundeb hwn.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Brexit and Pandemic Impact Report.

Entourage Pro: *Insights*
'Then & Now'
2019 – 2023

The report, whilst available free of charge for use by the industry, is subject to copyright and remains property of Entourage Pro Ltd. Any reproduction, references, citations, data and quotations must be accredited to Entourage Pro Ltd.

Our Partners



Who We Are

Entourage Pro: Insights is the research division of Entourage Pro Ltd: The World's first free, verified freelance global crew network, specialising in, and reporting on, the live entertainment sector.

No nonsense, impartial & detailed reports prepared by the industry for the industry.

In digitising traditional methods of sourcing and engaging with the global community of specialist production crew, Entourage Pro has built the New Way for freelancers to be seen, to be heard and to be hired.

In developing a robust and secure environment for skilled practitioners to exist, Entourage Pro provides the industry with not just a free resource to connect and employ crew but a route-one, direct line of communication with experienced production practitioners and those who are new to the industry. This is a live event production first.

Intro + Overview


The Entourage Pro: Insights Brexit/Pandemic Impact Report is a piece of work which provides a clear overview of the obstacles and challenges our community has faced during the past 4 years.

It has been developed with input from various organisations working towards a more stable future for our industry, its services and its people. Its purpose is not to bring about a collective groan from the sector, but to add context to the concerns our freelance community have faced, to a wider audience. The work has been shared amongst relevant parties with a view to fixing issues, brought about by the complexities of Brexit and the Pandemic.


The Respondents

603 core respondents from the Entourage Pro network consisting of UK-based freelance crew. With every crew member verified by at least one colleague in the production industry.

Industry Disciplines



Years' Experience





Demand.

Overall 2019-2023 Comparison.

41%

...of all respondents are doing more or much more work now compared to 2019

25%

...are doing around the same compared to 2019

34%

...are doing less or much less


48%

...of respondents with more than 20 years experience are doing considerably less work now compared to 2019


59%

...of respondents with between 10 and 20 years experience are doing considerably more work now compared to 2019


All Respondents




0 to 10 Years Experience



10 to 20 Years Experience



20+ Years Experience





Demand.

EU 2019-2023 Comparison.


70%

...of all crew said EU touring was a vital component of their yearly income pre-2019


44%

...of crew now see EU touring as a vital component of their yearly income


All Respondents




0 to 10 Years Experience



10 to 20 Years Experience



20+ Years Experience





Travel

62%

...of all crew have had reduced earnings due to EU travel restrictions since 2019

74%

...of crew with 20+ years experience have had reduced earnings due to EU travel restrictions since 2019

58%

...of all crew say their ROW/US work quota has not increased to compensate

66%

...of crew with 20+ years experience say their ROW/US work quota has not increased to compensate

84%

...of all crew have seen UK/EU tour cancellations which have impacted them, or their friends/colleagues



EU Member State Touring

Other than the UK, Germany, Spain, Italy and France, it's these countries that provide UK crew with the most work





The Major Factors for Having Less EU Work

75%

Increase in costs whilst
lowering budgets

71%

Schengen restrictions (90/180
day period of working)

68%

Visa issues and red tape

51%

Fewer job offers/less work

42%

EU Promoters securing local
crews

35%

More competition for work
amongst peers



Loud and Clear

90%

...say there is not enough clarity surrounding post-Brexit touring regulations.

93%

...are unhappy and unclear with government guidelines.

94%

...say we need clarity surrounding visa-free touring.

79%

...need more clarity surrounding Carnets.

85%

...are not aware of the proposed Labour EU deal.

92%

...are not aware of the French Talent Passport.

91%

...are not aware of UK UK Creative Industries: International Strategy

95%

...have never heard of the Creative Export Faculty

83%

...have not been made aware of the necessary legislation and processes required to re-instate achievable travel solutions for artists and crew



Mental Health

34%

of all respondents are
doing less overall work
now compared to 2019

91%

have had their earnings
affected

65%

have had their mental
health affected

"There's a lack of EU touring work."

"Smaller acts are now unable to tour and a sizeable earn out was from these artists."

"Borrowing money from family and friends."

Tudalen y pecyn 161

"Visa and carnet issues at borders, mean less US artists taking UK crew out."

"I'm finding it difficult to make ends meet."

"Band show fees are much less - meaning tighter budgets."

"Instability. Taking work at a lower rate which isn't good."

"Feeling the pressure of providing for the family and home."



Conclusion

- General demand is up but there has been a huge drop in who now see EU touring as a vital part of their yearly income.
 - Most freelancers have earned less due to EU restrictions.
 - The main issues have been increased costs v lower budgets, Schengen restrictions and tour cancellations.
 - Much more clarity is needed around general touring regulations, carnets and visas.
 - The industry is still far from what it was pre-covid.
 - Fewer European artists playing UK venues.
 - Fewer UK artists requesting UK based crew for overseas work.

Whilst clearly there is still huge work to be done, critically, the industry's resilience, adaptability and optimism again signals that we need to come out of a post-pandemic world stronger and reach a definitive situation to the current EU touring situation.

There is evidence to support clearer guidelines, processes and representation to us as individuals and as businesses and a requirement to call upon the various industry bodies to come together, collectively for stronger more targeted representation.

We'd love to hear from you if you're a manufacturer, supplier, promoter, operator or educator and you'd like to work with us. Find out how you can jump on our transformational tour bus, become an integral part of our amazing onward journey and safeguard the future of our industry – contact us at connect@entouragepro.com

Oliemata O'Donoghue
Drwy e-bost - political.engagement@hsbc.com

8/11/2023

Annwyl Oliemata,

Llinell gyswilt ffôn Gymraeg

Rwyf newydd dderbyn llythyr gennych yn nodi eich bwriad i ddod a'r llinell gymorth Gymraeg i ben ar y 15 o Ionawr 2024. Mae'n hynod siomedig eich bod wedi dod i'r penderfyniad yma, a'ch bod wedi dod i'r penderfyniad heb ymgynghori gyda fy swyddogion na'u hysbysu o flaen llaw.

Mae eich cynnig o alwad yn ôl o fewn tri diwrnod gwaith yn y Gymraeg yn golygu eich bod yn darparu gwasanaeth israddol i siaradwyr Cymraeg, ac fel y gwyddoch mae'r iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru.

Rydych yn nodi mai nifer isel o alwadau sydd yn cael eu derbyn i'r rhif Cymraeg ond, er i ni gynnig cyngor a'ch annog i'w hyrwyddo'n well nid oes unrhyw dystiolaeth fod hynny wedi digwydd

Hoffwn drefnu cyfarfod brys gyda chi i drafod y sefyllfa bresennol ac i drafod unrhyw opsiynau pellach, cyn i'r gwasanaeth pwysig hwn ddirwyn i ben. Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech gynnig dyddiadau ac amseroedd posib?

Yn gywir,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

José Carvalho
Pennaeth Cyfoeth a Bancio Personol
HSBC UK

Oliemata O'Donoghue
Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyfoeth a Bancio Personol
HSBC UK

Copi at: Ian Stuart
Prif Weithredwr
HSBC UK

11 Rhagfyr 2023

Ynghylch: Penderfyniad HSBC UK i gau ei wasanaeth ffôn ar gyfer cwsmeriaid Cymraeg ei iaith

Annwyl José

Ysgrifennaf i ddiolch i chi am yymddangos gerbron y Pwyllgor ddydd Mercher 29 Tachwedd 2023. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn ddiolchgar i chi am roi o'ch amser, ac rydym yn gwerthfawrogi mai chi oedd y cynrychiolydd a enwebwyd i ymateb i'n pryderon am benderfyniad HSBC UK i gau ei linell gwasanaeth cwsmeriaid Cymraeg. Yn sgil eich sesiwn dystiolaeth gyda ni, hoffem fynd ar drywydd rhai cwestiynau pellach.

Yn gyntaf, hoffem ailadrodd ein safbwynt fel Pwyllgor. Rydym yn ymbil ar HSBC UK ("HSBC") i newid ei benderfyniad i gau ei wasanaeth ffôn ar gyfer cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith ("y Gwasanaeth"). Mae gwefan HSBC yn amlinellu ei ymrwymadau presennol i'r Gymraeg, gan nodi bod y banc:



"...yn ymroddedig i fywyd, diwylliant a phobl Cymru a'n nod yw croesawu'r iaith Gymraeg yn ein holl ganghennau yng Nghymru, a thrwy wneud hynny darparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid."

Bydd HSBC yn ymwybodol o'r teimladau cryf ymhlith Aelodau'r Pwyllgor am benderfyniad diweddar y banc, a bod Aelodau o bob plaid wleidyddol yn y Senedd hefyd yn rhannu'r teimlad hwn. Mae methiant HSBC i gynnal dull sy'n cyd-fynd â'i werthoedd yn cael ei ystyried yn annidwyll ac yn annifyr, ac mae potensial i hyn gael effaith sylweddol ar eich cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith. Amlinellir ein rhesymeg dros ddod i'r farn hon isod.

Y nifer sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Cymraeg

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, dywedsoch wrthym fod tri aelod o staff amser llawn yn darparu'r Gwasanaeth. Mae'r tri asiant hyn yn cael tua 22 o alwadau y dydd rhyngddynt. Fe ddywedoch chi, serch hynny, o ran y galwadau Cymraeg i HSBC:

"...we end up with only six per cent of the calls that are coming in being answered in Welsh by these three agents."

Golyga hyn fod 94 y cant o'r galwadau i'r Gwasanaeth yn peidio â chael eu hateb yn Gymraeg, er gwaethaf y ffaith bod siaradwyr yn gofyn am y gwasanaeth.

Mae HSBC wedi cyfeirio droeon at ostyngiad cyson yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gwasanaeth, o gymharu â bron i 20,000 o alwadau a wneir i'r llinell Saesneg bob dydd. Byddem yn dadlau nad yw'r hyn y mae HSBC yn ei hawlio yn ei **lythyr** dyddiedig 8 Tachwedd 2023, sy'n disgrifio'r Gwasanaeth fel "... no longer being fully utilised", yn ddatganiad dilys: yn hytrach, mae nifer isel yr alwadau y mae HSBC yn cyfeirio atynt yn dangos anallu eich banc i ddarparu gwasanaeth gweithredol a chyson sy'n diwallu anghenion ei gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith.

Credwn fod hyn yn dangos lefel o ddirmyg tuag at gwsmeriaid HSBC, a bod iaith a rhesymeg y banc ynghylch y penderfyniad i gau'r Gwasanaeth yn annidwyll. Effaith gweithredoedd HSBC yw gwthio siaradwyr Cymraeg allan mewn ffordd lechwraidd. Mae awgrymu bod y penderfyniad i gau'r Gwasanaeth oherwydd gostyngiad yn y defnydd ohono yn camliwio'r ffeithiau. O ganlyniad i hy, byddem yn ailadrodd mor gryf â phosibl ein galwadau i HSBC ailstyried y penderfyniad i gau'r Gwasanaeth.

Diogelu a chefnogi cwsmeriaid sy'n agored i niwed

Mynegodd ein Pwyllgor bryderon hefyd am yr angen i ddiogelu a chefnogi cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn sgil y penderfyniad i gau'r Gwasanaeth. Cawsom wybod bod dyletswydd i ofalu am gwsmeriaid sy'n agored i niwed, a bod HSBC wedi nodi bod 85 o'i gwsmeriaid presennol yn cael eu hystyried yn "agored i niwed". Dywedwyd wrthym hefyd y cysylltir â'r cwsmeriaid hyn cyn y newid ym

mis Ionawr 2024. Rydym yn croesawu'r camau rhagweithiol y mae'r banc wedi'u cymryd yn hyn o beth, ond mae gennym nifer o bryderon o hyd.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai HSBC amlinellu sut y mae'n penderfynu a yw cwsmer yn "agored i niwed" ai peidio. Mae gan y banc tua 600,000 o gwsmeriaid yng Nghymru, a dim ond 85 o'r rhain sydd wedi cael eu nodi'n rhai sy'n "agored i niwed". Mae hyn yn 0.01 y cant o sylfaen cwsmeriaid y banc yng Nghymru. Mae hwn yn ymddangos yn ffigur arbennig o isel, o'i gymharu â'r data a ddarparwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.¹ O ystyried yr effaith anochel y bydd y penderfyniad i gau'r Gwasanaeth yn ei chael ar gwsmeriaid sy'n agored i niwed, byddem yn croesawu cael sicrwydd pellach gan HSBC bod y cwsmeriaid hyn yn cael eu nodi'n gywir, a'u cefnogi yn unol â hynny.

Rydym o'r farn bod aros tridiau i gael galwad yn ôl yn rhy hir. Yn ein barn ni, nid yw hyn yn cyd-fynd ag HSBC yn gweithredu gyda lefel briodol o ofal, yn enwedig ar gyfer cwsmeriaid sy'n agored i niwed nad ydynt efallai'n gallu cael mynediad at wasanaeth bancio mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, pe bai gan gwsmer o'r fath fater brys yn ymwneud â bancio, megis talu bil ynni, neu ddatrys cosb ariannol ar gyfrif, byddai aros tridiau i gael galwad yn ôl yn cael ei ystyried yn annerbyniol. Mewn sefyllfa o'r fath, byddem yn gofyn pa sicrwydd y gall HSBC ei roi na fyddai cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith dan anfantais, heb fod bai arnynt, oherwydd eu bod yn gorfod aros tridiau i gael galwad yn ôl.

Ar ben hyn, rydym yn poeni'n ddirfawr am y risg uwch i gwsmeriaid sy'n agored i niwed ddioddef niwed fel dwyn data neu sgamio. Byddem yn gofyn, er enghraifft, sut y bydd cwsmeriaid (yn enwedig cwsmeriaid sy'n agored i niwed) yn gwybod â phwy y maent yn siarad wrth dderbyn galwad yn ôl gan y banc. Hynny yw, pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau y bydd cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn gwybod mai HSBC sy'n galw, ac nid 'sgamiwr'? Os bydd y cwsmer yn colli'r alwad, beth fydd yn cael ei wneud am y mater, a sawl ymgais arall a wneir i'w galw? Byddem yn awgrymu y byddai'n fwy priodol trefnu amser ar gyfer galw rhywun yn ôl.

O ystyried y pryderon a amlinellwyd gennym, nid ydym wedi cael y sicrwydd sydd ei angen i fod yn hyderus bod y penderfyniad i gau'r Gwasanaeth yn briodol neu'n ddiogel, yn enwedig i gwsmeriaid sy'n agored i niwed. Fel Pwyllgor, nid yw eich atebion wedi ein hargyhoeddi bod senarios posibl o'r fath wedi cael ystyriaeth ddigonol gan HSBC. Mae hyn yn dangos diffyg empathi sylweddol ar ran y banc.

Credwn fod rhaid gwneud ymdrechion ar frys i sicrhau nad yw cwsmeriaid sy'n agored i niwed dan anfantais o'u cymharu â chwsmeriaid eraill sy'n ei chael yn haws defnyddio dulliau eraill i fancio. O'r herwydd, fel yr ydym ni ac eraill wedi'i nodi, byddem yn ymbil ar HSBC i newid ei benderfyniad i gau'r Gwasanaeth presennol. Wedi dweud hynny, ac o ystyried nad yw'r banc wedi dangos unrhyw arwydd

¹ [Ym mis Hydref 2022, roedd gan 52 y cant o oedolion y DU nodweddion sy'n golygu eu bod yn agored i niwed, i fyny o 46 y cant ym mis Chwefror 2020, Financial Lives Survey yr FCA 2020.](#)



hyd yma ei fod wedi gwranddo ar alwadau o'r fath, gofynnwn i'r newidiadau canlynol gael eu cyflwyno ar gyfer cwsmeriaid sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau eu diogelwch:

- Gwarant y byddant yn derbyn galwad yn ôl yn Gymraeg o fewn un diwrnod busnes;
- Gwarant y bydd amser yn cael ei drefnu ymlaen llaw ar gyfer galwad yn ôl;
- Gwarant y byddant yn cael o leiaf tair galwad yn ôl os nad atebir yr alwad gyntaf yn ôl;
- Gwarant y bydd cwsmeriaid sy'n agored i niwed nad ydynt yn bodloni'r gofynion diogelwch i gael galwad yn ôl gan y banc yn cael cymorth arbenigol ychwanegol gan y banc.

Byddai'r newidiadau hyn o leiaf yn gwneud rhywfaint i ddangos bod HSBC o ddifrif ynghylch ei ddyletswydd i gadw'r cwsmeriaid hyn yn ddiogel.

Gwasanaethau digidol dwyieithog

O ran gwasanaethau bancio digidol, nodwyd y canlyol:

"...about 97 per cent of...transactions today are done digitally, either in the app or on internet banking."

Roeddem yn cwestiynu hefyd pam nad yw ap bancio HSBC ar gael yn Gymraeg. Mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, dywedwyd wrthym nad yw pethau *"...as simple as translating the app"*. Clywsom mai'r rhesymau am hyn yw:

"...most of the screens that you see and most of the services behind an app and internet banking come from different parts and different systems across the bank... at the moment, we have no plans to create the capability for multilanguage within the UK infrastructure. It would be quite a significant investment and change in the technology set-up for us."

Cawsom gadarnhad, fodd bynnag, fod ap bancio HSBC ar gael mewn gwahanol ieithoedd ar draws y byd.

Ni chawsom ein hargyhoeddi gan y rhesymau dros pam nad oedd modd creu fersiwn Gymraeg o ap bancio HSBC. Fel yr amlinellwyd, mae'n wir bod modd gwneud hyn, ond ymddengys fod HSBC wedi dewis peidio â gwneud y buddsoddiad hwn yn y Gymraeg. Fel yn achos anallu'r banc o ran ateb galwadau siaradwyr Cymraeg eu hiaith, rydym yn pryderu bod ymagwedd y banc at newid technolegol hefyd yn wael a'i fod yn dangos diffyg parch llwyr at ei gwsmeriaid o ran eu hanghenion.

Er gwaethaf hyn, credwn fod cyfle bellach i HSBC ddatgan drachefn ei ymrwymiad i Gymru a'r Gymraeg drwy drawsnewid yr hyn a gynigir gan ei wasanaethau bancio digidol. Byddem yn annog HSBC i ymrwymo i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i wella'r hyn a gynigir ganddo yn Gymraeg,

er mwyn cefnogi'n well y 600,000 o gwsmeriaid y banc yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys darparu fersiwn Gymraeg o'r ap bancio. Byddem yn annog HSBC yn gryf i ystyried y mater hwn.

I gloi, ymbiliwn ar HSBC i newid ei benderfyniad i gau'r Gwasanaeth Cymraeg ym mis Ionawr 2024. Mae **gwerthoedd HSBC ei hun** yn datgan:

We were born speaking different languages....The greater our empathy and diversity, the better we reflect the worlds of our customers and communities...

Cawsom ein geni yn siarad ieithoedd gwahanol yng Nghymru, ac rydym yn dal i fyw a siarad ynddynt. Mae'n hollbwysig, i'r rhai yng Nghymru sy'n agored i niwed yn anad neb, nad yw pobl o dan anfantais o orfod aros tridiau i gael siarad ag asiant yn Gymraeg. Fel yr ydym wedi'i amlinellu dro ar ôl tro yn y llythyr hwn, ymbiliwn ar HSBC i ailystyried ei benderfyniad ac ystyried ei eiriau ei hun bod y banc yn adlewyrchu yn well y byd sydd ohoni i gwsmeriaid a chymunedau.

Pe bai sefyllfa bresennol y banc yn aros yn ddigyfnewid, byddem yn annog HSBC i gymryd camau o ran y newidiadau yr ydym wedi'u hamlinellu yn y llythyr hwn. Bydd methu â gwneud hynny i bob pwrpas yn golygu bod ymrwymadau HSBC i Gymru a'r Gymraeg yn ddiystyr.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





José Carvalho

Head of Wealth & Personal Banking, HSBC UK Bank plc

Delyth Jewell MS

Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

Via email: SeneddCulture@senedd.wales

21 December 2023

Dear Chair,

Thank you for your letter of 11 December 2023 with further questions following the oral evidence I gave to the Committee on 29 November 2023.

I have taken each of your points in turn, which I hope provide helpful insight.

Number of users of the Welsh Language Service

In the period April22-March23 we received an average of 22 calls per day into our Welsh Service Line. As part of our decision-making process, we reviewed historic call volumes to understand the trend. Naturally, there was some fluctuation over the course of the pandemic, but between 2019 and 2023 we have seen a 41% decrease in calls into the line.

We would be grateful if HSBC could outline how it determines whether or not a customer is “vulnerable”.

We will be calling 85 customers who we have deemed to be vulnerable. These 85 have been identified from the 1676 unique users of the Welsh Service Line, rather than from c.600,000 customers in Wales. The customers we will be calling have been identified based on those who call more than twelve times a year and are not digitally active, and those for whom we already hold care markers.

What assurances can HSBC provide that Welsh speaking customers would not be at a disadvantage, through no fault of their own, because of the three-day wait for a call-back.

We will always attempt to assist our customers at first point of contact when they call, albeit this will be in English. As part of our review, we will look into individual circumstances to understand whether the call-back service caused any issues.

A guarantee that they will receive a Welsh language call-back within one business day.

We cannot guarantee a call-back within one working day. The maximum waiting time for this replacement call-back will be three working days, although we will endeavour to call as soon as possible. We do not want to promise something on which we cannot deliver.

HSBC UK Bank plc

1 Centenary Square, Birmingham, B1 1HQ

Registered in England number 9928412. Registered Office: 1 Centenary Square, Birmingham, B1 1HQ

Authorised by the Prudential Regulation Authority and regulated by the Financial Conduct Authority and the Prudential Regulation Authority

Tudalen y pecyn 169

A guarantee that a pre-arranged time will be provided for a call-back.

On a first attempt to call a customer, if they answer but it is not a convenient time to speak, we will arrange a time and date with them to call back, Monday-Friday 0900-1700. Should they not answer, we will leave a voicemail and send an email, if we hold the information for the customer. In that email we will invite the customer to reply with a date and time that is convenient for them to speak, Monday-Friday 0900-1700.

A guarantee that they will receive a minimum of three call-backs should the first call-back not be answered.

After 15 January 2024, when a customer calls the Welsh Service Line number, they will be redirected to our main English-speaking menu. If the customer wishes to speak in Welsh, the agent will send an internal message requesting a call-back. The maximum waiting time for this replacement call-back will be three working days, although we will endeavour to call as soon as possible. Whilst this service is new, and customers are adapting, we will make five attempts across three working days for the first three months. This is to ensure we make as much effort as possible to contact the customer. After three months, we will review contact rates and adjust our approach accordingly. We will also send an email and leave a voicemail each time we call, if we hold this information for the customer. If, after three working days with five attempts, we are still unable to reach a customer, no further attempts will be made unless a new referral is generated.

A guarantee that vulnerable customers who cannot fulfil the security requirements for a call-back from the bank will be given additional specialist support from the bank.

I cannot go into detail of our security procedures, but we ensure all customers have security credentials, so we know the customer is who they say they are in order to meet our regulatory obligations.

The HSBC banking app is available in different languages across the world.

Our international online banking offering varies significantly between the markets in which we operate. For the majority of markets, English is the only option offered. In Malaysia and the Philippines, for example, where several minority languages are spoken, online banking and the app are only offered in English. Similarly, in Argentina, where the national language is Spanish, and English is a minority language, we only offer online banking in Spanish with no English alternative.

Additionally, in the session I committed to write back on the following points:

Banking hubs

Cash Access UK have announced the creation of seven banking hubs in Wales; two opened in 2023 (Prestatyn and Welshpool) and five will open in 2024 (Porthcawl, Treorchy, Risca, Abergele, and Abertillery). We have committed a community banker to each of them.



Customer communications

We will be writing to all users of the line again, in Welsh and in English, week commencing 18 December 2023. In this letter, we will restate the replacement call-back option open to customers, as well as alternate ways of banking with Welsh language support. For example, some of our branches continue to offer a Welsh translation service, have Welsh speaking staff, and we will still reply to any Welsh correspondence in Welsh. This is additional to the English language options to bank at the Post Office, banking hubs, and our branch and telephony services. As well as in the customer letter, the replacement call-back service will be advertised in branch through posters and branch radio, and added to our current Welsh webpage, found [here](#).

Review

As I mentioned to the Committee, we will be conducting a review of the volumes of call-back requests received, in 2Q24, to assess customer demand and how the replacement service is functioning, including through customer feedback. I am committed to our Consumer Duty obligations of providing good outcomes for our customers. I will provide a written update to the Committee after this review is complete.

I hope you find the above information useful. Please let me know if I can be of further help.

Kind regards,

A handwritten signature in black ink that reads "José Carvalho". The signature is written in a cursive style.

José Carvalho

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

11 Rhagfyr 2023

Camau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gofynion y Gymraeg ar gyfer bancio

Annwyl Jeremy

Byddwch yn ymwybodol y siaradodd y Pwyllgor â José Carvalho, Pennaeth Cyfoeth a Bancio Personol yn HSBC UK yn ei **gyfarfod** ar 29 Tachwedd 2023, a hynny mewn perthynas â phenderfyniad HSBC i gau ei linell ffôn i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith. Rydym yn ymwybodol o'ch pryderon am benderfyniad y banc.

Fel y gwelwch o'r **llythyr** yr ydym wedi'i anfon at HSBC, rydym wedi dweud wrthynt:

*"...bydd methu â gwneud hynny [newid ei safbwynt] yn golygu bod ymrwymadau
HSBC i Gymru a'r Gymraeg i bob pwrpas yn ddiystyr."*

Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth gyda HSBC, hoffem ofyn i chi amlinellu pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried eu cymryd i annog a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector bancio. Byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu'r camau hyn, yn ogystal â sut y bydd Llywodraeth Cymru a chyrrff partner yn ceisio annog a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sectorau eraill sydd y tu hwnt i gwmpas Mesur 2011. Ein bwriad fydd ystyried y pwyntiau hyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Yn gywir





Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Ian Stuart
Prif Weithredwr HSBC UK

Oliemata O'Donoghue
Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyfoeth a Bancio Personol
HSBC UK

Claudia Evans
Rheolwr Polisi Cyhoeddus
HSBC UK

21/12/2023

Annwyl Ian Stuart,

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – Senedd Cymru

Yn dilyn ymddangosiad eich Pennaeth Cyfoeth a Bancio Personol, José Carvalho, o flaen Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru ar [29 Tachwedd 2023](#), mae Delyth Jewell, Cadeirydd y Pwyllgor wedi ysgrifennu [llythyr](#) dyddiedig 11 Rhagfyr 2023, at HSBC UK. Yn y llythyr mae'n cyfeirio at wasanaethau digidol HSBC UK ac yn nodi:

'Er gwaethaf hyn, credwn fod cyfle bellach i HSBC ddatgan drachefn ei ymrwymiad i Gymru a'r Gymraeg drwy drawsnewid yr hyn a gynigir gan ei wasanaethau bancio digidol. Byddem yn annog HSBC i ymrwymo i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i wella'r hyn a gynigir ganddo yn Gymraeg, er mwyn cefnogi'n well y 600,000 o gwsmeriaid y banc yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys darparu fersiwn Gymraeg o'r ap bancio. Byddem yn annog HSBC yn gryf i ystyried y mater hwn.'

Fel gwyddoch rwyf wedi cynnal cyfarfod gyda'ch swyddogion yn ddiweddar, ac wedi mynegi fy mhryderon innau hefyd am y sefyllfa bresennol. Cafwyd cyfle yn y cyfarfod hwnnw i gyfnewid safbwyntiau, ond byddwch yn deall fy mod yn parhau yn awyddus i sicrhau bod HSBC, ac yn wir y sector bancio yn gyffredinol, yn deall y cyd-destun ieithyddol yng Nghymru, ac yn datblygu gwasanaethau cyfoes i siaradwyr Cymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg

Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Welsh Language Commissioner

Unit 2, Block C
Victoria Dock
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.cymru
Correspondence welcomed in Welsh and English



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Byddwn yn ddiolchgar pe byddai modd i ni gyfarfod i drafod hyn ymhellach, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor. Os gwelwch yn dda a allwch chi gysylltu gyda Mathew Thomas, Uwch Swyddog Hybu mathew.thomas@cyg-wlc.cymru i drefnu dyddiadau ac amseroedd posibl inni gwrdd?

Yn gywir,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: Delyth Jewell – Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – Senedd Cymru

Joanne Watkin-Jones – HSBC UK

Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Paul Davies AS

Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Delyth Jewell AS

Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

19 Rhagfyr 2023

Annwyl Gadeiryddion,

Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd yn ystyried effaith gyfansoddiadol materion allanol Cymru, gan gynnwys llywodraethiant a gweithredu cytundebau rhwng y DU a'r UE.

Yn ddiweddar gwnaethom gynnal ymchwiliad byr i lywodraethiant y DU a'r UE i adeiladu ar ein canfyddiadau cynnar ar rôl a chynrychiolaeth Llywodraeth Cymru a'r Senedd mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit, fel y nodwyd yn ein tystiolaeth a [gyflwynwyd i Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi](#) ym mis Hydref 2022.

Oherwydd y gwaith y mae eich Pwyllgorau yn eu gwneud o fewn eich cylch gwaith mewn perthynas â chytundebau rhwng y DU a'r UE, cytunwyd i dynnu eich sylw at ein [adroddiad](#) ar yr ymchwiliad.



Er gwybodaeth, rydym yn bwriadu cynnal dadl ar yr adroddiad ar 21 Chwefror 2024.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd



Helgard Krause

Prif Weithredwr

Cyngor Llyfrau Cymru

13 Rhagfyr 2023

Model ariannu cylchgronau

Annwyl Helgard,

Yn ein cyfarfod Pwyllgor ar 16 Tachwedd 2023, gwnaethom ystyried llythyr gan Wales Arts Review am fodel ariannu cylchgronau Cyngor Llyfrau Cymru. Mae hyn yn dilyn llythyr arall y cawsom dros yr haf gan dîm ymgyrch Achub Cylchgronau Cymreig am danariannu cronig yn y sector.

Fodd bynnag, mae difrifoldeb y sefyllfa yn fwy dwys ers cyhoeddi'r rhai fydd yn derbyn grant ar gyfer cyfnodolion diwylliannol Saesneg ar gyfer 2024-28 ar 7 Rhagfyr 2023. Nodwn eisoes fod Bwrdd Cylchgrawn Planet wrthi'n ystyried ei opsiynau yn dilyn y penderfyniad i beidio â pharhau i ddarparu cymorth grant iddo.

Ar ôl ystyried y materion hyn, hoffem ofyn y canlynol:

- A allwch chi egluro pam mae cylchgronau Cymraeg yn cael cyfran sylweddol uwch o gyllid o gymharu â chylchgronau Saesneg? Roedd y grant ar gyfer cylchgronau Cymraeg yn £388,875 yn 2023 o gymharu â £147,900 ar gyfer cylchgronau Saesneg. Mae'r ddau ffigur wedi gostwng o 2022.
- Pa drafodaethau y mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi'u cael am newidiadau i'r sector cylchgronau yng Nghymru? O ystyried bod lefelau ariannu wedi bod yn sefydlog yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, pa newidiadau yr ydych wedi ystyried eu cyflwyno?

- Pa adolygiad o'r model cyllido, canllawiau neu gylch gorchwyl ymgeisio y mae'r Cyngor Llyfrau wedi'i wneud yn ystod y pum mlynedd diwethaf? A oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r rhain yn y dyfodol agos?
- Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi amlinelliad o pam yr ydych wedi gwneud y penderfyniadau sydd gennych o ran cyfnodolion diwylliannol Saesneg. Er enghraifft, y broses y gwnaethoch ei dilyn, y meini prawf a nodir ar gyfer ymgeiswyr am grant, sut y bu ichi feincnodi'r holl geisiadau a dderbyniwyd yn erbyn meini prawf o'r fath, a'r penderfyniadau llawn yr ydych wedi'u gwneud yn hyn o beth.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

HK/MLW

20 Rhagfyr 2023

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Delyth Jewell

Parthed: Model Ariannu Cylchgronau

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 13 Rhagfyr 2023 parthed model Cyngor Llyfrau Cymru i ariannu cylchgronau. Rydym yn falch o gael y cyfle i ateb y cwestiynau canlynol rydych wedi gofyn i ni eu hystyried:

- ***A allwch chi egluro pam mae cylchgronau Cymraeg yn cael cyfran sylweddol uwch o gyllid o gymharu â chylchgronau Saesneg? Roedd y grant ar gyfer cylchgronau Cymraeg yn £388,875 yn 2023 o gymharu â £147,900 ar gyfer cylchgronau Saesneg. Mae'r ddau ffigur wedi gostwng o 2022.***

Yn y flwyddyn ariannol hon (2023/24), mae'r grant Cymraeg yn cefnogi 15 theitl o gymharu â'r 6 theitl a gefnogir gan y grant Saesneg cyfatebol. Fel y gallech ddisgwyl, caiff hyn ei adlewyrchu yn y modd y dyrennir y gyllideb.

Mae'r ffigurau a ddyfynnwyd gennych chi wedi eu cymryd o'n hadroddiad ariannol blynyddol, sy'n adlewyrchu'r union daliadau a wnaed i'r cylchgronau. I'n galluogi ni i wneud y defnydd gorau o'r grant sydd ar gael mewn unrhyw flwyddyn benodol, ac i gefnogi cylchgronau mewn modd hyblyg, rydym o bryd i'w gilydd yn talu ffi chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol nesaf o flaen llaw, sy'n golygu bod y cyfnod o wneud y taliadau'n gallu amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall.

Y gyllideb flynyddol yw £380K ar gyfer grantiau i gylchgronau Cymraeg a £180K ar gyfer grantiau i gylchgronau Saesneg; yn gyffredinol, mae hyn yn adlewyrchu'r rhaniad yng nghyfanswm y grant sydd gan y Cyngor Llyfrau ar gyfer llyfrau a chylchgronau yn y ddwy iaith (£1.7m Cymraeg, £700K Saesneg). Er na chaiff y

dyraniad hwn ei ddiffinio yn ein Llythyr Dyfarnu Cyllid, ni fyddem yn dewis ei newid heb gael trafodaeth fanwl gyda'n cyllidwyr. Ni chafodd yr un o'r ddau grant ei ostwng o'r naill flwyddyn i'r llall.

Mae'r cyd-destun cyllido yn y ddwy iaith yn amrywio'n fawr oherwydd bod amodau'r farchnad yn gwbl wahanol. Yn fyd-eang, mae yna gannoedd lawer o gylchgronau llenyddol ar gael i awduron a darllenwyr Saesneg eu hiaith, gan adlewyrchu maint y maes cyhoeddi Saesneg yn gyffredinol. Mae ein grant ni'n sicrhau bod cylchgronau a chanddynt gynnwys a phersbectif sy'n benodol Gymreig ar gael i ddarllenwyr ac ysgrifenyddwyr, gan fod cyhoeddiadau prif-ffrwd yn ystyried bod deunydd yn ymwneud â Chymru'n faes *niche* sy'n annhebygol o gael sylw manwl mewn unrhyw le arall.

Mae amodau'r farchnad sy'n berthnasol i gylchgronau Cymraeg yn golygu mai ychydig iawn ohonynt fyddai'n debygol o fodoli pe na byddent yn derbyn arian cyhoeddus. Pwrpas y grant yw sicrhau'r amrywiaeth ehangaf bosibl o ran cynnwys a fformat, a gofalu bod darllenwyr o bob cefndir a diddordeb yn cael cynnig cynnwys a fformatau perthnasol.

- ***Pa drafodaethau y mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi'u cael am newidiadau i'r sector cylchgronau yng Nghymru? O ystyried bod lefelau ariannu wedi bod yn sefydlog yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, pa newidiadau yr ydych wedi ystyried eu cyflwyno?***

Mae'r Cyngor Llyfrau a'i Is-bwyllgorau yn gweithredu'n gyson i fonitro sefyllfa sector y cylchgronau yng Nghymru, ac yn trafod y sefyllfa'n rheolaidd yn ystod cyfarfodydd. Mae swyddogion yn cynnal cyfarfodydd cloriannu rheolaidd gyda rhai sy'n derbyn grantiau, a chaiff unrhyw broblemau sy'n wynebu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru eu trafod yn ystod y cyfarfodydd chwarterol a gynhelir gyda Llywodraeth Cymru, gyda galwadau cyson am ragor o arian i'r sector – yn enwedig yn dilyn cyfnod estynedig o ariannu segur yn erbyn cynnydd mewn costau a chodiad mewn chwyddiant.

Lle bynnag y bo cyfleoedd am arian ychwanegol yn codi, cynigir mynediad cyfartal i'r cylchgronau. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cylchgronau wedi derbyn arian o sawl ffrwd ariannu a gyfrannwyd gan Lywodraeth Cymru drwy Gymru Greadigol, yn cynnwys cyllid argyfwng yn y cyfnod ôl-Covid. Yn ogystal, mae'r Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd yn unig (£1.1M dros ddwy flynedd) wedi rhoi cyllid gwerth bron i £320K i'r sector cylchgronau yn ystod 2022–24. Aeth £260K o'r arian yma i gylchgronau Saesneg, sydd wedi gwneud defnydd adeiladol ac arloesol o'r cyllid.

Yn ystod rownd y tendr cyfredol roedd rhai cylchgronau, ond nid y cyfan, wedi cyflwyno'r achos nad oedd eu model busnes bellach yn gynaliadwy. Ni fyddai'r sefyllfa wedi newid hyd yn oed pe byddai modd cynyddu'r grant. O fewn canllawiau cyfredol y tendr, yn ogystal â chyd-destun y gyllideb, nid oedd y codiadau y gofynnwyd amdanynt yn bosibl. Tanlinellwyd

y dilema hwn ymhellach yn ystod y broses gyfweled, gan arwain at benderfyniad yr Is-bwyllgor mai'r defnydd gorau o arian cyhoeddus, wrth symud ymlaen, fyddai neilltuo £95K i un cylchgrawn Saesneg llenyddol newydd sbon yn canolbwyntio ar ffuglen a deunydd ffeithiol greadigol a chanddo fodel busnes dichonadwy yn sail iddo. Roedd yr ymgyrch gyhoeddus ddiweddar, a'r llythyr agored a luniwyd i gefnogi cylchgronau, wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch cynaliadwyedd a'r pwysau ar staff ac amodau gwaith. Mae'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi (Saesneg) o'r farn y bydd y tendr newydd hwn yn mynd beth o'r ffordd tuag at fynd i'r afael â'r pryderon hynny, tra'n darparu llwyfan newydd, cynaliadwy ar gyfer darllenwyr ac ysgriflenwyr Cymru. Bydd rhagor o wybodaeth am y cyfle newydd hwn ar gael ym mis Chwefror.

- ***Pa adolygiadau o'r model cyllido, canllawiau neu gylch gorchwyl ymgeisio y mae'r Cyngor Llyfrau wedi'u gwneud yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf? A oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r rhain yn y dyfodol agos?***

Yn ystod 2022, cyfarfu panel o'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi (Saesneg),* ynghyd â dau o arbenigwyr allanol (y naill a'r llall yn gyhoeddwyr cylchgronau bach, annibynnol) i gynnal trafodaeth gyffredinol ar gyd-destun tendr 2023. Aethant ati i gynhyrchu adroddiad oedd yn goleuo trafodaethau'r Is-bwyllgor a'r broses dendro ddilynol. Nid oes unrhyw fwriad i adolygu'r rhain yn y dyfodol agos, ond cynhelir adolygiad mewn da bryd ar gyfer y rownd drwyddedu nesaf a gynhelir yn 2027.

Gan y bydd proses dendro ar wahân ar gyfer y cyllid a fydd ar gael yn dilyn y penderfyniadau a wnaed yn ddiweddar, cynhyrchir canllawiau a chylch gorchwyl ymgeisio penodol ar gyfer y tendr newydd.

**(Caiff holl grantiau craidd y Cyngor Llyfrau, ar gyfer llyfrau a chylchgronau fel ei gilydd, yn Gymraeg a Saesneg, eu dyrannu gan ddau Is-bwyllgor o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, un i bob iaith, sy'n cynnwys arbenigwyr allanol annibynnol ymhlith eu haelodau.)*

- ***Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi amlinelliad o pam yr ydych wedi gwneud y penderfyniadau sydd gennych o ran cyfnodolion diwylliannol Saesneg. Er enghraifft, y broses y gwnaethoch ei dilyn, y meini prawf a nodir ar gyfer ymgeiswyr am grant, sut y bu ichi feincnodi'r holl geisiadau a dderbyniwyd yn erbyn y meini prawf o'r fath, a'r penderfyniadau llawn yr ydych wedi'u gwneud yn hyn o beth.***

Fel y nodwyd uchod, mae'r cyllid sydd ar gael i gyfnodolion diwylliannol Saesneg yn adlewyrchu'r rhaniad cyffredinol yn y modd y dyrennir y grant rhwng y ddwy iaith. Ni dderbyniodd y Cyngor Llyfrau gynnydd yn ei grant craidd; oherwydd hynny, nid oedd modd cynyddu grantiau unigol o fewn y portffolio heb effeithio'n andwyol ar ffrydiau ariannu eraill sydd lawn mor bwysig.

Roedd Cynllun Strategol cyfredol 5-mllynedd y Cyngor Llyfrau, fel y cytunwyd arno gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a Llywodraeth Cymru, yn goleuo'r broses hon – fel sy'n digwydd yn achos ein holl brosesau. Ymhlith pethau eraill, mae'r strategaeth yn gofyn i ni wneud y canlynol:

- annog a gwobrwyo cymryd risg ac arbrofi, yn enwedig lle mae yna fylchau y gellir eu nodi;
- archwilio a herio pŵer y sawl sydd mewn sefyllfa o ddylanwad;
- [cefnogi] modelau busnes sy'n hyblyg ac ystwyth, ac nad ydynt yn dibynnu'n llwyr ar grantiau i gyhoeddi cynnwys. (Adolygiad rheolaidd o hyfywedd ariannol y busnes i sicrhau mai dim ond busnesau cynaliadwy sy'n derbyn cyllid.)

Cafodd y rownd drwyddedu hon ei hysbysebu'n agored ac eang yng ngwanwyn 2023, gyda dyddiadau cau ym mis Awst (cam 1) a mis Hydref (cam 2). Roedd deiliaid cyfredol y trwyddedau'n ymwybodol o flaen llaw o'r amserlen hon gan ei bod yn cyfateb i ddiwedd cyfnod eu trwydded gyfredol.

Roedd y dogfennau ar gael ar-lein, ac maent yn parhau i fod ar gael yma: [Tenders | Cyngor Llyfrau Cymru](#)

Roedd y broses yn agored i ymgeiswyr newydd yn ogystal ag i ddeiliaid cyfredol y trwyddedau. Derbyniwyd ceisiadau gwerth £400K am gyfanswm grant o £180K. Rhoddwyd cyfweiliad i bump sydd eisoes yn dal trwyddedau, a chyfwelwyd pedwar o ymgeiswyr newydd.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb yn Aberystwyth dros ddau ddiwrnod. Mynychwyd hwy gan bob aelod o'r Is-bwyllgor heblaw dau, yn cynnwys un o Ymddiriedolwyr y Cyngor Llyfrau, ynghyd â'r ddau arbenigwr allanol oedd yn rhan o adolygiad 2022. Cadeiriwyd y Panel gan Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor, a'i wasanaethu gan bedwar o swyddogion y Cyngor Llyfrau.

Yn y cyfweiliadau, caniatwyd 45 munud i bob ymgeisydd a gofynnwyd set o 7 cwestiwn, yn adlewyrchu'r prif flaenoriaethau, i'r holl ymgeiswyr; roedd y cwestiynau'n cynnwys rhai'n ymwneud â chynaliadwyedd y modelau busnes, cynigion lliniaru yn wyneb y posibilrwydd o doriadau ariannol yn y dyfodol, amodau gwaith teg, gofalu am awduron a phynciau a dangynrychiolir, cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, a darparu cynnwys o safon uchel.

Cafodd y ceisiadau ysgrifenedig, a'r cyfweiliadau dilynol, eu gwerthuso yn erbyn y blaenoriaethau a osodwyd allan yn y canllawiau (gweler atodiad 1), a'u sgorio yn erbyn y meini prawf hynny. Seiliwyd penderfyniadau'r panel ar deilyngdod y cais a'r cyfweiliad, ac roeddynt yn cynnwys diwydrwydd dyladwy parthed dilysrwydd a chynaliadwyedd y model busnes i sicrhau gwneud y defnydd gorau posibl o arian cyhoeddus.

Llwyddodd y pedwar ymgeisydd isod i fodloni'r meini prawf hyn:

The Paper / Y Papur – £10,000 y flwyddyn ynghyd â grant cychwyn o £10,000 yn ystod 2023/24. Ar gyfer darparu llwyfan newydd i awduron iau sy'n cael eu tangynrychioli, gyda ffocws arbennig ar awduron o'r dosbarth gweithiol.

Poetry Wales – £25,000 y flwyddyn i ddarparu cylchgrawn barddoniaeth mewn print ac yn ddigidol.

Welsh Agenda – £25,000 y flwyddyn am gynnwys diwylliannol, yn cynnwys adolygiadau o lyfrau, a darparu llwyfan mewn print ac ar-lein ar gyfer y sector cyhoeddi yng Nghymru.

Nation.Cymru – £25,000 y flwyddyn am gynnwys diwylliannol, yn cynnwys adolygiadau o lyfrau, a darparu plattform digidol ar gyfer y sector cyhoeddi yng Nghymru, a hwnnw'n rhad ac am ddim yn y man defnyddio.

Derbyniodd tri allan o'r pedwar ymgeisydd llwyddiannus gynigion is nag yr oeddynt wedi ymgeisio amdanynt; fodd bynnag, roeddynt wedi paratoi cynnig lliniarol i addasu eu model, gan eu galluogi i dderbyn y cynigion a gyflwynwyd iddynt. Roedd pum ymgeisydd yn aflwyddiannus, a chyflwynwyd adborth iddynt, gyda rhai yn manteisio ar y cyfle i ofyn am eglurhad ychwanegol gan swyddogion y Cyngor Llyfrau.

Mae datblygiadau digidol yn dylanwadu'n gryf ar y modd y mae darllenwyr yn ymgysylltu â chynnwys, ac mae hyn wedi arwain at amgylchedd cyhoeddi sy'n newid yn gyson, yn enwedig yn achos cylchgronau. Mae galwad gyson, agored a chystadleuol am geisiadau yn cydnabod y sefyllfa hon; mae hi'n newid yn gyflym, ac yn diogelu'r defnydd gorau o arian cyhoeddus tra ar yr un pryd yn sicrhau bod y darllenwyr a'r awduron yn cael budd o amrywiaeth o lwyfannau, fformatau a chynnwys.

Edrychwn ymlaen at hysbysebu'r tendr newydd yn dilyn cyfarfod mis Chwefror o'r Is-bwyllgor Saesneg. Gobeithiwn ein bod wedi rhoi atebion manwl i'ch cwestiynau, ond mae croeso i chi gysylltu â ni ar unrhyw adeg pe byddech yn dymuno cael eglurhad pellach.

Gyda dymuniadau gorau,



HELGARD KRAUSE
Prif Weithredwr

Atodiad 1

MEINI PRAWF ASESU

Cloriennir y rhai sydd eisoes yn dal trwydded yn ôl eu record brofedig, eu cyflawniadau o fewn y drwydded ddiwethaf, a'u cynigion am y cyfnod ariannu nesaf. Cloriennir ceisiadau gan ymgeiswyr newydd a rhai sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd yn ôl y meini prawf cyffredinol canlynol:

- safon debygol y cynnwys a safonau golygyddol, ar sail rhifynnau blaenorol/ rhifynnau peilot/amlinelliad o'r cynnwys a'r polisi golygyddol a ddisgrifir yn y cais;
- ymrwymiad yr ymgeisydd i gefnogi tirlun cyhoeddi amrywiol a chynhwysol, o ran polisi golygyddol ac ar lefel bwrdd;
- ymrwymiad yr ymgeisydd i gefnogi datblygu sgiliau, er mwyn sicrhau ecosystem gyhoeddi iach;
- gallu'r ymgeisydd i ddigolledu cyfranwyr;
- parodrwydd yr ymgeisydd i gefnogi deunydd a allai ddenu ysgrifenyddwyr a darllenwyr newydd;
- safon debygol y dylunio a'r cynhyrchu, ar sail rhifynnau blaenorol/ rhifyn peilot/ brasgynllun;
- gallu'r cyhoeddwr i farchnata a dosbarthu'r cylchgrawn trwy Gymru a, lle y bo'n briodol, y tu hwnt i Gymru, ar sail cynllun marchnata manwl;
- gallu'r cyhoeddwr i gadw at amserlen gyhoeddi;
- eglurder swyddogaeth y cylchgrawn mewn perthynas â chylchgronau eraill. Bydd y Cyngor yn ystyried a fyddai cylchgrawn a gynigir yn debyg o lenwi bwlch yn y ddarpariaeth *neu* berfformio'n fwy effeithiol na chylchgrawn cyfredol;
- gallu'r ymgeisydd i ddenu nawdd, sbonsoriaeth a chyfraniadau o fath arall o ffynonellau eraill; ac amrywio ffynonellau refeniw;
- targedau gwerthiant ar gyfer cyfnod y drwydded (trwy danysgrifiadau a siopau);
- gwerth am arian;
- Y gallu i ddatblygu cynnwys mewn sawl fformat (e.e. print, y we, ap, e-rifyn ayb.).



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, Y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau
Rhyngwladol

Delyth.Jewell@senedd.cymru

17/11/2023

Annwyl Gadeirydd,

Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr

Heddiw rwyf yn cyhoeddi adroddiad ymchwil i brofiadau dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn ysgolion a cholegau addysg bellach ledled Cymru. Cyfrannodd dros 1,000 o bobl ifanc at yr ymchwil, sydd yn darparu dealltwriaeth werthfawr o'u barn a'u profiadau, gan gynnwys eu rhesymau dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg, eu barn am y ddarpariaeth a'u bwriad o safbwynt eu haddysg a'u gyrfaoedd yn y dyfodol.

Cyflwynir y prif ganfyddiadau isod ac atodir copi o'r adroddiad llawn er gwybodaeth i chi.

Prif ganfyddiadau'r ymchwil:

- Mae mwyafrif y siaradwyr Cymraeg dros 16 oed a holwyd mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn falch eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac yn ystyried yr iaith yn fantais ar gyfer eu rhagolygon gyrfaoel.
- Mae cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig i siaradwyr Cymraeg wrth ddewis man astudio, yn ogystal â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd pob dydd yr ysgol neu'r coleg.
- Mae mwyafrif y dysgwyr a holwyd mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn dweud bod eu profiad o addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn dda neu'n dda iawn.
- O'r siaradwyr Cymraeg sy'n bwriadu parhau â'u haddysg ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg, 40% yn unig sy'n bwriadu aros yng Nghymru. I siaradwyr Cymraeg sy'n bwriadu parhau i astudio yng Nghymru, bydd y cyfle i astudio yn Gymraeg neu yn ddwyieithog yn ffactor pwysig wrth ddewis eu man astudio nesaf.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

- Mae'r ymchwil yn amlygu gwahaniaethau rhwng dysgwyr ysgol a choleg, o ran eu canfyddiad o'u gallu yn y Gymraeg, cyfrwng iaith eu haddysg a'u hagweddau at bwysigrwydd y Gymraeg.
- Prif resymau dysgwyr dros beidio â dewis astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg oedd:
 - y canfyddiad bod eu sgiliau Saesneg yn gryfach a bod astudio trwy gyfrwng y Saesneg yn haws iddynt;
 - nad oedd pwnc (neu bynciau) ar gael yn Gymraeg;
 - y canfyddiad bod eu hastudiaethau pellach yn debygol o fod yn Saesneg neu fod gwell rhagolygon astudio yn Saesneg.

Daw'r adroddiad i'r casgliad y bydd angen ystyried yn ofalus sut mae cefnogi a chryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sector addysg ôl-16, yn enwedig yng nghyd-destun datblygu sgiliau iaith gweithlu'r dyfodol.

Gobeithiwn y bydd yr ymchwil hwn yn cyfrannu at ddatblygu ac ehangu addysg ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg, a thrwy hynny gynyddu cyfleoedd pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith mewn addysg a thu hwnt. Gobeithiwn felly gyfrannu at gyrraedd targedau strategaeth Cymraeg 2050.

Hyderwn y bydd yr adroddiad o ddiddordeb i chi a byddem yn croesawu cyfle i'w drafod ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: SeneddDiwylliant@senedd.cymru



Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: Ilais y dysgwyr

17 Tachwedd, 2023

Cipolwg ar y prif ganfyddiadau

- Mae mwyafrif helaeth y siaradwyr Cymraeg dros 16 oed a holwyd mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn falch eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac yn ystyried yr iaith yn fantais ar gyfer eu rhagolygon gyrfaol.
- Mae cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig i siaradwyr Cymraeg wrth ddewis man astudio, yn ogystal â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd pob dydd yr ysgol neu'r coleg.
- Mae mwyafrif helaeth y dysgwyr a holwyd mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn nodi bod eu profiad o addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn dda neu'n dda iawn.
- O'r siaradwyr Cymraeg sy'n bwriadu parhau â'u haddysg ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg, 40% yn unig sy'n bwriadu aros yng Nghymru. I siaradwyr Cymraeg sy'n bwriadu parhau i astudio yng Nghymru, bydd y cyfle i astudio yn Gymraeg neu yn ddwyieithog yn ffactor pwysig wrth ddewis eu man astudio nesaf.
- Mae'r ymchwil yn amlygu gwahaniaethau rhwng dysgwyr ysgol a choleg, o ran eu canfyddiad o'u gallu yn y Gymraeg, cyfrwng iaith eu haddysg a'u hagweddau at bwysigrwydd y Gymraeg.
- Prif resymau dysgwyr dros beidio â dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg oedd: y canfyddiad bod eu sgiliau Saesneg yn gryfach a bod astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn haws iddynt; nad oedd pwnc (neu bynciau) ar gael yn Gymraeg; fod eu hastudiaethau pellach yn debygol o fod yn Saesneg neu fod gwell rhagolygon astudio yn Saesneg, yn eu tyb hwy.

Cyflwyniad

Mae gan y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol rôl cwbl allweddol wrth sicrhau dilyniant ieithyddol i ddysgwyr. Dyma'r cyfnod sy'n pontio addysg statudol a'r byd gwaith, ac mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at y nod o greu siaradwyr Cymraeg tymor hir.

Bwriad yr ymchwil hwn oedd dysgu am farn a phrofiadau dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn ysgolion a cholegau addysg bellach ledled Cymru. Y nod oedd darganfod beth oedd eu rhesymau dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg, eu barn am y ddarpariaeth a'u bwriad o safbwynt eu haddysg a'u gyrfaedd yn y dyfodol.

Sampl

Defnyddiwyd samplu pwrpasol er mwyn cael adborth gan bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau addysg bellach sydd yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog. Cysylltwyd ag ysgolion a

cholegau addysg bellach mewn trawstoriad o ardaloedd a holwyd y dysgwyr trwy holiadur ar lein ddechrau 2023. Ymatebodd 1063 o unigolion o 37 sefydliad addysg gwahanol, gan gynnwys pum coleg addysg bellach a 32 ysgol. Roedd 637 o'r ymatebwyr yn ddysgwyr Blwyddyn 12 neu 13 mewn ysgolion, a 426 yn mynychu colegau addysg bellach. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu gallu yn y Gymraeg, ar raddfa pum pwynt, a gwelir eu hymateb yn Ffigur 1 isod.

Gan mai pwrpas yr holiadur oedd casglu barn a phrofiadau dysgwyr oedd yn debygol o dderbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r drafodaeth isod, mewn nifer o achosion, yn canolbwyntio ar ymateb y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn unig. Mae hyn hefyd yn caniatáu cymhariaeth decach rhwng canlyniadau dysgwyr ysgol a choleg.


Ffigur 1: Canfyddiad dysgwyr o'u gallu yn y Gymraeg

	Cyfanswm	Ysgol	Coleg
Rwy'n rhugl yn y Gymraeg	70%	93%	35%
Rwy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg	9%	5%	15%
Rwy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg	8%	0%	20%
Rwy'n gallu dweud ychydig o eiriau yn unig	8%	0%	19%
Dydw i ddim yn gallu siarad Cymraeg	4%	0%	10%

Cyfrwng iaith astudio

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa bynciau roeddent yn eu hastudio, ac ym mha iaith roeddent yn astudio'r pynciau hynny.

Ffigur 2: Canran y pynciau y mae siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy gyfrwng y Saesneg, neu yn ddwyieithog




O ystyried yr holl siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, gwelir eu bod yn astudio 61% o'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. O gymharu dysgwyr ysgol a choleg â'i gilydd, fodd bynnag, gwelir bod gwahaniaeth mawr rhwng y pynciau y mae siaradwyr ysgol yn eu hastudio drwy

gyfrwng y Gymraeg (72%) a'r ganran yr oedd dysgwyr coleg yn eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg (4%). Roedd gwahaniaeth mawr hefyd rhwng y ddwy garfan o safbwynt canran y pynciau yr oeddent yn eu hastudio drwy gyfrwng y Saesneg. Roedd 33% o'r siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn astudio pob un o'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn gyfystyr â 44% o'r dysgwyr ysgol ac 1% yn unig o'r dysgwyr coleg a ymatebodd i'r holiadur, sy'n wahaniaeth amlwg arall rhwng y ddwy garfan.

Ceir cyd-destun i'r canlyniadau uchod yn ystadegau Llywodraeth Cymru ar weithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg ôl-16 yn ystod 2021–22.¹ Y flwyddyn honno roedd 15.2% o weithgareddau chweched dosbarth mewn ysgolion, a 0.2% yn unig o weithgareddau sefydliadau addysg bellach, yn rhai cyfrwng Cymraeg. O gymharu gweithgareddau a labelwyd yn rhai dwyieithog, gwelwn mai 5.9% o weithgareddau chweched dosbarth mewn ysgolion oedd yn y categori hwnnw a 3.7% o weithgareddau sefydliadau addysg bellach.

Gofynnodd yr holiadur i'r siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, nad oedd yn astudio pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, am eu rhesymau dros beidio â gwneud hynny. Daeth tri phrif ateb i'r amlwg.


Ffigur 3: Tri rheswm mwyaf cyffredin siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg dros beidio ag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg



- Canfyddiad bod eu sgiliau Saesneg yn gryfach a bod astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn haws iddynt
- Nid yw'r pwnc/pynciau ar gael yn Gymraeg
- Canfyddiad bod astudiaethau pellach yn debygol o fod yn Saesneg neu fod gwell rhagolygon astudio yn Saesneg

Gofynnwyd i'r siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg a fyddai'n well ganddynt astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, neu yn ddwyieithog.

Ffigur 4: Dewis cyfrwng iaith delfrydol siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg




¹ Ceisiadau ystadegol ad-hoc: 19 i 30 Mehefin 2022. Tudalen y pecyn 190

Mae'r ffaith fod dros hanner y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn nodi eu bod yn ffafrio addysg ddwyieithog yn codi cwestiynau pellach. Er enghraifft, beth yw ystyr addysg ddwyieithog i'r dysgwyr hynny? Gall addysg ddwyieithog amrywio yn sylweddol o safbwynt sut a phryd o defnyddir y ddwy iaith. Gall deilliannau'r addysg honno amrywio yn sylweddol hefyd, yng nghyd-destun cyrhaeddiad dysgwyr yn y ddwy iaith a'r dystiolaeth mai addysg cyfrwng Cymraeg sydd fwyaf tebygol o sicrhau fod gan ddysgwyr sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n bwysig ystyried y canlyniadau hyn yng nghyd-destun barn dysgwyr am bwysigrwydd y Gymraeg iddynt. Rhaid trin yr ystadegau hyn yn ofalus felly a gwneud ymchwil pellach gyda dysgwyr ôl-16 er mwyn darganfod beth yw ystyr addysg ddwyieithog iddynt.

Rhesymau dros ddewis man astudio


Ffigur 5: Rhesymau mwyaf cyffredin dysgwyr dros ddewis eu man astudio



Mae'r ffigur uchod yn dangos rhai gwahaniaethau diddorol rhwng dysgwyr ysgol a cholegau addysg bellach, yng nghyd-destun eu rhesymau dros ddewis eu man astudio. Er enghraifft, mae iaith y dysgu yn ffactor a nodwyd gan bum gwaith mwy o ddysgwyr ysgol nag o ddysgwyr coleg. Gwelir hefyd fod y dewis neu amrywiaeth o bynciau yn ffactor a nodwyd gan dros hanner y dysgwyr coleg, o'i gymharu â thraean y dysgwyr ysgol.


Gofynnwyd i'r sampl pa mor bwysig oedd hi iddynt bod yr ysgol neu'r coleg a ddewiswyd ganddynt yn cynnig cyfle i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. I 65% o siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, roedd argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn bwysig iawn neu'n bwysig wrth ddewis man astudio. Ymhlith y dysgwyr ysgol, roedd hyn yn wir am 73% o siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, o'i gymharu â'r ffigur cyfatebol o 41% ar gyfer dysgwyr colegau addysg bellach. Gwelir eu hymateb isod.

Ffigur 6: Pwysigrwydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg i siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg wrth ddewis man astudio



Gofynnwyd hefyd am bwysigrwydd cyfleoedd eraill i ddefnyddio'r Gymraeg a gwelir ymateb y dysgwyr isod.


Ffigur 7: Canran y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg oedd yn nodi bod y materion isod yn bwysig iddynt wrth ddewis man astudio




Profiadau a barn ynghylch addysg Gymraeg neu ddwyieithog

Gofynnwyd i'r dysgwyr ddisgrifio eu profiad o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog, a gwelir eu hymateb isod.

Ffigur 8: Profiad siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg mewn ysgolion




Ffigur 9: Profiad siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg mewn colegau



Roedd 90% o siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg oedd yn mynychu ysgolion yn dweud fod eu profiad yn dda neu yn dda iawn. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer colegau addysg bellach oedd 80%. Ar gyfer dysgwyr ysgol a cholegau addysg bellach, y prif resymau dros nodi bod eu profiad yn dda neu yn dda iawn oedd athrawon da, cefnogaeth dda a bod yr addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardderchog.

Ffigur 10: Ysgolion a cholegau addysg bellach sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, yn seiliedig ar ymarferiad mapio yn 2021



Gofynnodd yr holiadur i'r dysgwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad bod digon o gyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hardal. Roedd 60% yn cytuno neu yn cytuno'n gryf. Roedd cyfran yr ymatebion cadarnhaol yn amrywio yn ôl y rhanbarth lle roedd y dysgwyr yn astudio. Yng nghanolbarth Cymru roedd 78% o'r dysgwyr yn cytuno neu yn cytuno'n gryf gyda'r datganiad, a dylid nodi mai o orllewin y rhanbarth y daeth mwyafrif helaeth yr ymatebion. Yng ngogledd Cymru roedd 68% o'r dysgwyr yn cytuno neu yn cytuno'n gryf â'r datganiad. Yn ne-orllewin Cymru 57% oedd y gyfran ac yn ne-ddwyrain Cymru 47% o'r dysgwyr oedd yn cytuno neu yn cytuno'n gryf. Dengys y mapiau uchod leoliad yr ysgolion a'r colegau addysg bellach yng Nghymru sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Gwelir bod prinder amlwg darpariaeth ôl-16 mewn sawl ardal.

Defnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â nifer o ddatganiadau am ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol a gwelir eu hymateb isod.


Ffigur 11: Canran y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg mewn ysgolion a cholegau oedd yn cytuno neu yn cytuno'n gryf â'r datganiadau isod

	Ysgol	Coleg
Rwy'n falch fy mod yn gallu siarad Cymraeg	96%	92%
Bydd gallu siarad Cymraeg yn fy helpu yn fy ngyrfa neu gyda fy rhagolygon swyddi	87%	80%
Rwy'n hyderus bod gennyf sgiliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn fy ngyrfa	93%	81%
Rwy'n hyderus y byddaf yn defnyddio'r Gymraeg yn fy ngyrfa	60%	58%


Roedd mwyafrif helaeth y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn falch eu bod yn gallu siarad Cymraeg ac yn ystyried eu sgiliau iaith o fantais iddynt yng nghyd-destun eu rhagolygon gyrfaol. Roedd canran uchel ohonynt yn hyderus yn eu sgiliau Cymraeg ar gyfer eu gyrfaeod ond, yn arwyddocaol, canran is oedd yn hyderus y byddent yn *defnyddio'r* sgiliau hynny. Mae hyn yn codi cwestiwn am ganfyddiad dysgwyr o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac yn awgrymu bod angen trafod hynny a chodi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt yn y dyfodol.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn bwriadu parhau â'u haddysg ar ôl gadael eu man astudio presennol ac a oeddent yn bwriadu gwneud hynny yng Nghymru:

Ffigur 12: Bwriadau siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg o safbwynt parhau â'u haddysg ar ôl gadael eu man astudio presennol




Ffigur 13: Bwriadau siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, sy'n dymuno parhau â'u haddysg, o safbwynt aros yng Nghymru



Gwelir mai 40% yn unig o ddysgwyr ysgol a choleg sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg sy'n bwriadu aros yng Nghymru. Ceir cyd-destun i'r ffigur hwn yn ystadegau Llywodraeth Cymru ar lif trawsffiniol myfyrwyr yn 2020/21.² Dengys yr ystadegau hyn fod 62% o fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig o Gymru wedi mynd i brifysgolion yng Nghymru, tra bod 37% wedi mynd i brifysgolion yn Lloegr. Yn yr un flwyddyn, aeth 95% o fyfyrwyr o Loegr i brifysgolion yn Lloegr ac aeth 95% o fyfyrwyr o'r Alban i brifysgolion yn yr Alban. Dengys hyn fod canran sylweddol o fyfyrwyr o Gymru yn gadael eu gwlad i astudio, o'i gymharu â sefyllfa myfyrwyr o Loegr a'r Alban.

Gofynnwyd i ymatebwyr yr holiadur sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl ac yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, ac a ddywedodd eu bod yn bwriadu parhau i astudio yng Nghymru, pa mor bwysig oedd gallu astudio yn Gymraeg neu yn ddwyieithog yn eu man astudio nesaf. Gwelir bod 79% o ddysgwyr ysgolion yn bwriadu parhau â'u haddysg ar ôl gadael yr ysgol. O'r 40% oedd yn bwriadu aros yng Nghymru, roedd 82% ohonynt, y mwyafrif helaeth, yn nodi bod gallu parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog yn bwysig iawn neu'n bwysig iddynt. Roedd 58% o siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg mewn colegau addysg bellach yn bwriadu parhau â'u haddysg ar ôl gorffen eu cwrs. O'r 40% o'r dysgwyr rhain oedd yn bwriadu aros yng Nghymru, roedd 68% yn ystyried bod gallu parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog yn bwysig iawn neu'n bwysig iddynt.

Ffigur 14: Barn siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg ynghylch pwysigrwydd gallu parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog yn eu man astudio nesaf



Prif ganfyddiadau ac ystyriaethau

Pwysigrwydd y Gymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg

- Mae'r canlyniadau yn dangos yn glir iawn bwysigrwydd y Gymraeg i ddysgwyr yng Nghymru. Mae mwyafrif helaeth y siaradwyr Cymraeg yn falch eu bod yn gallu siarad yr iaith (Ffigur 11). Maent hefyd yn nodi fod cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig wrth ddewis man astudio, yn ogystal â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd yr ysgol neu'r coleg a gyda'u ffrindiau (Ffigurau 6 a 7). Mae'r canfyddiadau hyn yn arwyddocaol yng nghyd-destun cynllunio darpariaeth ôl-orfodol yn y dyfodol.
- Cadarnhaol iawn hefyd oedd y neges glir gan fwyaf y dysgwyr ledled Cymru fod eu **profiad o addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn un da neu dda iawn** (Ffigurau 8 a 9).

Gwahaniaethau yn sefyllfa'r Gymraeg mewn ysgolion a cholegau

- Amlygodd yr ymchwil **wahaniaethau rhwng dysgwyr ysgol a choleg, o ran eu canfyddiad o'u gallu yn y Gymraeg, cyfrwng iaith eu haddysg a'u hagweddau at bwysigrwydd y Gymraeg.**
- Rhaid ystyried y gwahaniaethau yn y ddarpariaeth yn y ddau fath o sefydliad wrth ddehongli'r canlyniadau uchod, a hefyd wrth **ddatblygu polisïau ym maes addysg ôl-orfodol yn y dyfodol.**

Rhwystrau

- Mae angen ystyried ymhellach **resymau dysgwyr dros beidio â dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.** Mae **diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg**, yn enwedig mewn meysydd mwy galwedigaethol, yn anhawster y mae angen i'r sector ôl-16 fynd i'r afael ag ef. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau fod **digon o staff â sgiliau Cymraeg i addysgu holl ystod pynciau'r** cyfnod addysgol hwn. Mae'n bwysig cydnabod fod strategaeth Cymraeg 2050³ a'r *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg*⁴ â'r bwriad o fynd i'r afael â'r materion hyn.
- Fel mae Ffigur 3 yn ei awgrymu, mae **diffyg hyder dysgwyr yn eu sgiliau Cymraeg o'i gymharu â'u sgiliau Saesneg** yn fater i'w ystyried ymhellach yng nghyd-destun cyrhaeddiad ieithyddol dysgwyr o fewn y gyfundrefn addysg yng Nghymru. Yn gysylltiedig â hynny mae canfyddiad rhai dysgwyr mai sgiliau Saesneg fydd fwyaf manteisiol iddynt ar gyfer astudiaethau pellach. Mae hyn yn amlygu angen i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt i ddefnyddio eu Cymraeg wrth iddynt barhau â'u haddysg, a manteision gwneud hynny. Mae hefyd yn tanlinellu'r hyn a ddangosodd yr ymatebion i'r holiadur, sef bod llai na hanner y dysgwyr sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn bwriadu aros yng Nghymru (Ffigur 13).

Dwyieithrwydd

- Mae'r ffaith fod dros hanner y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn nodi eu bod yn ffafrio addysg ddwyieithog yn codi cwestiynau pellach ynghylch beth **yn union a olygir gan addysg ddwyieithog** (Ffigur 4).

³ [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr \(llyw.cymru\)](#)

⁴ [tuagatcymraeg2050.pdf \(colegcymraeg.ac.uk\)](#)

- Rhaid ystyried y materion uchod yng nghyd-destun **canfyddiad dysgwyr o bwysigrwydd y Gymraeg i'w gyrfaoedd ac i ba raddau mae gwahanol fodolau ieithyddol addysg yn debygol o ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen gan gyflogwyr yng Nghymru**. Fel y nodwyd uchod, gall deilliannau addysg ddwyieithog amrywio'n fawr yng nghyd-destun cyrhaeddiad dysgwyr yn y ddwy iaith, ac mae'n hysbys mai addysg cyfrwng Cymraeg sydd fwyaf tebygol o arwain at sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhaid sicrhau bod cyrhaeddiad ieithyddol pob dysgwr yn cael cefnogaeth gref ac ymarferol ar bob cam o'i addysg, ac mae angen **cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sector ôl-16 er mwyn cyflawni hynny**.

Cefnogi cynnydd a dilyniant

- Dywed Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru y 'bydd angen i bobl ifanc fod yn ymwybodol o fanteision parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle a phwysigrwydd defnyddio'r iaith yn gyson er mwyn cynnal rhuglder a hyder'.⁵ Bydd **cynyddu'r niferoedd sy'n astudio cymwysterau ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig er mwyn sicrhau dilyniant effeithiol o addysg statudol i addysg bellach a'r byd gwaith**.
- Mae'n amlwg bod siaradwyr Cymraeg yn ystyried eu sgiliau Cymraeg fel mantais iddynt yng nghyd-destun eu rhagolygon gyrfaol. Roedd canran uchel ohonynt yn hyderus yn eu sgiliau Cymraeg ar gyfer eu gyrfaoedd ond, yn arwyddocaol, **canran is oedd yn hyderus y byddent yn defnyddio'r sgiliau hynny** (Ffigur 11). Fel y trafodwyd uchod, mae hyn yn awgrymu fod angen trafod canfyddiad dysgwyr o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Amlygodd yr ymatebion hefyd **bwysigrwydd parhad darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog wrth i ddysgwyr symud ymlaen i astudiaethau pellach** (Ffigur 14). Mae'r canlyniadau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, sydd yn un o flaenoriaethau strategol Comisiynydd y Gymraeg. Mae angen ystyried hefyd a fyddai darparu rhagor o gyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn fodd o gynyddu'r niferoedd sy'n dewis parhau i astudio yng Nghymru a lleihau'r niferoedd o bobl ifanc sgilgar sy'n gadael y wlad.

Cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn y sector ôl-orfodol: edrych tua'r dyfodol

- Mae'r canlyniadau yn codi **cwestiynau arwyddocaol ynghylch sut mae cryfhau darpariaeth Gymraeg yn y sector ôl-orfodol a beth fydd cyfeiriad polisi cyhoeddus** yn y maes hwn. Mae'r cwestiynau hyn yn hynod amserol, o ystyried bod y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wrthi yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd.
- Cafwyd datblygiad pwysig yn 2017 pan gyhoeddwyd yr *Adolygiad o Weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol*, gan argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymestyn rôl y Coleg i fod yn gorff strategol cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws y sectorau addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.⁶ Yn dilyn hyn cyhoeddwyd y *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg* yn 2019. Seiliwyd y cynllun ar y weledigaeth y dylid galluogi pob dysgwr i gynnal neu ddatblygu ei sgiliau yn y Gymraeg. Mae'r cynllun yn gosod cyfrifoldebau clir ar nifer o bartneriaid dros y tymor byr, canol a hir mewn perthynas â chwe maes strategol allweddol, gan gynnwys cynyddu capasiti staffio, gwella darpariaeth ac ehangu adnoddau. Mae'r Coleg wedi sefydlu

⁵ [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr \(llyw.cymru\)](#)

⁶ [adolygiad-o-weithgareddau'r-coleg-cymraeg-cenedlaethol-boddy-ysg-yp-gorchwyl-a-gorffen.pdf \(llyw.cymru\)](#)

Bwrdd Strategol Ôl-16 sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r sefydliadau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr, a sicrhair bod lleisiau'r dysgwyr eu hunain hefyd yn cael eu clywed. Mae'r datblygiadau hyn i'w croesawu'n fawr ac mae angen cefnogi'r Coleg yn ei ymdrechion i sicrhau newidiadau pellgyrhaeddol yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg ôl-16.

- Ar lefel gyffredinol, rhaid i'r sector addysg ôl-16 weithredu'n gadarnhaol i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg pobl ifanc Cymru, ar bob lefel hyfedredd. Er mwyn gwneud hyn bydd **rhaid mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau amlwg sy'n atal rhai dysgwyr rhag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg** a sicrhau bod cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob math o sefydliad addysg ôl-16.
- Yn ogystal â chryfhau darpariaeth yn y sector addysg bellach, mae angen hefyd ystyried yn ofalus sut mae cefnogi ac adeiladu ar y ddarpariaeth lle mae ar ei chryfaf ar hyn o bryd. Ym mwyafrif ardaloedd Cymru, **mewn ysgolion mae'r ddarpariaeth honno ar ei chryfaf, ac mae angen rhoi ystyriaeth genedlaethol i beth fydd rôl ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn nhirwedd addysg ôl-orfodol y dyfodol**. Dylai hyn gynnwys cynllunio a chydweithio ar lefel ranbarthol rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach i sicrhau fod darpariaeth ddigonol ar gael ac yn cael ei hyrwyddo er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Mae'n hanfodol fod y cynllunio strategol hwn yn digwydd er budd y Gymraeg, ac yn atgyfnerthu'r ddarpariaeth gref sy'n bodoli mewn ysgolion ar hyn o bryd.
- Yn olaf, mae angen ystyried y **negeseuon a gyflëir i ddysgwyr am werth a phwysigrwydd sgiliau Cymraeg** a sut i gefnogi dysgwyr i fanteisio i'r eithaf ar y ddarpariaeth sydd ar gael. Fel rhan o hyn dylid sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth ddwyieithog a darpariaeth Gymraeg yn cefnogi cyrhaeddiad ieithyddol pob dysgwr yn drylwyr, ac mae'n hanfodol fod hyn yn cael **ei ystyried yng nghyd-destun datblygu sgiliau iaith gweithlu'r dyfodol**.



Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

21 Rhagfyr 2023

Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr

Annwyl Jeremy,

Yn ddiweddar, gwnaethom ystyried [Adroddiad newydd Comisiynydd y Gymraeg ar addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr](#).

Nodwn rai o'r ystadegau a ddarparwyd yn yr adroddiad. Er enghraifft:

- Y gwahaniaeth yng nghanrannau'r pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng dysgwyr ysgol (72%) a dysgwyr coleg (4%).
- Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod 15.2% o weithgareddau chweched dosbarth mewn ysgolion drwy gyfrwng Cymraeg yn ystod 2021-22 o gymharu â 0.2% o weithgareddau mewn sefydliadau addysg bellach.
- Tri rheswm cyffredin sydd gan y rhai sy'n rhugl yn Gymraeg, neu'n ei medru cryn dipyn, dros beidio ag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yw:
 - y canfyddiad bod eu sgiliau Saesneg yn gryfach a bod astudio trwy gyfrwng y Saesneg yn haws iddynt;
 - nad oedd pwnc (neu bynciau) ar gael yn Gymraeg;
 - y canfyddiad bod eu hastudiaethau pellach yn debygol o fod yn Saesneg neu fod gwell rhagolygon drwy astudio yn Saesneg.

- Y gwahaniaethau rhanbarthol rhwng y dysgwyr hynny oedd yn teimlo bod digon o gyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hardal. Yn gyffredinol, 60% oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, ond mae'r adroddiad yn dangos gwahaniaethau rhanbarthol clir. Er enghraifft, yn y canolbarth, roedd 78% o ddysgwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, ond yn y de-ddwyrain, dim ond 47% o ddysgwyr oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Dywed yr adroddiad fod "prinder amlwg darpariaeth ôl-16 mewn sawl ardal".

Yn ei gasgliadau a'i ganfyddiadau, mae'r adroddiad yn nodi bod angen i'r sector ôl-16 fynd i'r afael â'r prinder darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn "meysydd mwy galwedigaethol". Mae'r Comisiynydd hefyd yn tynnu sylw at nifer o feysydd eraill lle mae angen rhagor o waith neu ystyriaeth, gan gynnwys:

- codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth i ddysgwyr barhau â'u haddysg ôl-ysgol;
- cryfhau darpariaeth Gymraeg ar draws y sector ôl-16;
- cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cymwysterau ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg;
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;
- mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ôl-16.

Byddem yn croesawu cael eich barn am y materion a drafodwyd yn adroddiad y Comisiynydd, a gwybod pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn, a pha rôl y bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd yn ei chwarae wrth ymdrin â'r materion hyn.

Oherwydd ei gyfrifoldebau o ran y Gymraeg, anfonir copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. Anfonir copi o'r llythyr hwn hefyd at Gomisiynydd y Gymraeg.

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 1 Chwefror 2024.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



B B C



Tudalen y pecyn 201

DOCTOR WHO: ECONOMIC IMPACT

Eitem 9.13

FOREWORD



This year, 2023, the BBC celebrated a significant milestone as we marked one hundred years of broadcasting in Wales. This has been a landmark moment and one which has provided an opportunity to reflect on both our role within Welsh society and on the incredible transformation with regards to content and technology over the last century.

It is a source of immense pride to us that the BBC's contribution to Wales today is probably greater than ever before in terms of the services we provide. We are producing or commissioning content for BBC One, BBC Two, S4C, BBC iPlayer, Radio Cymru, Radio Wales, BBC Sounds, BBC News, BBC Cymru Fyw and BBC Sport Online, Bitesize as well as supporting the BBC National Orchestra and Chorus of Wales. Wales is also now home to weekly programmes on BBC Radio 1, Radio 2, Radio 3, Radio 4 and Radio 6 Music. Beyond that we continue to make a significant contribution to the social and cultural fabric of this nation, to the Welsh language, and of course to the Welsh creative economy and sector.

As this report concludes, a significant catalyst for growth in that sector was the decision to revive and regenerate Doctor Who in 2005 and to locate the series to Cardiff.

This decision was nothing less than transformative for us in Wales, and it is remarkable, as we celebrate Doctor Who's 60th anniversary, that the ambition for this title which has been the cornerstone of the BBC's schedules continues to evolve and grow.

The commissioning risk taken in 2004 was the right one. The return of the series was welcomed by audiences globally, and it paved the way for Wales to become one of the primary locations for drama production in the UK. It created confidence in the skills and talent of our workforce, and became a catalyst for growth in the Welsh creative economy. This has developed to such an extent that today, in 2023, Wales is experiencing its biggest ever year of BBC drama production.

As well as the new series of Doctor Who produced for us by Bad Wolf with BBC Studios, and our BBC Studios continuing dramas, Casualty and Pobol y Cwm for S4C, there are a further six new BBC drama titles from Wales which have already hit the screens or are set to broadcast soon to audiences across the UK. From Steeltown Murders to Lost Boys and Fairies, Wolf, Men Up, Tree on Hill and The Way, the portrayal and representation of Wales on our screens through drama has never been stronger.

Yet, it is not just the BBC that has been able to develop its production base in Wales as a result of Doctor Who. Other broadcasters and streamers have subsequently brought high-end drama commissions to Wales, contributing to the growth of the whole sector. Together, with the support of the Welsh Government as well as other broadcaster and industry stakeholders, we now have a creative landscape of which we can be very proud.

Penblwydd hapus Doctor Who yn 60 – ymlaen i'r dyfodol! Happy birthday Doctor Who, and thanks to all who had the vision and the ambition to make Wales the home of this inimitable Time Lord.

Rhuanedd Richards

Director, BBC Cymru Wales



EXECUTIVE SUMMARY

To celebrate the 60th anniversary of Doctor Who, this report examines the legacy impact of Doctor Who's production in Wales since the series relaunched in 2005, with filming starting in July 2004.

In particular, it focuses on the economic contribution from the Doctor Who production itself as well as the role of Doctor Who as a catalyst for Welsh screen sector growth and its specialism in high-end scripted drama.

The report considers Doctor Who's impact since the relaunched series in 2005 to the most recent series with Jodie Whittaker as the Doctor (Series 13). It does not consider the continuing economic impact of the 60th anniversary episodes or forthcoming series that are produced by BBC Studios Production in partnership with Bad Wolf (Wolf Studios) and Disney Branded Television, as the economic data beyond Series 13 is not yet complete nor available.

The research has focused on three key areas: quantifying the economic impact of production activities, measured in terms of gross value added (GVA) and employment; describing the timeline and key decisions in regenerating Doctor Who in Wales and the immediate and legacy impacts on the Welsh screen sector as well as the role of other key stakeholders; and the economic and cultural spillover effects of Doctor Who.

This report was written and the underlying analysis (including economic modelling and research interviews) was conducted in-house by economists in the BBC's Public Policy team, from June to October 2023.



Regeneration of the Doctor and the Welsh screen sector

Part of popular culture in the UK and beyond for sixty years, Doctor Who was first broadcast on BBC television in 1963.

The show returned after a period off-screen in 2005, with the regenerated Doctor Who series produced in Cardiff by the BBC. Doctor Who's return was a pivotal moment and became a catalyst for the immense growth of the Welsh creative industries over the last 15 to 20 years. The screen sector – comprising of production, post-production, digital and special effects for film and TV, and TV broadcasting – is now the largest of the five Creative Industry sub-sectors prioritised by the Welsh Government and accounted for more than £459m turnover in 2022.

Commissioning Doctor Who in Wales was a risk for the BBC. Highly specialist sci-fi drama for TV had not been made in the UK for a significant number of years, and Welsh drama commissions for the BBC (UK network) was relatively limited. The immediate success of the first series helped establish Cardiff's reputation for delivering high-end drama and kicked off a series of Welsh drama commissions.



Economic impact of production activities

Our analysis of Doctor Who production activities (Series 1 to 13) estimates the economic impact to be:

More than

£134m

in gross value added (GVA) generated Wales alone.

Employed roughly

170

crew roles per series, with the majority of crew (67%) based in Wales.

This is in addition to above-the-line crew, which includes but is not limited to core cast, supporting artists, writers and other jobs created by the show.

Total UK contribution of more than

£256m

in GVA and supporting 94.5 FTE jobs per series in the supply chain and wider economy.

Catalyst for creative sector growth

The GVA of production activity understates the transformative impact that Doctor Who has had on the Welsh creative economy.

The show's overnight success strengthened industry confidence further that Wales could deliver world-class, high-end drama. Our research interviews and supplementary desk research identified the following key factors as fundamental to the outcomes observed today.

- Returning series of Doctor Who and successful spin-offs Torchwood and The Sarah Jane Adventures provided trust in the ability to deliver Welsh-made drama for network channels. The franchise was also crucial in offering scale and sustainable year-round work for local crew and opportunities for junior talent to develop their skills.



- The success of Doctor Who resulted in the BBC commissioning more Welsh-made drama for network and this includes both in-house and independent production. Moreover, the BBC built Roath Lock – the first purpose-built drama studio in Wales and an intended centre for excellence – and later invested in the new BBC Cymru Wales headquarters, Central Square. This demonstrated the BBC's intent and commitment to the Welsh screen sector and further high-end drama specialism.
- Other stakeholders have played a crucial role in realising the success of the Cardiff cluster and growth of creative industries across Wales; the creative cluster cannot solely be attributed to Doctor Who or the BBC. There has been a shared and continued ambition amongst industry stakeholders that has “helped create a virtuous circle where confidence, ambition and tangible sectoral growth interacted to change perception both within and outside Wales”.¹ The Welsh Government recognised that high-end TV drama would be an economic driver for the screen sector in Wales and focused their investments on local productions and large inward investments that would spend their budgets on local crews, facilities and locations, but also had the potential to be returning series. Independent producers, in particular Bad Wolf, have been immensely important in attracting international streamers and levelling up scale and production skills in Wales. There's also cross-industry commitment to skills and talent from Welsh universities, Sgil Cymru and Screen Alliance Wales in addition to strong innovation programmes and policy analysis from Media Cymru and Clwstwr.



What comes next?

The 60th anniversary specials and forthcoming Season 1 have been commissioned by BBC and Disney Branded Television under a shared creative vision that will deliver this quintessentially British show on an unprecedented scale, with Disney+ as the exclusive home for new seasons of Doctor Who outside the UK and Ireland.

Doctor Who, produced by Bad Wolf in association with BBC Studios Production continues to be made in Wales, retaining the strong association between Wales and the production. There's no doubt that the new Doctor Who series will continue to generate economic growth for Wales, the Welsh screen sector as well as engaging Welsh creative and production talent.

¹ Centre for the Creative Economy. October 2023.

INTRODUCTION

Part of popular culture in the UK and beyond for sixty years, Doctor Who was first broadcast on BBC television in 1963. Since then the ground-breaking series has showcased the best of British creativity to international acclaim and is loved by audiences across the globe.

Sixty years of Doctor Who has seen spin-offs on stage and screen as well as factual companion TV shows and podcasts for fans to peek behind-the-scenes or to celebrate the show's history. In 2022, Doctor Who was in the top 10 of TV franchise sales on DVD and paid-for download. Elsewhere, the show has a dedicated 24/7 FAST channel – Doctor Who: The New Adventures (2005 – 2022) – in Canada; and in France, Spain, and Italy Doctor Who is dubbed from English to the local language.² Prior to the landmark global distribution deal with Disney Branded Television in 2022, Doctor Who was available in 13 regions worldwide via 56 partners and in 54 languages. BBC Studios distribution includes more than 150 DVD products and almost 40 Blu-ray offerings. The breadth and depth of Doctor Who's fandom has also seen a range of gaming, live events, media and other products launched over the years.

“Our aim was to make an absolutely international programme that would be seen in Hong Kong and India and Australia and America, made in Wales... It's made here absolutely. And I think that's a really powerful thing to do.”

Russell T Davies, showrunner of Doctor Who (Series 1-4, the anniversary specials and forthcoming Season 1).



² Translated into French, Castilian Spanish and Italian respectively.

As a content brand, Doctor Who has generated significant economic value for the UK by exporting the best of British content and creativity to international audiences.

However, it is relevant to also consider significant economic activity generated by production of Doctor Who in the UK, and particularly in Wales.

The BBC's decision to make the rebooted Doctor Who in Cardiff has played a pivotal role in the development of Wales's creative industries.³ Creative industries are those which have their origin in individual creativity, skill and talent and which have a potential for wealth and job creation through the generation and exploitation of intellectual property.⁴ Today the Welsh creative industries account for 3.3% of total businesses in all industries;⁵ generating more than £1.4 billion annually and with more than 3,500 creative businesses employing almost 32,500 people.⁶ In 2019, 60% of all creative companies in Wales were concentrated in and around Cardiff, and more than a third of all Welsh creative industries turnover was generated in Cardiff alone.⁷ This report provides a new analysis of the regional economic impact of Doctor Who in Wales since the mid-2000s.

1.1 The Screen sector in Wales today

The screen sector in Wales has grown rapidly over the last 15 to 20 years, and has distinguished itself as a place to make quality, high-end drama for both TV and film.

